Ofcom
Y SWYDDFA GYFATHREBIADAU

# Cynllun Blynyddol 2008/09

Datganiad

Dyddiad cyhoeddi: 3 Ebrill 2008

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| | Rhagair | 3 |
| 1 | Crynodeb gweithredol | 5 |
| 2 | Ymagwedd strategol Ofcom | 8 |
| 3 | Rhaglen fanwl o waith | 25 |
| 4 | Darparu gwasanaethau i ddinasyddion a defnyddwyr | 44 |
| 5 | Cyflawni gwerth i randdeiliaid | 50 |

| Atodiad | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid | 52 |

# Rhagair

Rhagweld cydgyfeiriant oedd y prif reswm y cafodd Ofcom ei greu. Mae cydgyfeiriant wedi gweld sawl gwawr ffug, ond bedair blynedd ar ôl creu Ofcom, gallwn ddweud yn sicr bod cydgyfeiriant yn digwydd go iawn erbyn hyn.

Mae cydgyfeiriant yn effeithio ar bob agwedd ar ein bywydau bob dydd. Effeithia ar y modd yr ydym yn byw ein bywydau personol, y modd y cyfranogwn yn y gymdeithas fel dinasyddion a'r modd y gweithredwn fel defnyddwyr. Mae'n dod â buddion mawr i bob un ohonom drwy ddewis cynyddol, arloesedd, cyfleustra a phrisiau is yn cael eu gyrru gan fwy o gystadleuaeth.

Mae cydgyfeiriant yn dod â newidiadau ysgubol hefyd i strwythurau ein marchnadoedd cyfathrebiadau, gan ysgogi patrymau galw newydd a modelau busnes traddodiadol newidiol. Golyga gyfleoedd newydd i fusnesau a heriau newydd wrth i ffiniau marchnad hanesyddol gael eu herydu. Fel rheoleiddiwr, byddwn yn parhau i ystyried anghenion busnesau i gyd, mawr a bach, er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd rheoleiddio yn cefnogi gofynion cyfathrebiadau holl gwmnïau'r DU yn ogystal ag unigolion a chartrefi.

Wrth i gydgyfeiriant ailffurfio marchnadoedd cyfathrebiadau, bydd hefyd yn dechrau newid arfer rheoleiddio. Wrth i hyn ddigwydd, bydd Ofcom yn parhau i ganolbwyntio'n benderfynol ar sicrhau ein bod yn bodloni'n dyletswyddau canolog, sef hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr mewn perthynas â marchnadoedd cyfathrebiadau.

I ddinasyddion, mae buddion lawer yn sgil y newidiadau hyn. Fel dinasyddion, rydym yn dod yn rhan o gymdeithas â gwell cyswllt a mwy o rwydweithio, cymdeithas sy'n ein galluogi i ryngweithio ac i gael mynediad i wybodaeth a gwasanaethau mewn ffyrdd newydd ac arloesol.

Ond mae heriau i ni fel dinasyddion hefyd. Er enghraifft, mae'n rhaid i ni ailystyried y modd y cyflawnwn rai amcanion gwerth cyhoeddus hanfodol, wrth i ymagweddau presennol gael eu herio gan yr amgylchedd newidiol. Yn benodol, mae angen i ni ystyried y modd y parhawn i gyflawni'n hamcanion gwerth cyhoeddus ym meysydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus a radio, a dechrau ystyried materion ehangach yn ymwneud â mynediad ac argaeledd rhwydweithiau a gwasanaethau gwahanol.

I ddefnyddwyr, mae buddion sylweddol hefyd yn cael eu gyrru gan gydgyfeiriant. Rydym yn mwynhau prisiau is, mwy o ddewis rhwng cyflenwyr ac amrywiaeth ehangach o gynhyrchion a gwasanaethau nag erioed o'r blaen. Heddiw, mae gennym fwy o reolaeth bersonol dros ein cyfryngau nag erioed o'r blaen, mwy o symudedd a'r gallu i gyfranogi yn ein profiad o'r cyfryngau na welwyd ei debyg o'r blaen.

Ar yr un pryd, mae heriau gwahanol i ddefnyddwyr. Gall cydgyfeiriant, ochr yn ochr â chystadleuaeth fwy tanbaid, arwain at gymhlethdod a graddau amrywiol o ddryswch a phryder. Mae angen i ni sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu a'u bod yn gallu eu diogelu'u hunain a'u teuluoedd fel y gallant fwynhau buddion cydgyfeiriant yn llawn. Fodd bynnag, bydd gan Ofcom rôl i'w chwarae o hyd i ymyrryd yn bendant i ddiogelu pobl rhag niwed gwirioneddol neu botensial pa bryd bynnag y bydd angen gwneud hyn.

I wneud yn siŵr ein bod yn barod i fodloni'r heriau hyn, datblygodd Ofcom fframwaith strategol tair blynedd y llynedd. Nod y fframwaith yw arwain ein gwaith hyd at 2010, a chyflawni ein hamcan o reoleiddio *ar gyfer* cydgyfeiriant, er mwyn sicrhau y gall pawb gael budd o gydgyfeiriant. Fel rhan o'n proses gynllunio flynyddol eleni, rydym wedi asesu'r prif ddatblygiadau yn y farchnad er mwyn sicrhau bod ein fframwaith strategol yn parhau'n briodol, ac i ddatblygu rhaglen waith sy'n adlewyrchu'r datblygiadau hyn, ac yn ymateb iddynt. Mae hyn wedi ein galluogi hefyd i bennu ein prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sy'n dod.

Parhawn yn ymrwymedig i'n nod o gyflawni'r gwerth uchaf am arian i'n rhanddeiliaid. Dros y blynyddoedd a aeth heibio, mae Ofcom eisoes wedi sicrhau enillion effeithlonrwydd sylweddol, ac rydym wedi cynllunio mentrau newydd yn y maes hwn. Er y galw cynyddol ar reoleiddio yn sgil cydgyfeiriant, rydym unwaith eto wedi gallu sicrhau gostyngiad cyllidol o ran termau real.

Mae ein cyllideb ar gyfer 2008/09 wedi ei phennu ar £133.7m, gostyngiad o 1.5% mewn termau real. Hefyd, rydym wedi gorffen ad-dalu'r benthyciad a gawsom gan y Llywodraeth i sefydlu Ofcom erbyn hyn hefyd, ac ni fydd angen cyfraniadau pellach gan randdeiliaid o 2008/09.

O ganlyniad i'r ailstrwythuro a wnaed ar ôl creu Ofcom, mae'r costau rheoleiddio dros y pedair blynedd diwethaf wedi bod yn sylweddol is nag y byddent fel arall mewn unrhyw senario debygol, hyd yn oed gan ganiatáu ar gyfer costau'r benthyciad a hwylusodd yr ailstrwythuro hwn. Byddwn yn gweld gostyngiad yn y gyllideb mewn termau real am ein pedwaredd flwyddyn olynol.

Mae ein cynllun gwaith yn adlewyrchu mewnbwn eang gan randdeiliaid. Wrth ddatblygu ein cynigion, gofynnom am fewnbwn cynnar gan holl gyrff ymgynghori Ofcom er mwyn adlewyrchu anghenion pob rhan o gymdeithas y DU. Wrth gwblhau ein cynlluniau, rydym wedi ystyried yr ystod amrywiol o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Blynyddol Drafft, ac adborth a gafwyd yn ystod digwyddiadau cyhoeddus yn Glasgow, Dundee, Belfast, Caerdydd, Caernarfon a Llundain. Rydym yn falch bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol i raddau helaeth i'n rhaglen waith arfaethedig a'n blaenoriaethau, a gwnaed nifer o sylwadau defnyddiol y gobeithiwn y cânt eu hadlewyrchu yn y cynllun blynyddol terfynol hwn.

Hoffwn ddiolch i bob un o'n rhanddeiliaid am gyfrannu at ddatblygu'r Cynllun Blynyddol. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda phob un ohonoch i weithredu ein cynllun gwaith yn yr hyn sy'n debygol o fod yn flwyddyn arall o newid cyflym, gan ddod â chyfleoedd pellach, a chodi cwestiynau i bob un ohonom yn y sector cyfathrebiadau.

**David Currie**
**Cadeirydd**

**Ed Richards**
**Prif Weithredwr**

## Adran 1

# Crynodeb gweithredol

1.1 Mae llawer un yn y sector cyfathrebiadau wedi darogan dyfodiad cydgyfeiriant ers tro - mae'r newidiadau yr ydym yn eu gweld yn awr yn awgrymu bod cydgyfeiriant yn digwydd go iawn bellach. Bydd goblygiadau posibl y newidiadau hyn i ddinasyddion a defnyddwyr yn sylweddol. Rydym bellach wedi cychwyn ar y broses o newid i'r digidol yn y DU. Rydym wedi gweld gwasanaethau newydd, fel rhwydweithio cymdeithasol, yn cynyddu o ran poblogrwydd yn gyflymach nag a ddisgwyliodd unrhyw un. Rydym yn gweld gwasanaethau a busnesau mwy cydgyfeiriol yn dod i'r amlwg.

1.2 Yn sgil y datblygiadau hyn, nodom yng nghynllun blynyddol y llynedd y byddai Ofcom yn ceisio rheoleiddio *ar gyfer* cydgyfeiriant. I gyflawni hyn, datblygom fframwaith strategol tair blynedd, gan ganolbwyntio ar bum prif faes:

- gyrru yn ei blaen ymagwedd sy'n seiliedig ar y farchnad tuag at sbectrwm;
- hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd;
- sicrhau cyflawni amcanion gwerth cyhoeddus;
- gwella grymuso, diogelu a gorfodi dinasyddion a defnyddwyr; ac
- ystyried y fframweithiau cyfreithiol ac economaidd ar gyfer rheoleiddio cyfathrebiadau.

1.3 Ategir y pum prif elfen hyn gan ddau weithgaredd sy'n torri ar draws holl feysydd gwaith Ofcom. Y rhain yw: parhau i leihau rheoleiddio a lleihau beichiau gweinyddol; a hyrwyddo i'r eithaf ein heffaith ar ddatblygu polisi rhyngwladol er mwyn cynrychioli buddiannau dinasyddion a defnyddwyr y DU.

1.4 Gwelodd y flwyddyn a aeth heibio nifer o ddatblygiadau allweddol yn y sector cyfathrebiadau, gan awgrymu bod cydgyfeiriant yn cyflymu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cymysgedd newidiol o ddefnydd o gyfryngau, a ffyrdd newydd o ddefnyddio gwasanaethau cyfathrebu gan grwpiau defnyddwyr gwahanol;
- poblogrwydd cynyddol cynhyrchion wedi'u bwndelu a chynhyrchion cydgyfeiriedig ymhlith defnyddwyr;
- heriau i fodelau busnes cyfryngau traddodiadol, sy'n dod i'r amlwg yn gyflymach nag a ragwelwyd, ac yn arwain at oblygiadau i gyflawni amcanion gwerth cyhoeddus;
- ffynonellau cystadleuaeth newydd mewn cyflwyno gwasanaethau, wrth i'r nifer o lwyfannau cyfathrebiadau sy'n cael eu defnyddio gan ddefnyddwyr gynyddu;
- arloesedd cynyddol mewn gwasanaethau a mwy o ddefnydd o'r gwasanaethau hyn gan ddefnyddwyr unigol a defnyddwyr busnes; a

- risg barhaus materion cystadleuaeth newydd yn dod i'r amlwg yn sgil ffurfiau newydd pŵer y farchnad.

1.5 Rydym bellach yn nesáu at ail flwyddyn ein fframwaith tair blynedd. Ar sail ein dadansoddiad o dueddiadau'r farchnad ac ymatebion rhanddeiliaid i'n hymgynghoriad, credwn fod y fframwaith hwn yn parhau'n berthnasol i'n nod o reoleiddio *ar gyfer* cydgyfeiriant.

1.6 O fewn y fframwaith hwn rydym wedi datblygu rhaglen waith eang ei chwmpas, sy'n adlewyrchu datblygiadau diweddar allweddol yn y sector cyfathrebiadau. Mae ein rhaglen waith yn cynnwys 21 o brif feysydd gwaith. Mae hyn yn cynnwys prosiectau sydd ar gyfnod gweithredu cyfredol, meysydd datblygu polisi cyfredol a gweithgareddau sganio'r gorwel sy'n edrych ymhellach i'r dyfodol.

**Ffigur 1: Prif feysydd gwaith polisi yn 2008/09**

| Elfennau'r fframwaith | Gyrru yn ei blaen ymagwedd sy'n seiliedig ar y farchnad tuag at sbectrwm | Hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd cydgyfeiriol | **Cyflawni amcanion gwerth cyhoeddus wrth i lwyfannau a gwasanaethau gydgyfeirio** | **Grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella cydymffurfio rheoleiddiol lle bo angen** | **Cefnogi datblygiad y fframweithiau cyfreithiol ac economaidd ar gyfer rheoleiddio** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithrediad cyfredol | • Gyrru rhyddfrydoli a masnachu sbectrwm yn ei flaen<br>• Cyflawni nodau sbectrwm rhyngwladol | • Gweithredu strategaeth Ofcom ar gyfer telegyfathrebiadau sefydlog | • Hyrwyddo mynediad a chynhwysiad<br>• Cynorthwyo'r Newid i Ddigidol | • Hyrwyddo llythrennedd y cyfryngau<br>• Datblygu a gorfodi polisïau diogelu defnyddwyr<br>• Gorfodi cystadleuaeth a datrys anghydfodau | |
| Datblygiad polisi cyfredol (1-2 flynedd) | • Rhyddhau sbectrwm i alluogi gwasanaethau newydd, gan gynnwys yr Adolygiad o'r Difidend Digidol | • Paratoi ar gyfer rhwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf<br>• Hyrwyddo cystadleuaeth mewn teledu talu | • Adolygu modelau ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus<br>• Datblygu ymagwedd at ddatblygiad radio | • Hyrwyddo gwybodaeth defnyddwyr a sicrhau y gall defnyddwyr newid darparwyr yn gyflym ac yn hawdd<br>• Hyrwyddo ymddiriedaeth mewn darlledu | • Datblygu ymagweddau at reoleiddio cynnwys yn oes y rhyngrwyd<br>• Cyfranogi at ddatblygu deddfwriaeth UE newydd |
| Meddwl ymlaen (2 flynedd +) | | • Datblygu ymagwedd Ofcom at symudol<br>• Archwilio'r potensial i faterion cystadleuaeth newydd ddod i'r amlwg | | | • Archwilio effaith cydgyfeiriant ar fframweithiau rheoleiddio<br>• Newid sefydliadol yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon |

Lleihau rheoleiddio a lleihau beichiau gweinyddol

Hyrwyddo i'r eithaf ein heffaith ar ddatblygu polisi rhyngwladol

1.7 O fewn y rhaglen waith hon, rydym wedi nodi nifer o brif flaenoriaethau. Meysydd gwaith yw'r rhain lle mae cynnydd yn hollbwysig yn 2008/09 i sicrhau bod Ofcom yn cyflawni'i fwriad tymor hwy i gynyddu i'r eithaf buddion cydgyfeiriant ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr ar draws y DU. Meysydd gwaith yw'r rhain a fydd yn cyflawni'r buddion posibl mwyaf i ddinasyddion a defnyddwyr; yn mynd i'r afael â'r risgiau mwyaf i ddinasyddion a defnyddwyr; neu'r rheiny sy'n fwyaf dibynnol ar amser.

1.8 Er y nodwn y rhain fel prif flaenoriaethau, nid yw hyn yn golygu nad yw prif feysydd gwaith polisi a gynlluniwyd ar gyfer 2008/09 yn bwysig hefyd. Mae pob un o'n gweithgareddau cynlluniedig yn parhau'n angenrheidiol i gyflawni ein dyletswyddau statudol i ddinasyddion a defnyddwyr. Byddwn yn gweithio i sicrhau y cyflawnir ein cynlluniau yn holl feysydd y rhaglen waith i'r safon uchaf bosibl.

### Ffigur 2: Meysydd blaenoriaeth uchaf ar gyfer 2008/09

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Elfennau'r fframwaith | Gyrru yn ei blaen ymagwedd sy'n seiliedig ar y farchnad tuag at sbectrwm | Hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd cydgyfeiriol | Cyflawni amcanion gwerth cyhoeddus wrth i lwyfannau a gwasanaethau gydgyfeirio | Grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella cydymffurfio rheoleiddiol lle bo angen | Cefnogi datblygiad y fframweithiau cyfreithiol ac economaidd ar gyfer rheoleiddio |
| Prif feysydd blaenoriaeth | • Adolygiad o'r Difidend Digidol | • Gweithredu strategaeth Ofcom ar gyfer telegyfathrebiadau sefydlog<br>• Paratoi ar gyfer rhwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf<br>• Hyrwyddo cystadleuaeth mewn teledu talu<br>• Datblygu ymagwedd Ofcom at symudol | • Hyrwyddo mynediad a chynhwysiad<br>• Adolygu modelau ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus<br>• Datblygu ymagwedd at ddatblygiad radio | • Hyrwyddo llythrennedd y cyfryngau<br>• Datblygu a gorfodi polisïau diogelu defnyddwyr | • Cyfranogi at ddatblygu deddfwriaeth UE newydd |

1.9 Mae cyflymder newid yn y sectorau cyfathrebiadau yn golygu y bydd materion annisgwyl yn codi yn ystod y flwyddyn yn aml. I sicrhau bod gan Ofcom adnodd digonol i fynd i'r afael â materion felly heb gyfaddawdu ein gwaith cyfredol, rydym wedi neilltuo cyfran o allu mewnol ar gyfer gorchwylion annisgwyl yn 2008/09.

1.10 Yn ychwanegol at ein gwaith polisi, mae Ofcom yw cyflwyno amrywiaeth o wasanaethau pwysig i randdeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys: cadw'r sbectrwm yn rhydd o ymyrraeth; dyrannu ystodau rhifau; darparu gwasanaethau gwybodaeth a dadansoddiadau i'r farchnad, er enghraifft ein hadroddiadau blynyddol ar y Farchnad Gyfathrebu. Mae rhanddeiliaid yn nodi'r rhain fel gwasanaethau gwerthfawr, a byddwn yn gweithio i barhau i wella'u cyflwyniad.

1.11 Wrth gyflawni ein rhaglen waith polisi a'n gwasanaethau, parhawn yn ymrwymedig i gynyddu ein heffeithlonrwydd i'r eithaf er mwyn cyflawni'r gwerth uchaf am arian i'n rhanddeiliaid. Bydd Ofcom yn parhau â'i ffocws ar wella gwerth am arian drwy amrywiaeth o fentrau yn y flwyddyn i ddod. Mae ein cyllideb ar gyfer 2008/09 wedi ei phennu ar £133.7m, gostyngiad o 1.5% mewn termau real o gymharu â chyllideb y llynedd. Hon yw'r pedwerydd gostyngiad olynol o ran termau real yng nghyllideb Ofcom

1.12 Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar ein Cynllun Blynyddol Drafft yn gefnogol ar y cyfan i'n rhaglen waith. Cytunai rhanddeiliaid yn gyffredinol bod ein fframwaith tair blynedd yn parhau'n berthnasol, ac mai'r prif feysydd blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer 2008/09 oedd y rhai iawn.

1.13 Codwyd nifer o gwestiynau penodol ynglŷn ag ymagwedd Ofcom at gynllunio a blaenoriaethu. Rydym wedi ystyried y sylwadau hyn ac wedi addasu'r cynllun blynyddol terfynol i adlewyrchu'r adborth hwn. Hefyd, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynnwys llawer o sylwadau ac awgrymiadau defnyddiol ar faterion polisi penodol. Mae Atodiad 1 yn rhoi crynodeb o ymatebion Ofcom i adborth yr ymgynghoriad.

## Adran 2

# Ymagwedd strategol Ofcom

### Ymagwedd Ofcom at reoleiddio

2.1 Yn yr amgylchedd o newid cyflym parhaus, mae'n bwysig bod gan Ofcom ymagwedd glir at gyflawni'i gylch gwaith rheoleiddio a'i ddyletswyddau tuag at ddinasyddion a defnyddwyr. I gyflawni hyn, amlinellom nifer o egwyddorion ar y modd y byddem yn datblygu ac yn gweithredu rheoleiddio.

2.2 Mae'r egwyddorion rheoleiddio yn gweithredu fel canllaw yn ein gwaith i gyd, i sicrhau y rhown sylw i faterion polisi yn effeithiol, ac mewn modd amserol a chynhwysfawr. Hefyd, maent yn helpu i roi eglurder i randdeiliaid ar y modd y gweithredwn a'n hymagwedd at faterion polisi penodol.

**Ffigur 3: Egwyddorion rheoleiddio Ofcom**

**Pryd y byddwn yn rheoleiddio**

- Bydd Ofcom yn gweithredu gyda thuedd yn erbyn ymyrryd, ond gyda pharodrwydd i ymyrryd yn gyflym ac yn effeithiol lle bo gofyn.
- Bydd Ofcom yn ymyrryd lle mae dyletswydd statudol benodol i weithio tuag at nod polisi cyhoeddus na all marchnadoedd ei gyrraedd ar eu pennau eu hunain.

**Sut y byddwn yn rheoleiddio**

- Bydd Ofcom bob amser yn ceisio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol i gyflawni ein hamcanion polisi.
- Bydd Ofcom yn ymdrechu i sicrhau bod ein hymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran ystyriaeth a chanlyniad.
- Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda chynllun blynyddol wedi'i gyfleu'n glir a'i adolygu'n gyhoeddus, ac ynddo amcanion polisi penodol.

**Sut y byddwn yn cefnogi rheoleiddio**

- Bydd Ofcom yn ymchwilio i farchnadoedd yn gyson ac yn anelu at barhau ar flaen y gad o ran dealltwriaeth dechnolegol.
- Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn gorfodi rheoleiddio ar farchnad.

2.3 Gweithreda Ofcom gyda thuedd yn erbyn ymyrryd, er mwyn lleihau risg canlyniadau anfwriadol yn codi o reoleiddio. Fe allai canlyniadau felly wyrdroi neu fygu datblygiad marchnadoedd cystadleuol. Lle mae'n ofynnol ymyrryd, fodd bynnag, byddwn yn ymyrryd yn gyflym ac yn bendant. Er enghraifft, gall gwasanaethau newydd yn dod i'r amlwg greu mwy o risg y bydd defnyddwyr yn dioddef sgamiau, neu arferion busnes difrïol. Mae gan Ofcom rôl hanfodol i'w

chwarae i atal gweithgareddau o'r fath er mwyn diogelu defnyddwyr, a'u galluogi i fwynhau buddion yn sgil gwasanaethau newydd.

2.4 Mae'n rhaid i ni sicrhau bod rheoleiddio'n helpu yn hytrach na'n rhwystro marchnadoedd rhag datblygu. I gyflawni hyn, ein hegwyddor yw defnyddio'r mecanweithiau rheoleiddio lleiaf ymwthiol ar gyfer y sefyllfa. Enghraifft o hyn yw creu Dyfarnwr Telegyfathrebiadau i ddelio â materion yn codi yn sgil gweithredu dadfwndelu dolen leol (LLU). Golygai cyfeirio materion felly at y Dyfarnwr Telegyfathrebiadau yn y lle cyntaf y gellid delio mewn modd pragmatig ac effeithlon â phroblemau ynghylch gweithredu dadfwndelu dolen leol.

2.5 Mae cyflymder newid yn y sector cyfathrebiadau yn ei gwneud yn hanfodol bod dealltwriaeth glir o agweddau pobl ac o'r modd y mae marchnadoedd yn newid yn tanategu ein penderfyniadau. Mae rhaglen gynhwysfawr o ymchwil yn ategu ein hymrwymiad i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. Cyhoeddwn adroddiadau rheolaidd ar ddatblygiadau yn y farchnad.

2.6 Hefyd, cydnabyddwn bwysigrwydd ymgynghori ag ystod lawn ein rhanddeiliaid, yn anffurfiol wrth i opsiynau polisi gael eu nodi, ac yn ffurfiol trwy gyhoeddi dogfennau ymgynghori. Yn ychwanegol at hynny, mae asesiadau effaith yn helpu sicrhau ein bod yn dilyn arfer da wrth wneud penderfyniadau am bolisi, gan nodi ystod o opsiynau polisi a dadansoddi'r effeithiau y byddent yn eu cael.

2.7 Yn Neddf 2003, pennodd y Senedd prif ddyletswydd arnom i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr. Gwna hyn hi'n arbennig o bwysig i ni ddeall sut y bydd ein penderfyniadau'n effeithio arnynt. Mae pawb ohonom yn ddinasyddion ac yn ddefnyddwyr. Fel defnyddwyr, cyfranogwn yn y farchnad, gan gaffael neu ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau. Yn fyr, chwiliwn am yr hyn sy'n dda i ni ein hunain. Fel dinasyddion, rydym yn ymwneud nid â'n buddiannau unigol cul, ond yn hytrach â'r hyn sy'n dda i'r gymdeithas gyfan.

2.8 Gall natur y materion dinasyddiaeth olygu gorfod llunio barnau cymhleth am werth. Yn aml, felly, bydd materion dinasyddiaeth sy'n dod o fewn cylch gwaith Ofcom yn golygu naill ai (a) gweithredu dan fandad penodol a bennwyd mewn deddfwriaeth gan y Senedd, neu (b) Ofcom yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth i sicrhau y gweithredir barnau cymhleth am werth mewn modd sy'n gyson ag atebolrwydd democratig. Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus, lle mae gan Ofcom ddyletswyddau penodol iawn a bennwyd yn y Ddeddf Cyfathrebiadau, yn enghraifft o'r cyntaf, ac mae gwasanaeth cyffredinol ar gyfer telegyfathrebiadau yn enghraifft o'r ail, o gofio bod Ofcom yn cynghori ar gwmpas a chymhwyso RhGC, ond mai gan y Llywodraeth y mae'r pŵer terfynol i wneud penderfyniadau.

2.9 Weithiau, fe all buddiannau dinasyddion fod yn groes i fuddiannau rhai defnyddwyr unigol. Er enghraifft, fe all hyrwyddo argaeledd gwasanaethau telegyfathrebiadau sydd ar gael yn gyffredinol olygu mynd y tu hwnt i'r hyn y byddai'r farchnad yn ei gyflwyno. Gellid edrych ar ymyrraeth felly fel rhywbeth sydd er budd dinasyddion: fe allai hyrwyddo cymdeithas fwy cynhwysol a chydgysylltiedig. Byddai o fudd uniongyrchol hefyd i'r defnyddwyr hynny na fyddent fel arall yn gallu cael rhai gwasanaethau telegyfathrebiadau, fel y rheiny sy'n byw mewn rhannau anghysbell o'r DU. Fodd bynnag, rhaid talu am ymyriadau felly yn gyffredinol, a allai, gan ddibynnu ar ffurf yr ymyriad, olygu y byddai'n rhaid i rai ohonom dalu mwy am wasanaethau nag y byddem yn gorfod talu fel arall.

2.10 Felly, wrth wneud penderfyniadau polisi, mae'n bwysig nodi buddiannau dinasyddion a buddiannau defnyddwyr. Wedyn gallwn ddeall ac esbonio'n glir y

cyfaddawdau y mae ein penderfyniadau'n eu golygu yn aml. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth i ni ymateb i farchnadoedd sy'n cydgyfeirio a marchnadoedd sy'n mynd yn gynyddol gystadleuol. Er enghraifft, ni fydd yr holl wasanaethau newydd ar gael i bawb o angenrheidrwydd, ac os ydynt, gall y prisiau amrywio. Fe allai hyn golygu bod effaith cydgyfeiriant yn anwastad ar draws grwpiau defnyddwyr neu ddinasyddion gwahanol. Yn yr achos hwn, byddai angen i ni weithio gyda'r Llywodraeth i bennu pa wasanaethau y cred y gymdeithas y dylai fod mynediad ehangach iddynt.

2.11 Mae'n hanfodol hefyd pwysleisio bod ein diffiniad o ddefnyddwyr yn cynnwys busnesau yn ogystal â defnyddwyr unigol. Golyga hyn bod angen i reoleiddio meithrin amgylchedd marchnad sy'n ymateb i anghenion mentrau bach, canolig a mawr yn y DU. Mae llawer o'n prosiectau wedi mynd i'r afael ag anghenion penodol cwmnïau. Er enghraifft, roedd ein gwerthusiad o effaith yr adolygiad strategol o delegyfathrebiadau yn edrych yn benodol ar yr effaith ar ddefnyddwyr busnes, tra bod yr adolygiad marchnad o ymgysylltiad busnes yn canolbwyntio'n benodol ar y farchnad busnes. Mae'r darn sylweddol iawn o waith hwn yn effeithio ar fuddiannau miloedd o gwmnïau ar draws y DU.

## Ystyried fframwaith strategol Ofcom

2.12 Er mai canlyniad y farchnad yn datblygu ac arloesi yw cydgyfeiriant, mae gan Ofcom rôl i'w chwarae i ddylanwadu ar gyflymder cydgyfeiriant a pha mor eang y bydd y buddion hyn ar gael. Credwn mai rôl Ofcom yw rheoleiddio *ar gyfer* cydgyfeiriant a sicrhau y caiff buddion cydgyfeiriant eu hyrwyddo i'r eithaf ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr i gyd, ar hyd y DU.

2.13 I gyflawni hyn, amlinellom fframwaith strategol tair blynedd y llynedd, gan ganolbwyntio ein gwaith ar bum maes allweddol:

- **gyrru yn ei blaen ymagwedd sy'n seiliedig ar y farchnad tuag at sbectrwm** er mwyn sicrhau gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnodd gwerthfawr hwn. Byddwn y gweithio i leihau'r cyfyngiadau ar y modd y gellir defnyddio sbectrwm, er mwyn hwyluso masnachu sbectrwm ac i sicrhau bod mwy o sbectrwm ar gael i'r farchnad;

- **hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd** mewn marchnadoedd cydgyfeiriol drwy sicrhau bod ein strategaeth telegyfathrebiadau sefydlog yn cael ei gweithredu'n effeithiol, gan annog buddsoddi effeithlon mewn rhwydweithiau cenhedlaeth nesaf ac archwilio'r potensial i ffynonellau newydd pŵer marchnad ddod i'r amlwg;

- **sicrhau cyflawni amcanion gwerth cyhoeddus** drwy sicrhau bod cynnwys o ansawdd uchel ar gael ar amrywiaeth o lwyfannau, gan hyrwyddo mynediad ym mhob rhan o'r DU i'r gwasanaethau cyfathrebiadau sydd eu hangen i gyfranogi yn y gymdeithas, ac adolygu ein hymagwedd at reoleiddio cynnwys;

- **grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella cydymffurfio â rheoleiddio** lle bo angen drwy hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau (hynny yw, sgiliau a gwybodaeth i alluogi pobl i wneud defnydd llawn o wasanaethau cyfathrebiadau, ac i'w diogelu eu hunain rhag risgiau), a sicrhau bod y wybodaeth gan ddefnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus yn y farchnad. Hefyd, byddwn yn parhau i ddatblygu a gorfodi rheolau diogelu defnyddwyr, gan weithio i wella cydymffurfio â rheoleiddio drwy symleiddio'r rheolau ac adolygu ein hymagwedd at reoleiddio; ac


- ystyried sut y mae angen i’r **fframweithiau cyfreithiol ac economaidd ar gyfer rheoleiddio cyfathrebiadau** ddatblygu mewn ymateb i ddatblygiadau mewn cydgyfeiriant.

Yn ychwanegol at y pum maes hyn, mae dau faes arall sy’n torri ar draws holl waith Ofcom:


- parhau i **leihau rheoleiddio a lleihau beichiau gweinyddol;** a

- **hyrwyddo i’r eithaf ein heffaith ar ddatblygu polisi rhyngwladol** er mwyn cynrychioli buddiannau dinasyddion a defnyddwyr y DU yn y modd gorau posibl.

**Ffigur 4: Fframwaith strategol tair blynedd Ofcom**




2.14 Eleni rydym yn ystyried a yw ein fframwaith tair blynedd yn parhau’n berthnasol o ystyried newidiadau cyfredol yn y farchnad. Daeth ein dadansoddiad i’r casgliad bod y fframwaith yn parhau’n berthnasol iawn i gyflawni amcan Ofcom i hyrwyddo buddion cydgyfeiriant i’r eithaf. Roedd ymatebion rhanddeiliaid i’r ymgynghoriad ar y Cynllun Blynyddol Drafft yn gefnogol ar y cyfan i’r casgliad hwn. Isod, rhown grynodeb o’r tueddiadau allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf a’u goblygiadau i’n hymagwedd strategol a’n rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod.




**Mae cydgyfeiriant yn dal i gyflymu**

2.15 Ymateb i ddatblygiadau mewn cydgyfeiriant oedd y rheswm y cafodd Ofcom ei greu. Mae hyn yn parhau’n ganolog i bopeth a wnawn. Bum mlynedd yn ôl, pan bennwyd cylch gorchwyl Ofcom gan y Senedd, cyfran gymharol fach o boblogaeth y DU oedd yn mwynhau gwasanaethau cydgyfeiriedig. Heddiw, mae gwasanaethau felly yn ffenomen y farchnad fàs. Mae nifer cynyddol o wasanaethau yn cael eu lansio dros lwyfannau niferus, cystadleuol gan chwaraewyr traddodiadol a chwaraewyr newydd sy’n dod i mewn i’r farchnad, ac mae nifer cynyddol o ddefnyddwyr yn defnyddio’r gwasanaethau hyn.

2.16 Fe wnaeth y nifer yn prynu'r holl dechnolegau digidol gynyddu dros y flwyddyn a aeth heibio wrth i ddefnyddwyr unigol a defnyddwyr busnes barhau i groesawu gwasanaethau a chymwysiadau newydd. Ymhlith defnyddwyr, mae bwndeli gwasanaeth (gan gynnwys cyfuniad o wasanaethau teledu, llinell sefydlog, symudol neu'r rhyngrwyd) yn cynyddu o ran poblogrwydd, ac mae'r niferoedd sy'n prynu gwasanaethau fel teledu digidol a band eang yn parhau i gynyddu. Mae defnyddwyr busnes yn parhau i werthfawrogi ymgysylltiad ac yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebu fel rhan o strategaethau ehangach i wella cynhyrchiant.

**Ffigur 5: Niferoedd sy'n prynu bwndeli a gwasanaethau digidol**




**2005 ar gyfer bwndeli*
*** Bwndeli, Radio DAB, Band eang: Ch1 2007, Teledu Digidol: Q3 2007*
*Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom*


2.17 Mae newidiadau yn y farchnad yn effeithio ar fodelau busnes chwaraewyr traddodiadol a chwaraewyr newydd i'r sector hwn. Yn gynyddol, mae modelau newydd ar gyfer cyflwyno gwasanaethau yn dod i'r amlwg o ystod o gwmnïau newydd o bob cwr o'r byd. Ar yr un pryd, mae perchnogion llwyfannau traddodiadol a darparwyr gwasanaeth yn arbrofi gyda llwyfannau a gwasanaethau newydd.

2.18 Wrth i ddefnyddwyr barhau i fabwysiadu cyfryngau digidol, maent yn cael mynediad cynyddol i wasanaethau cyfathrebiadau dros lwyfannau a dyfeisiadau gwahanol. Er enghraifft, dengys ein hymchwil fod 43% o oedolion y DU sydd â'r rhyngrwyd yn eu cartref yn ei defnyddio i lawrlwytho cerddoriaeth, ffilmiau a chlipiau fideo, tra bod un o bob pump yn gwrando ar y radio neu'n gwylio clipiau fideo neu gwelediadau ar-lein. Mae 33% o oedolion y DU wedi gwrando ar y radio drwy setiau teledu digidol, mae bron i chwarter wedi gwrando drwy'r rhyngrwyd, ac mae 17% yn berchen ar ddyfais DAB. Mae lleiafrif sylweddol o oedolion y DU bellach yn defnyddio ffonau symudol i fynd ar-lein (13%) ac i lawrlwytho cerddoriaeth (11%).

2.19 Mae tystiolaeth gynyddol hefyd bod pobl yn defnyddio cyfryngau gwahanol ar yr un pryd, yn hytrach nag amnewid eu defnydd o gyfryngau traddodiadol yn gyfan gwbl â chynnwys yn cael eu cyflwyno dros lwyfannau newydd. Treuliodd oedolion y DU gyfartaledd o 36 munud y diwrnod yn defnyddio'r rhyngrwyd yn 2006, o gymharu ag 14 munud yn 2002. Ond fe wnaeth yr amser a dreuliwyd ganddynt yn defnyddio'r teledu a radio leihau ychydig yn unig, gyda gostyngiad o 224 i 216 o

funudau’r diwrnod ar gyfer teledu, a 173 i 170 o funudau'r diwrnod ar gyfer y radio rhwng 2002 a 2006. Mae patrymau defnyddio cenedlaethau iau yn awgrymu mai felly y gallai fod yn y dyfodol: mae 59% o’r rhai 5-15 oed yn defnyddio’r rhyngrwyd ar yr un pryd â chyflawni rhyw weithgarwch cyfryngau eraill, yn ôl ein hymchwil.

**Ffigur 6: Gweithgareddau’r cyfryngau a wneir gan blant weithiau neu’n aml wrth wylio’r teledu**




*Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom, Ch1 2007*

2.20 Mae gwasanaethau a chymwysiadau ar-lein yn dod yn fwyfwy canolog i’n bywydau. Mae llawer o ddefnyddwyr yn cael mynediad i wybodaeth ar gyfer gwaith ac astudiaethau ar-lein, yn ogystal ag adloniant, bancio, siopa a rhwydweithio cymdeithasol. Mae llawer yn ymwneud â chyhoeddi eu deunydd eu hunain, boed hynny’n golygu cyhoeddi blogiau, cynnig sylwadau ar wefannau neu osod ffotograffau neu fideos ar-lein. Mae poblogrwydd y rhyngrwyd ymhlith defnyddwyr iau yn awgrymu y bydd y duedd hon yn parhau. Dengys ein hymchwil yng ngwanwyn 2007 fod 70% o blant deg oed yn defnyddio’r rhyngrwyd yn eu cartrefi, ac mae’r ganran honno’n codi i bron i 80% o blant 15 oed. At hynny, dywedodd 63% o blant 8 i 15 oed y byddent yn teimlo eu bod yn cael eu gadael allan heb y rhyngrwyd[1].

2.21 Mae cyflymder cynyddol cydgyfeiriant a’r newidiadau cysylltiedig mewn patrymau defnyddio yn golygu goblygiadau pwysig i reoleiddio. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig cydnabod bod y datblygiadau hyn yn effeithio llai ar rai rhannau o’r farchnad. Trafodwn isod oblygiadau’r tueddiadau hyn ar gyfer pob un o elfennau fframwaith strategol Ofcom.

**Bydd sbectrwm yn parhau i gyflawni gwerth economaidd a chymdeithasol – drwy ymagwedd seiliedig ar y farchnad y cyflawnir defnydd effeithlon o sbectrwm orau yn y byd cydgyfeiriedig**

2.22 Wrth bennu ein fframwaith strategol y llynedd nodom bwysigrwydd cynyddol adnodd sbectrwm cyfyngedig y DU. Mae datblygiadau dros y flwyddyn ddiwethaf yn awgrymu y bydd y duedd hon yn parhau. Mae sbectrwm yn adnodd hanfodol i

[1] Ffynhonnell : Ofcom – *Y Farchnad Gyfathrebu: Y Deyrnas Unedig 2007*

weithrediad y sector masnachol a'r sector cyhoeddus. Mae'n galluogi cyflawni rhai amcanion gwerth cyhoeddus allweddol, fel cyfathrebiadau ar gyfer y gwasanaethau brys a darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

2.23 Mae sbectrwm yn fewnbwn economaidd mawr a chynyddol yn ogystal: yn 2006, amcangyfrifwyd mai budd economaidd net sbectrwm radio i economi'r DU oedd £44.8bn, sef cynnydd o 50% mewn pum mlynedd. Daeth y rhan fwyaf o'r cynnydd hwn o'r sector symudol a'r sector darlledu, gan amlygu'r gwerth cynyddol a rydd defnyddwyr ar wasanaethau di-wifr symudol a'r niferoedd cynyddol sy'n prynu teledu digidol yn y DU[2].

2.24 Ochr yn ochr â'r gwasanaethau cyfathrebu di-wifr traddodiadol, mae'r defnydd o lwyfannau newydd yn cynyddu. Fe wnaeth nifer y cysylltiadau 3G actif gynyddu 70% dros y deuddeg mis hyd at fis Mawrth 2007, i 7.8m, tra bod nifer y mannau poblogaidd WiFi wedi cynyddu o dros 1,000 dros yr un cyfnod i gyrraedd 11,447.

2.25 Mae gwasanaethau a chymwysiadau di-wifr newydd yn parhau i gael eu cyflwyno wrth i gwmnïau geisio cyflwyno gwasanaeth newydd a chydgyfeiriol. Protocol Llais dros y Rhyngrwyd Symudol (VoIP) yw un o'r enghreifftiau diweddaraf o wasanaeth o bosibl yn dod â mwy o hyblygrwydd a gwerth i ddefnyddwyr y DU. Enghraifft arall yw gallu cynyddol technolegau fel LTE a WiMAX i gyflwyno gwasanaeth band eang di-wifr: maent yn arbennig o bwysig o ran trefnu bod band eang ar gael ar gyfer cymwysiadau symudol. Mae hyn yn awgrymu y bydd y galw am sbectrwm yn parhau i gynyddu, ac y bydd yn parhau'n brif alluogwr arloesedd yn y dyfodol.

2.26 O gofio parhad pwysigrwydd sbectrwm i gyflawni ystod eang o nodau cymdeithasol a'i arwyddocâd i economi'r DU, mae'n hanfodol sicrhau y defnyddir yr adnodd prin hwn yn y modd gorau posibl. Mae hyn yn golygu hyrwyddo i'r eithaf effeithlonrwydd cyflwyno gwasanaeth presennol, ond gan feithrin amodau hefyd ar gyfer arloesi'n barhaus mewn gwasanaethau.

2.27 Cred Ofcom mai ymagwedd seiliedig ar y farchnad tuag at reoli sbectrwm sydd, yn gyffredinol, yn rhoi'r mecanwaith mwyaf addas ar gyfer cyflawni'r nodau hyn. Fel y pennir yn yr Adolygiad o'r Fframwaith Sbectrwm (SFR), mae ymagweddau seiliedig ar y farchnad sy'n sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithlon. Mae ymagwedd felly yn helpu cyflawni tryloywder hefyd yn y defnyddiau cyhoeddus o sbectrwm, yn hytrach na'r dull gorchymyn a rheoli a ddefnyddiwyd i reoli sbectrwm yn y gorffennol.

2.28 Erbyn hyn rydym wedi hen ddechrau gweithredu'r SFR. Mae gwaith allweddol i yrru hwn yn ei flaen yn cynnwys:

- *rhyddhau sbectrwm* - mae disgwyliadau o hyd y bydd y galw ymhlith defnyddwyr am wasanaethau di-wifr yn parhau i dyfu. O ganlyniad, mae rhanddeiliaid yn parhau i fynnu mynediad i sbectrwm i lansio gwasanaethau newydd felly. Mae ein polisi rhyddhau sbectrwm yn ganolog i gyflawni'r galw hwn am sbectrwm, ac mae'n bwysig ein bod yn parhau â'r broses hon yn y flwyddyn i ddod. Mae ein blaenoriaethau'n cynnwys cwblhau'r dyfarniad L-Band, y dyfarniad 2.6 GHz a'r Adolygiad o'r Difidend Digidol ar gyfer y sbectrwm sy'n cael ei ryddhau gan y newid i'r digidol. Bydd y rhyddhau hwn yn helpu parhau i fodloni gofynion sbectrwm cynyddol a gyrru gwerth economaidd i'r DU trwy ddefnyddio sbectrwm; a

[2] I gael mwy o fanylion, gweler *http://www.ofcom.org.uk/research/radiocomms/reports/economic_spectrum_use/*

*rhyddfrydoli a masnachu sbectrwm* – rydym eisoes wedi ymgymryd â chryn dipyn o waith yn y maes hwn, gan gynnwys ein hymgynghoriad diweddar ar ryddfrydoli sbectrwm sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau symudol ar hyn o bryd. I fynd i'r afael â'r heriau a welsom yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym yn ystyried ffyrdd i gynyddu cyflymder rhyddfrydoli a masnachu sbectrwm yn ystod 2008/09.

**Bydd hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd yn gyrru buddion defnyddwyr, ac mae'n parhau'n allweddol i'n fframwaith strategol**



2.29 Mae hyrwyddo cystadleuaeth yn faes allweddol o ymdrechion Ofcom i gyflawni buddion cydgyfeiriant i ddinasyddion a defnyddwyr y DU. Mae marchnadoedd cystadleuol yn dangos lefelau uwch o arloesedd, mwy o ddewis, gwasanaethau o safon uwch a phrisiau is. O ganlyniad, rhoddwyd hyrwyddo cystadleuaeth lle bo'n briodol wrth wraidd dyletswydd Ofcom i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr.

2.30 Fe wnaeth datblygiadau'r farchnad dros y flwyddyn ddiwethaf amlygu buddion cystadleuaeth yn y sector cyfathrebiadau. Erbyn hyn mae defnyddwyr yn mwynhau prisiau is ac yn cael mynediad i fwy o ddewis gwasanaethau a darparwyr. Mae cost wirioneddol basged gyfartalog o wasanaethau telegyfathrebiadau cartrefi wedi gostwng o 38% mewn termau real rhwng 2002 a 2006 (o £104.82 i £69.85). Gellir gweld tystiolaeth o ddewis cynyddol yn y farchnad band eang: erbyn hyn mae gan dros 60% o gwsmeriaid ddewis o bedwar neu fwy o ddarparwyr rhwydwaith. O ganlyniad i'r gystadleuaeth hon rydym wedi gweld niferoedd uchel yn prynu'r gwasanaethau hyn, a lansio gwasanaethau newydd, gan gynnwys band eang lled band uwch ac IPTV.

2.31 Mae buddion cystadleuaeth yn cael eu teimlo gan fusnesau hefyd. Er enghraifft, mae mwyafrif y cwsmeriaid busnes o'r farn fod y farchnad telegyfathrebiadau sefydlog yn gystadleuol, gyda dros 80% o'r farn bod pris, ansawdd ac amrywiaeth y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig yn y farchnad naill ai'n gystadleuol eithriadol neu'n weddol gystadleuol, yn ôl ymchwil Ofcom yn 2007. Mae mentrau bach a chanolig, a busnesau mawr, wedi gweld gwariant blynyddol cyfartalog ar wasanaethau llais sefydlog yn gostwng o gyfartaledd o 8% y flwyddyn rhwng 2004 a 2007. Fe wnaeth gwariant band eang mentrau bach a chanolig ostwng o gyfartaledd o 20% y flwyddyn rhwng 2004 a 2007, wrth i wariant busnesau mawr ostwng o 3% y flwyddyn ar gyfartaledd dros yr un cyfnod[3].

2.32 Wrth bennu ein fframwaith strategol y llynedd, nodom nifer o dueddiadau sy'n newid y tirlun cystadleuol yn niwydiannau cyfathrebiadau'r DU. Mae modelau busnes traddodiadol yn wynebu heriau cynyddol yn sgil rhai newydd sy'n dod i mewn i'r farchnad ac yn sgil mecanweithiau cyflwyno gwasanaeth newydd. Er y dylai cydgyfeiriant felly gynyddu cystadleuaeth a chreu buddion sylweddol i ddefnyddwyr, mae risg barhaus y bydd ffynonellau newydd pŵer marchnad yn dod i'r amlwg o'r datblygiadau mewn cydgyfeiriant.

2.33 Disgwyliwn i'r tueddiadau hyn yrru newidiadau pellach yn niwydiant y DU. Mae'n hanfodol felly fod Ofcom yn parhau i archwilio datblygiadau mewn cydgyfeiriant yn fanwl. Mae angen i ni hyrwyddo amgylchedd cystadleuol ar gyfer cyflwyno

[3] I gael mwy o fanylion, gweler http://www.ofcom.org.uk/telecoms/btundertakings/tsr_statement/

gwasanaethau i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys defnyddwyr unigol a busnes.

2.34 Ar yr un pryd, mae Ofcom yn cydnabod yr angen am ymdrechion parhaus i fynd i'r afael â phroblemau cystadleuaeth mewn marchnadoedd presennol, a gwêl hyn fel maes allweddol i roi sylw iddo yn ystod 2008/09. Yn benodol, parhawn yn ymroddedig i gyflawni cywerthedd yn y sector telegyfathrebiadau sefydlog er mwyn sicrhau cystadleuaeth effeithiol a buddion defnyddwyr. Bydd angen i ni hefyd ystyried yn ofalus y rhagolygon cystadleuol ar gyfer gwasanaethau a llwyfannau teledu talu a theledu aml-sianel y DU.


2.35 Mae rhai rhannau o'r sector cyfathrebiadau yn gweld pwysau newydd. Er enghraifft, mae newid yn digwydd yn y sector symudol yn sgil twf arafach, cystadleuaeth manwerthu ddwys, galwadau cynyddol am wasanaethau a newid technolegol. Mae'n bwysig felly bod Ofcom yn adolygu'i ymagwedd gyffredinol at y sector pwysig hwn yn sgil y datblygiadau hyn.

2.36 Mae angen i ni hefyd baratoi ar gyfer lleoli rhwydweithiau mynediad cenhedlaeth nesaf yn y pen draw, ac unrhyw faterion cystadleuaeth a all godi yn sgil y rhain. Ar yr un pryd, mae angen i ni sicrhau y gellir trosi Ymrwymiadau'r Adolygiad Strategol o Delegyfathrebiadau a'r egwyddor cywerthedd mewn byd lle mae rhwydweithiau craidd cenhedlaeth nesaf wedi dod yn realiti masnachol.

2.37 Er gwaethaf pwysigrwydd parhaus rheoleiddio cystadleuaeth draddodiadol, mae'n rhaid i Ofcom barhau'n effro i oblygiadau posibl datblygiadau'r dyfodol mewn cystadleuaeth yn ein sectorau a'r risgiau cysylltiedig. Er y gall cydgyfeiriant olygu y bydd tagfeydd cystadleuaeth 'newydd' yn dod i'r amlwg, nid yw'n eglur beth fydd goblygiadau hirdymor hyn. Mae angen i ni barhau i fonitro datblygiadau'r farchnad yn fanwl yn y maes hwn.

**Mae cydgyfeiriant yn creu heriau i gyflawni amcanion gwerth cyhoeddus ehangach – mae'n rhaid i ni ystyried ymagweddau newydd, blaengar at gyflawni nodau cyhoeddus**

2.38 Wrth bennu ein fframwaith strategol y llynedd, tynnom sylw at y goblygiadau y gall cydgyfeiriant eu golygu i'r dull presennol o gyflawni amcanion gwerth cyhoeddus ehangach er budd dinasyddion. Mae niferoedd cynyddol yn prynu llwyfannau digidol yn golygu bod agweddau dinasyddion a'u defnyddiau o wasanaethau cyfathrebiadau yn datblygu. Mewn rhai meysydd mae hyn yn gwneud canlyniadau gwerth cyhoeddus yn haws i'w cyflawni naill ai heb ymyrraeth neu drwy ymyrryd mewn ffordd lai ymwthiol. Er enghraifft, mae mwy o lwyfannau nawr sy'n gallu cyflwyno gwasanaethau a fyddent yn flaenorol wedi'u 'gwthio allan' mewn marchnad yn cael ei nodweddu gan adnoddau prin. Mae teledu lleol yn un enghraifft, lle mae cyfleoedd newydd i gyflwyno cynnwys i gynulleidfaoedd lleol, yn codi o fand eang a defnydd mwy hyblyg o sbectrwm UHF.



2.39 Mewn meysydd eraill, mae'r modelau presennol ar gyfer cyflawni amcanion gwerth cyhoeddus yn wynebu heriau cynyddol. Mae'r rhain yn codi wrth i nifer y llwyfannau a ddefnyddir i gyflwyno gwasanaethau, a'r amnewidiadwyedd cynyddol rhwng llwyfannau, barhau i gynyddu. Caiff hwn ei yrru'n rhannol gan ddatblygiadau mewn technoleg, ond hefyd gan agweddau newidiol defnyddwyr, a defnyddwyr iau yn arbennig, at wasanaethau cyfathrebiadau. O ganlyniad, gall fod angen addasu'r modelau ariannol a ddefnyddiwyd yn y gorffennol er mwyn dod o hyd i

fecanweithiau newydd, tryloyw a blaengar sy'n adlewyrchu'r cyfleoedd a'r heriau sy'n deillio o gydgyfeiriant.

2.40 Mae cyflwyno darlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB) yn faes allweddol lle mae effeithiau newidiadau cyfredol yn y farchnad yn cael eu teimlo fwyaf o bosibl. Mae'r gynulleidfa yn rhannu, a gwerth dirywiol trwyddedau teledu analog yn rhoi pwysau cynyddol ar fodelau cyflwyno PSB. Teimlir hyn mewn nifer o feysydd - er enghraifft, buddsoddiad llai mewn cynnwys plant gwreiddiol, her gynyddol economeg cyflwyno newyddion rhanbarthol[4], a'r pwysau ariannol tebygol ar Channel 4 yn y dyfodol.[5]

2.41 Mae radio yn enghraifft arall o lwyfan cyfryngau traddodiadol sy'n wynebu newid cyflym. Mae'r llwyfan yn parhau i gael ei werthfawrogi'n gyffredinol, ac mae'r cyfrwng yn cyrraedd 92% o boblogaeth y DU yn wythnosol. Fel y llwyfan cyfryngau traddodiadol hynaf, mae radio yn parhau ar flaen datblygiadau mewn cydgyfeiriant. Mae defnyddwyr yn gynyddol yn cael mynediad i'r radio drwy lwyfannau digidol – yn Ch1 2007, dywedodd 33% eu bod yn gwrando trwy deledu digidol, roedd 22% yn cael mynediad i orsafoedd radio ar y rhyngrwyd, roedd 17% yn berchen ar set radio DAB, ac roedd 12% yn gwrando ar y radio drwy ffonau symudol. Hefyd, roedd 18% o berchnogion MP3 yn lawrlwytho podlediadau. Ar yr un pryd, mae'r gyfran sy'n gwrando ar radio masnachol lleol wedi dirywio er 2004. Mae refeniw radio masnachol wedi dirywio hefyd o'i uchafbwynt o £560m yn 2004, i £512m yn 2006 – er y bu arwyddion o adferiad yn ystod 2007, gyda chynnydd o 7.1% flwyddyn ar ôl blwyddyn yn Ch4 2007, yn ôl data a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Radio.

2.42 I ddechrau mynd i'r afael â'r heriau newydd hyn, mae Ofcom wedi cychwyn gwaith mewn nifer o feysydd penodol, gan gynnwys:

- *darlledu gwasanaeth cyhoeddus* – rydym wedi dod â chychwyn yr adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus (Adolygiad PSB) ymlaen. Fe wnaeth gwaith Ofcom ar deledu plant ac adolygiad ariannol Channel 4 y llynedd amlygu ymhellach y materion y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu hwynebu. Bydd yr Adolygiad PSB yn ystyried ymagweddau yn y dyfodol at gyflwyno cynnwys gwasanaeth cyhoeddus wrth i gynulleidfaoedd fudo'n gynyddol at wasanaethau digidol;

- *cyflwyno gwasanaethau radio* – o ystyried yr heriau y mae'r sector radio'n eu hwynebu, mae angen i ni barhau â'n gwaith ar ddiwygio'r fframwaith rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys gweithredu trefn newydd ar gyfer rheoleiddio cynnwys a gweithio gyda'r Llywodraeth pe bai'n penderfynu dwyn newidiadau pellach i'r ddeddfwriaeth yn eu blaen. Hefyd, byddwn yn chwarae rhan lawn i ddatblygu syniadau ar gyfer opsiynau digidol yn y dyfodol ar gyfer radio fel rhan o'r Gweithgor Radio Digidol;

- *mynediad a chynhwysiad* - mae cyflawni llawer o fuddion cydgyfeiriant i holl ddinasyddion a defnyddwyr y DU yn dibynnu ar wasanaethau'n dod ar gael yn eang. Bydd ein gwaith ar fynediad a chynhwysiad yn archwilio argaeledd telegyfathrebiadau presennol. Hefyd, mae'n rhaid i ni ystyried argaeledd llwyfannau a gwasanaethau newydd, fel gwasanaethau band eang mynediad

---

[4] Tynnwyd sylw at hyn yn adroddiad Ofcom, New News, Future News, a edrychai ar ddyfodol newyddion ar ôl y Newid i'r Digidol. http://www.ofcom.org.uk/research/tv/reports/newnews/

[5] Gweler dogfen adolygiad ariannol Channel 4 yn http://www.ofcom.org.uk/media/news/2007/04/nr_20070404a

cenhedlaeth nesaf a theledu symudol, a goblygiadau posibl argaeledd i gynhwysiad. Yn ogystal ag argaeledd, mae angen i ni ystyried hygyrchedd a'r niferoedd sy'n prynu gwasanaethau ymhlith yr holl grwpiau defnyddwyr. Er bod y niferoedd sy'n prynu'n holl dechnolegau digidol yn parhau i dyfu, mae gwahaniaethau o hyd yn y lefelau prynu rhwng grwpiau defnyddwyr gwahanol. Mae angen i ni ddadansoddi'n ofalus unrhyw rwystrau presennol i brynu a ffyrdd o annog defnydd, yn enwedig ar gyfer grwpiau bregus, gan gynnwys pobl hŷn a defnyddwyr anabl; ac


- mae'r *newid i'r digidol* yn her benodol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Byddwn yn helpu sicrhau y rhoddir sylw i anghenion yr holl grwpiau defnyddwyr yn y broses newid i'r digidol, a bod y trosglwyddiad technegol yn rhedeg yn llyfn. I gyflawni hyn, byddwn yn parhau i ddarparu ein cymorth llawn i'r Llywodraeth a Digital UK wrth iddynt arwain y broses newid i'r digidol.

**Mae grymuso defnyddwyr a chynnal cydymffurfiaeth â rheoliadau yn allweddol i fodloni gwerth defnyddwyr mewn byd cydgyfeiriol**



2.43 Mae cyflymder newid ac amrywiaeth gynyddol gwasanaethau yn golygu bod anghenion defnyddwyr am rymuso a diogelu yn newid. Mewn telegyfathrebiadau, mae nifer y cynigion newydd yn tyfu'n barhaus, ac mae cynigion gwasanaethau'n fwy cymhleth yn aml. Yn yr amgylchedd hwn, mae angen i ni sicrhau y gall defnyddwyr wneud dewisiadau gwybodus a symud yn hawdd rhwng gwasanaethau. Mae hyn yn digwydd yn gynyddol, fel y dangosir yn Ffigur 7.

**Ffigur 7: Defnyddwyr preswyl sydd wedi newid darparwr erioed**




*Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom*

2.44 Mae gwybodaeth defnyddwyr yn dod yn fwyfwy pwysig o ran galluogi gwneud dewisiadau effeithiol yn y farchnad. Mae cyflymderau band eang yn enghraifft ddiweddar o hyn. Mae cryn ansicrwydd o hyd ymhlith defnyddwyr ynghylch y cyflymderau gwasanaethau band eang gwirioneddol sy'n cael eu cynnig. Fe all hyn gyfyngu ar allu defnyddwyr i ddewis y gwasanaeth mwyaf priodol iddynt hwy. Mae hwn yn faes y disgwyliwn weithio arno gyda'r diwydiant er mwyn gwella eglurder a thryloywder i ddefnyddwyr yn y flwyddyn sy'n dod.

2.45 Mae pryderon ynghylch grymuso defnyddwyr a chydymffurfio â rheoliadau yn cael eu hystyried yn aml o ran gwasanaethau newydd a gwasanaethau sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, mae'n parhau'n bwysig i gynnal graddfa briodol o ddiogelwch defnyddwyr ar lwyfannau traddodiadol. Mewn darlledu, mae nifer o faterion wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar, er enghraifft mewn perthynas â chystadlaethau a rhaglenni ffonio i mewn sy'n torri codau presennol mewn ffyrdd eraill drwy gamarwain eu cynulleidfa yn sylweddol. Mae angen i ni felly barhau i weithio i sicrhau gweithrediad effeithlon codau darlledu cyfredol, gan ymateb yn gyflym ac yn effeithlon i unrhyw achosion o gamymddygiad.


2.46 Er y bu gwelliannau yn lefel ymwybyddiaeth defnyddwyr a newid rhwng gwasanaethau, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y duedd hon yn parhau. Mae hyn yn her, gyda gwasanaethau mwy cymhleth a chynigion bwndeli yn dod yn nodwedd allweddol y farchnad. Mae'n hanfodol hefyd sicrhau bod mesurau effeithlon ar waith i fynd i'r afael yn gyflym ag unrhyw arferion gan ddarparwyr gwasanaeth sy'n arwain at niwed neu golled i ddefnyddwyr.

2.47 Byddwn hefyd yn gwella ein ffocws ar lythrennedd y cyfryngau. Bydd cymdeithas lythrennog yn y cyfryngau yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae eu hangen ar bobl i wneud defnydd llawn o'r cyfleoedd a gynigir gan wasanaethau cyfathrebiadau traddodiadol a newydd. Hefyd, bydd yn galluogi pobl i ddiogelu'u hunain a'u teuluoedd rhag risgiau posibl yn sgil gwasanaethau newydd. Mae angen i ni barhau i weithio gyda chyrff cyhoeddus eraill, a chyda'n rhanddeiliaid, i gyflawni nod Ofcom i gefnogi plant ac oedolion y DU wrth gaffael y gallu i ymgysylltu'n hyderus â'r ystod cynyddol fyth o wasanaethau cyfathrebiadau soffistigedig.

2.48 Ym mhob un o'r meysydd hyn, byddwn yn ystyried y modd y gellir defnyddio cyd-reoleiddio a hunan-reoleiddio i gefnogi dulliau hyblyg ac effeithlon o ddiogelu a grymuso dinasyddion a defnyddwyr. Ar yr un pryd, byddwn yn parhau i ddarparu mewnbwn ar unrhyw ddatblygiad deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r sectorau a reoleiddiwn, yn y DU ac yn Ewrop.

**Bydd cydgyfeiriant yn golygu bod rhaid i fframweithiau cyfreithiol ac economaidd ddatblygu – mae gan Ofcom rôl bwysig i'w chwarae i gefnogi'r datblygiad hwn**

2.49 Mae cydgyfeiriant yn golygu bod mwy o wasanaethau ar gael erbyn hyn ar ystod eang o lwyfannau cyfathrebiadau. Mae unrhyw wasanaeth penodol yn cael eu cyflwyno'n gynyddol gan lwyfannau lluosog, sy'n cystadlu. Er enghraifft, mae teledu aml-sianel ar gael dros Deledu Daearol Digidol (DTT), lloeren ddi-dâl a thalu, yn ogystal â dros rwydweithiau band eang. Hefyd, mae nifer cynyddol o ddefnyddwyr y rhyngrwyd, a defnyddwyr ifanc yn arbennig, yn cael mynediad i fathau gwahanol o gynnwys a gwasanaethau ar-lein.



2.50 Mae'r datblygiadau hyn yn amlygu gwahaniaethau yn y modd y mae gwasanaethau sy'n cael eu cyflwyno dros lwyfannau gwahanol yn cael eu rheoleiddio. Er enghraifft, nid yw llawer o'r rheolau sy'n gymwys i gynnwys yn cael ei gyflwyno dros lwyfannau traddodiadol yn gymwys i gynnwys tebyg iawn neu gynnwys union yr un fath yn cael ei gyflwyno dros y rhyngrwyd. Mae llawer o'r gwahaniaethau hyn yn briodol gan fod disgwyliadau gwahanol gan ddefnyddwyr ynglŷn â'r lefel briodol a'r math o reoleiddio ar lwyfannau gwahanol. Serch hynny, mewn rhai meysydd, gall fod angen addasu

ymagweddau rheoleiddio i adlewyrchu'r mecanweithiau cyflwyno newydd a dulliau o ddefnyddio gwasanaethau cyfathrebiadau.

2.51 Mae datblygiadau ehangach dros y flwyddyn ddiwethaf yn dynodi'r angen i reoleiddio cyfathrebiadau ddatblygu ac addasu i'r amgylchiadau newidiol. Mae angen i ni barhau i adlewyrchu anghenion pawb yn y DU yn ein cynigion rheoleiddio, ac ymgysylltu'n briodol â llywodraethau datganoledig yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru. Hefyd, mae angen i ni dalu sylw i faterion penodol sy'n effeithio ar ranbarthau Lloegr ar draws ein gwaith polisi.


2.52 Bydd nifer o ddatblygiadau Ewropeaidd yn ffurfio'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddio am flynyddoedd i ddod. Ymhlith y datblygiadau allweddol yn y maes hwn y mae'r Adolygiad o'r Fframwaith Ewropeaidd, a fydd yn arwain at set o gyfarwyddebau newydd ar gyfer cyfathrebiadau electronig. Hefyd, byddwn yn gweithio gyda'r Adran Dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio i ddatblygu ymagwedd gadarn at weithredu'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol yn y DU. Ac mae angen i ni ymgysylltu'n drylwyr â'r Comisiwn Ewropeaidd ar gynigion ar gyfer asiantaeth reoleiddio uwch-genedlaethol i sicrhau y cynrychiolir buddiannau dinasyddion a defnyddwyr y DU yn y modd gorau yn y ddadl hon.

2.53 Un mater penodol sydd wedi cynyddu o ran amlygrwydd yn y flwyddyn ddiwethaf yw rheoleiddio cynnwys y rhyngrwyd. Mewn amgylchedd cyfathrebiadau cydgyfeiriedig, bydd y ffiniau rhwng llwyfannau gwahanol yn mynd yn fwyfwy annelwig. Yn y sefyllfa hon, mae angen i ni ystyried sut ddylai'r rheolau cynnwys ddatblygu i adlewyrchu'r defnydd cynyddol o lwyfannau newydd, fel y rhyngrwyd a ffonau symudol, ar gyfer cyflwyno cynnwys. Wrth i blant ac oedolion y DU ddefnyddio cynnwys mewn ffyrdd newydd, byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth a'r diwydiant i hyrwyddo mynediad i fecanweithiau diogelu syml ac effeithiol. Ar yr un pryd, mae angen i ni ystyried rôl llythrennedd yn y cyfryngau o ran galluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch y cynnwys a ddefnyddiant.

2.54 I ystyried y cwestiynau ehangach a godir gan yr holl ddatblygiadau hyn, byddwn yn gweithio gyda Melin Drafod Cydgyfeiriant y Llywodraeth i gyfrannu at y meddwl sy'n dod i'r amlwg am ddatblygiad deddfwriaeth yn y dyfodol yn y sector cyfathrebiadau.

## Rhaglen waith Ofcom

**Mae rhaglen waith Ofcom ar gyfer 2008/09 wedi'i chynllunio i ystyried goblygiadau datblygiadau mewn cydgyfeiriant**



2.55 Yn sgil ein dadansoddiad o dueddiadau'r farchnad, ac ar sail adborth rhanddeiliaid i ymgynghoriad y Cynllun Blynyddol Drafft, credwn fod ein fframwaith strategol tair blynedd yn parhau i fod yn briodol i fynd i'r afael â'r cwestiynau a godir yn sgil cydgyfeiriant. Mae'n darparu modd i ganolbwyntio ar ddatblygiadau allweddol yn y sector, ac i ganolbwyntio ein hymdrech ni ar gyflawni ein dyletswyddau yn y modd mwyaf effeithiol.

2.56 Mae datblygiadau'r farchnad dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd wedi awgrymu nifer o feysydd i Ofcom roi sylw iddynt yn 2008/09, fel y dangosir yn Ffigur 8 ar dudalen 22. Mae tri math o weithgareddau yn ein rhaglen waith gyffredinol:

- **Gweithredu parhaus**: gweithgareddau yw'r rhain sy'n deillio o brosiectau polisi blaenorol sydd yn cael eu gweithredu nawr, er enghraifft, gwaith Ofcom ar y newid i'r digidol a gweithredu'r Adolygiad Strategol o Delegyfathrebiadau. Er bod prif waith datblygu polisi wedi dod i ben i raddau helaeth weithiau, mae ffocws ar weithrediad llyfn y polisïau hyn yn hanfodol i gyflawni nodau rheoleiddio.

- **Datblygu polisi parhaus:** mae'r categori hwn yn cynnwys meysydd lle'r oeddem wedi cynllunio i ddatblygu polisi yn 2008/09 yn wreiddiol: er enghraifft, ein gwaith ar yr Adolygiad o'r Difidend Digidol. Hefyd, mae nifer o feysydd newydd a ddaeth i'r amlwg o ddatblygiadau dros y flwyddyn ddiwethaf fel yr Adolygiad PSB.

- **Meddwl ymlaen:** meysydd gwaith i nodi materion yn y dyfodol ar gyfer polisi a rheoliadau cyfathrebiadau. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith ar archwilio tagfeydd cystadleuaeth newydd posibl yn deillio o gydgyfeiriant, a pharatoi ar gyfer deddfwriaeth newydd y DU.

| Elfennau'r fframwaith | Gyrru yn ei blaen ymagwedd sy'n seiliedig ar y farchnad tuag at sbectrwm | Hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd cydgyfeiriol | **Cyflawni amcanion gwerth cyhoeddus wrth i lwyfannau a gwasanaethau gydgyfeirio** | **Grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella cydymffurfio rheoleiddiol lle bo angen** | **Cefnogi datblygiad y fframweithiau cyfreithiol ac economaidd ar gyfer rheoleiddio** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithrediad cyfredol | • Gyrru rhyddfrydoli a masnachu sbectrwm yn ei flaen<br>• Cyflawni nodau sbectrwm rhyngwladol | • Gweithredu strategaeth Ofcom ar gyfer telegyfathrebiadau sefydlog | • Hyrwyddo mynediad a chynhwysiad<br>• Cynorthwyo'r Newid i Ddigidol | • Hyrwyddo llythrennedd y cyfryngau<br>• Datblygu a gorfodi polisïau diogelu defnyddwyr<br>• Gorfodi cystadleuaeth a datrys anghydfodau | |
| Datblygiad polisi cyfredol (1-2 flynedd) | • Rhyddhau sbectrwm i alluogi gwasanaethau newydd, gan gynnwys yr Adolygiad o'r Difidend Digidol | • Paratoi ar gyfer rhwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf<br>• Hyrwyddo cystadleuaeth mewn teledu talu | • Adolygu modelau ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus<br>• Datblygu ymagwedd at ddatblygiad radio | • Hyrwyddo gwybodaeth defnyddwyr a sicrhau y gall defnyddwyr newid darparwyr yn gyflym ac yn hawdd<br>• Hyrwyddo ymddiriedaeth mewn darlledu | • Datblygu ymagweddau at reoleiddio cynnwys yn oes y rhyngrwyd<br>• Cyfranogi at ddatblygu deddfwriaeth UE newydd |
| Meddwl ymlaen (2 flynedd +) | | • Datblygu ymagwedd Ofcom at symudol<br>• Archwilio'r potensial i faterion cystadleuaeth newydd ddod i'r amlwg | | | • Archwilio effaith cydgyfeiriant ar fframweithiau rheoleiddio<br>• Newid sefydliadol yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon |

Lleihau rheoleiddio a lleihau beichiau gweinyddol

Hyrwyddo i'r eithaf ein heffaith ar ddatblygu polisi rhyngwladol

### Gwella gallu Ofcom i gyflawni mewn meysydd hanfodol allweddol

2.57 Ar sail ein dadansoddiad o ddatblygiadau'r farchnad, rydym wedi nodi nifer o feysydd lle mae cyflawni'n arbennig o bwysig yn y tymor byr. Ar yr un pryd, mae datblygiadau mewn cydgyfeiriant yn cynyddu nifer yr heriau i Ofcom fynd i'r afael â hwy yn gyffredinol. I sicrhau ein bod wedi ein cyfarparu'n dda i gyflawni ymrwymiadau Ofcom tuag at ddinasyddion a defnyddwyr y DU, ein bwriad oedd gwella ein gallu i gynllunio a chanolbwyntio ar y gwaith mwyaf hanfodol.

2.58 Rydym wedi cyflwyno dau newid i'n proses gynllunio er mwyn helpu canolbwyntio a blaenoriaethu ein gwaith yn fwy effeithlon:

- rydym wedi nodi nifer o brif flaenoriaethau o fewn ein rhaglen waith - y rhain yw prosiectau lle y mae'n arbennig o bwysig ein bod yn gwneud cynnydd ynddynt yn 2008/09; a
- byddwn yn cadw cyfran o allu mewnol Ofcom ar gyfer delio'n benodol â materion annisgwyl sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

### Mae nifer o feysydd gwaith yn hanfodol i anghenion hirdymor dinasyddion a defnyddwyr

2.59 Mae cyflawni holl feysydd y rhaglen waith yn hanfodol i Ofcom er mwyn bodloni ei ddyletswyddau statudol i ddinasyddion a defnyddwyr. Fodd bynnag, o fewn y rhaglen waith hon mae nifer o faterion a fydd yn arbennig o hanfodol i ddinasyddion, defnyddwyr, ein rhanddeiliaid ac Ofcom yn y flwyddyn i ddod. Y rhain yw'r elfennau hynny o'n gwaith a fydd yn cyflawni'r buddion potensial mwyaf i ddinasyddion a defnyddwyr, y rheiny sy'n rhoi sylw i'r risgiau mwyaf i ddinasyddion a defnyddwyr, a'r meysydd hynny sy'n fwyaf sensitif i amser.

2.60 Rydym wedi nodi sawl maes blaenoriaeth ar gyfer 2008/09, fel yr amlinellir yn Ffigur 9 isod. Penderfynwyd ar y rhain yn dilyn ymgynghori â chyrff cynghori Ofcom sy'n gofalu am elfennau penodol buddiannau defnyddwyr a dinasyddion, a chawsant gefnogaeth ar y cyfan yn ein hymgynghoriad â rhanddeiliaid ar y Cynllun Blynyddol Drafft.

**Ffigur 9: Meysydd blaenoriaeth pennaf ar gyfer 2008/09**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Elfennau'r fframwaith | Gyrru yn ei blaen ymagwedd sy'n seiliedig ar y farchnad tuag at sbectrwm | Hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd cydgyfeiriol | Cyflawni amcanion gwerth cyhoeddus wrth i lwyfannau a gwasanaethau gydgyfeirio | Grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella cydymffurfio rheoleiddiol lle bo angen | Cefnogi datblygiad y fframweithiau cyfreithiol ac economaidd ar gyfer rheoleiddio |
| Prif feysydd blaenoriaeth | • Adolygiad o'r Difidend Digidol | • Gweithredu strategaeth Ofcom ar gyfer telegyfathrebiadau sefydlog<br>• Paratoi ar gyfer rhwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf<br>• Hyrwyddo cystadleuaeth mewn teledu talu<br>• Datblygu ymagwedd Ofcom at symudol | • Hyrwyddo mynediad a chynhwysiad<br>• Adolygu modelau ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus<br>• Datblygu ymagwedd at ddatblygiad radio | • Hyrwyddo llythrennedd y cyfryngau<br>• Datblygu a gorfodi polisïau diogelu defnyddwyr | • Cyfranogi at ddatblygu deddfwriaeth UE newydd |

2.61 Bydd Ofcom yn gweithio i ofalu bod adnoddau digonol ar gyfer y meysydd blaenoriaeth pennaf hyn er mwyn sicrhau cyflawni ein cynlluniau datganedig. Lle

mae gofynion adnoddau ychwanegol yn codi yn ystod y flwyddyn oherwydd datblygiadau annisgwyl, bydd y meysydd hyn yn cael blaenoriaeth dros feysydd gweithgarwch eraill.

2.62 Fodd bynnag, nid yw dynodi meysydd blaenoriaeth pennaf yn golygu nad yw meysydd eraill gwaith polisi a gweithredol a nodwyd ar gyfer 2008/09 yn hanfodol bwysig. Mae'r holl feysydd gwaith polisi yr ydym wedi'u cynllunio wedi'u nodi yn ein proses gynllunio fel rhai allweddol i Ofcom yn cyflawni'i ddyletswyddau tuag at ddinasyddion a defnyddwyr. Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod ein cynlluniau yn holl feysydd y rhaglen waith yn cael eu cyflawni i'r safon uchaf bosibl, ochr yn ochr â chyflawni canlyniadau'r meysydd hanfodol allweddol a nodwyd.

**Mae angen i Ofcom fynd i'r afael yn effeithlon â materion newydd sy'n codi yn ystod y flwyddyn**

2.63 Yr ail newid i'n proses gynllunio yw cadw cyfran o'n gallu ar gyfer gwaith nad yw wedi'i gynllunio, er mwyn ein galluogi i ymateb yn gyflym ac yn effeithlon i unrhyw faterion brys dinasyddion a defnyddwyr sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

2.64 Mae ein profiad dros y pedair blynedd diwethaf wedi dangos, er bod ein fframwaith strategol yn ein galluogi i nodi meysydd allweddol i roi sylw iddynt ar gyfer y dyfodol tymor hwy, mae cymhlethdod a natur gyflym newid yn y sector cyfathrebiadau yn golygu y bydd materion annisgwyl yn codi'n anochel. Mae Ofcom wedi gorfod addasu'i gynlluniau mewn amrywiaeth o feysydd dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd datblygiadau allanol heb eu cynllunio. Er enghraifft: daethom â'r Adolygiad PSB ymlaen mewn ymateb i bwysau cynyddol gyflym ar y model darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol. Enghraifft arall yw'r galw i roi tystiolaeth yn ymchwiliad y Comisiwn Cystadleuaeth i BSkyB yn prynu cyfran yn ITV. Gofynnodd hyn am gryn ymdrech ymchwilio a dadansoddi gan Ofcom.

2.65 I sicrhau bod adnodd digonol gan Ofcom i gynnal gorchwylion felly heb eu cynllunio, heb beryglu ein gwaith cyfredol, rydym yn cadw cyfran o allu ar gyfer gorchwylion annisgwyl yn 2008/09. Bydd y gyfran hon yn amrywio rhwng swyddogaethau gwahanol Ofcom, gan ddibynnu ar y cofnod blaenorol o waith heb ei gynllunio mewn meysydd penodol rheoleiddio.

2.66 Bydd ein cynlluniau yn cael eu diweddaru bob chwarter wedyn i wneud yn siwr ein bod yn cadw'n gyson â chyflymder y farchnad yn newid ac yn rhoi sylw i'r materion pwysicaf sy'n effeithio ar ddinasyddion a defnyddwyr ar unrhyw un adeg. Byddwn yn adlewyrchu addasiadau i'n rhaglen waith yn y tabl manwl o allbynnau a gyhoeddir ar wefan Ofcom bob chwarter.

## Adran 3

# Rhaglen waith fanwl

## Prif flaenoriaethau polisi yn 2008/09

### Ffigur 10: Meysydd blaenoriaeth pennaf ar gyfer 2008/09

| Elfennau'r fframwaith | Gyrru yn ei blaen ymagwedd sy'n seiliedig ar y farchnad tuag at sbectrwm | Hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd cydgyfeiriol | Cyflawni amcanion gwerth cyhoeddus wrth i lwyfannau a gwasanaethau gydgyfeirio | Grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella cydymffurfio rheoleiddiol lle bo angen | Cefnogi datblygiad y fframweithiau cyfreithiol ac economaidd ar gyfer rheoleiddio |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif feysydd blaenoriaeth | • Adolygiad o'r Difidend Digidol | • Gweithredu strategaeth Ofcom ar gyfer telegyfathrebiadau sefydlog<br>• Paratoi ar gyfer rhwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf<br>• Hyrwyddo cystadleuaeth mewn teledu talu<br>• Datblygu ymagwedd Ofcom at symudol | • Hyrwyddo mynediad a chynhwysiad<br>• Adolygu modelau ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus<br>• Datblygu ymagwedd at ddatblygiad radio | • Hyrwyddo llythrennedd y cyfryngau<br>• Datblygu a gorfodi polisïau diogelu defnyddwyr | • Cyfranogi at ddatblygu deddfwriaeth UE newydd |

### Adolygiad o'r Difidend Digidol

3.1 Mae'r Adolygiad o'r Difidend Digidol yn dwyn yn ei flaen y sbectrwm sy'n cael ei ryddhau gan y newid i'r digidol – y difidend digidol fel y'i gelwir.

3.2 Cyhoeddom ddatganiad yn nodi ein hymagwedd strategol at ddyfarnu'r difidend digidol ar 13 Rhagfyr 2007. Daethom i'r casgliad, yn sgil yr holl dystiolaeth a oedd ar gael, y dylem fabwysiadu ymagwedd yn cael ei harwain gan y farchnad. Mae hyn yn golygu, gydag un eithriad pwysig, y byddwn yn ocsiynu'r sbectrwm mewn modd sy'n galluogi defnyddwyr i benderfynu sut y dylid defnyddio'r sbectrwm ac sy'n creu'r hyblygrwydd a'r cyfleoedd mwyaf posibl i dechnolegau a gwasanaethau gwahanol.


3.3 Ystyriom yn ofalus ddadleuon dros gadw sbectrwm ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau penodol, ond nid oeddent yn gymhellgar. Bydd rhoi sbectrwm at un defnydd yn ei wrthod i ddefnyddiau eraill. Bydd hefyd yn tueddu lleihau hyblygrwydd ac yn pylu cymhellion. Cydnabyddwn y gall llawer o wasanaethau ddarparu gwerth cymdeithasol ehangach, ond nid ydym yn credu bod cymorth drwy gymorthdaliadau ymhlyg ar ffurf sbectrwm yn angenrheidiol i wireddu hyn. Mae cymorth ymhlyg drwy gyllid uniongyrchol yn fwy tryloyw a gall gyflawni gwell canlyniad.

3.4 Yr eithriad i'n hymagwedd yn cael ei harwain gan y farchnad yw gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE), sydd eisoes yn defnyddio'r sbectrwm yn rhyngddalennog (h.y. cyfrannol) gyda theledu daearol ar raddfa fawr. Mae hon yn gymuned amrywiol eithriadol, ac nid ydym o'r farn y byddai'n gallu cymryd rhan yn effeithiol mewn ocsiwn, gan greu risg ddifrifol i'r farchnad fethu. Byddwn felly'n cynnal cystadleuaeth i ddyfarnu pecyn o sbectrwm rhyngddalennog i ddiwallu anghenion defnyddwyr PMSE.

3.5 Nododd ein datganiad ddiwedd cyfnod cyntaf yr Adolygiad o'r Difidend Digidol. Rydym bellach yn gweithio ar y cyfnod nesaf, llawn mor bwysig: dyluniad manwl y prosesau dyfarnu a'r trwyddedau. Bydd hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd yn ganolog i'n gwaith, a byddwn yn edrych yn ofalus ar sut i annog mynediad ac yn gwarchod yn erbyn risg ymddygiad gwrthgystadleuol. Mae ein profiad yn awgrymu, os yw ocsiynau sbectrwm wedi'u cynllunio'n dda, y gallant fod yn arfau pwerus i greu tirlun mwy cystadleuol.

3.6 Byddwn yn ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer cynlluniau dyfarnu manwl yn gynnar yn 2008/09. Ar ôl hyn, bwriadwn gyhoeddi datganiadau pellach, memoranda gwybodaeth a rheoliadau drafft yn ystod y flwyddyn.

**Ffigur 11: Defnyddio 200 MHz i 1 GHz ar adeg y Newid i'r Digidol**




*Ffynhonnell: Ofcom*

**Gweithredu strategaeth Ofcom ar gyfer telegyfathrebiadau sefydlog**

3.7 Bydd sicrhau bod BT Group plc yn parhau i gydymffurfio â'i Ymrwymiadau i roi mynediad cyfartal i gystadleuwyr i'r cynhyrchion cyfanwerthu y mae arnynt eu hangen i ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr olaf yn ganolog i gystadleuaeth yn y sector telegyfathrebiadau sefydlog.

3.8 Yn 2008/09 cynlluniwn i ganolbwyntio ar bedwar prif faes:

1) Sicrhau bod BT Group plc yn gweithredu'i Ymrwymiadau'n effeithiol drwy:

- fonitro cynlluniau adleoli Rhwydwaith 21ain Ganrif BT er mwyn sicrhau bod BT yn cyflawni ei rwymedigaethau cywerthedd mewnbwn, yn ogystal â'r gofyniad i beidio â blaen-gau mynediad i rwydweithiau;
- monitro cynnydd BT yn erbyn y cerrig milltir cytûn ar gyfer gwahaniad o ran ei systemau gweithredol;
- ailstrwythuro'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth a'r Gwarantau Lefel Gwasanaeth cyfredol fel bod cymhellion Openreach wedi'u hunioni'n well â chyflwyno gwasanaethau safon uchel;

- mireinio fframwaith ariannol Openreach i ystyried newidiadau yn y farchnad;

2) hyrwyddo cystadleuaeth mewn marchnadoedd band eang, a fydd yn cynnwys gweithredu ein polisi newydd ar gyfer y farchnad band eang cyfanwerthu, a chynnal ein hymrwymiad i ddadfwndelu dolen leol;

3) hyrwyddo cystadleuaeth yn y farchnad llinellau prydles, a fydd yn cynnwys cwblhau ein hadolygiad o'r farchnad ymgysylltiad busnes; a

4) dechrau gwaith ar adolygiadau o'r farchnad band cul manwerthu a chyfanwerthu.

**Paratoi ar gyfer rhwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf**

3.9 Mae'r symud at rwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf yn cynnig cyfleoedd cyffrous i ddinasyddion a defnyddwyr o ran cymwysiadau a gwasanaethau newydd, a buddion newydd sylweddol o bosibl. Hefyd, mae'n cynyddu'r rhagolwg o gael buddion sylweddol i economi'r DU. Fodd bynnag, daw'r datblygiadau hyn â nifer o heriau newydd i reoleiddio.

3.10 Mae adleoli rhwydweithiau craidd cenhedlaeth nesaf eisoes ar waith gan nifer o weithredwyr, ac mae BT wrthi'n adleoli ei Rwydwaith 21$^{ain}$ Ganrif ei hun. Mae'n bwysig sicrhau nad yw defnyddwyr yn dioddef yn ystod y cyfnod mudo. Mae hyn yn golygu gofalu bod defnyddwyr a busnesau yn cael eu hysbysu am unrhyw effaith debygol ar eu gwasanaethau, a bod risgiau methiant gwasanaethau yn cael eu rheoli'n ofalus.

3.11 Ar yr un pryd, mae angen i ni ystyried goblygiadau rhwydweithiau cenhedlaeth nesaf i ddynameg gystadleuol sector cyfathrebiadau'r DU. Gall economeg y rhwydweithiau newydd hyn fod gryn dipyn yn wahanol i economeg rhwydweithiau heddiw, a gall y goblygiadau i gystadleuaeth fod yn rhai difrifol. Mae angen i ni weithio ar ddatblygu ymagwedd gydgyfeiriedig at ryng-gysylltiad yn seiliedig ar Brotocol y Rhyngrwyd sy'n galluogi pob gweithredwr i elwa o'r enillion effeithlonrwydd sy'n gysylltiedig ag adleoliadau rhwydweithiau craidd cenhedlaeth nesaf, ac sydd felly'n cefnogi cystadleuaeth gynaliadwy.

3.12 Ar rwydweithiau mynediad cenhedlaeth nesaf (NGA), mae'n rhaid i ni ystyried yr ymagwedd gywir at reoleiddio'r rhwydweithiau hyn lle mae pŵer sylweddol y farchnad. Mae'r rhain yn fuddsoddiadau sylweddol, â risg botensial. Hefyd, mae'n rhaid i ni sicrhau nad yw rheoleiddio amhriodol yn anghymell buddsoddi effeithlon.


3.13 Ar yr un pryd, mae'n bwysig ein bod yn hyrwyddo cystadleuaeth mewn rhwydweithiau mynediad cenhedlaeth nesaf. Mae hanes wedi dangos i ni mai o farchnad cyfathrebiadau gystadleuol y mae defnyddwyr yn elwa fwyaf, ac mae buddion yn cynnwys dewis, arloesedd a gostyngiadau mewn pris. Bydd hyn yn parhau i'r dyfodol: mae angen i ni felly bryderu ynghylch materion cystadleuaeth sy'n cael eu creu gan rwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf. Gall fod ystyriaethau buddiannau dinasyddion i'r datblygiadau newydd hyn hefyd, gan gynnwys materion yn ymwneud ag argaeledd gwasanaethau a chwestiynau ynghylch argaeledd gwahaniaethol. Byddwn yn rhoi sylw i'r risgiau hyn ar y cyd â'n gwaith ar fynediad a chynhwysiad.

3.14 Er i ni gyhoeddi ein hymgynghoriad ar y Cynllun Blynyddol Drafft, mae'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (BERR) wedi cyhoeddi adolygiad

annibynnol o'r llwybr i fynediad cenhedlaeth nesaf, i'w arwain gan gyn Brif Weithredwr Cable & Wireless, Francesco Caio.

3.15 Mae Ofcom yn deall y bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar ba rôl y gall y Llywodraeth ei chwarae i hwyluso'r llwybr i adleoli mynediad cenhedlaeth nesaf yma yn y DU. Mae BERR wedi dweud yn glir y bydd yr adolygiad yn ystyried ymgynghoriad Ofcom ar bolisi mynediad cenhedlaeth nesaf, y mae'r adolygiad annibynnol i'w ategu. Mae Ofcom wedi croesawu'r adolygiad hwn ac yn edrych ymlaen at weithio'n agos â Mr Caio a'i dîm.

**Ffigur 12: Rhwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf**




*Ffynhonnell: Ofcom*

3.16 Mae'r gweithgareddau allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys:

- yn dilyn ein hymgynghoriad ar fynediad cenhedlaeth nesaf yn 2007, byddwn yn cyhoeddi datganiad ar ymagwedd ddewisol Ofcom at reoleiddio buddsoddiadau mynediad cenhedlaeth nesaf;
- byddwn yn datblygu'r amgylchedd rheoleiddio priodol ar gyfer yr ardaloedd hynny o'r DU sydd â ffibr wedi'i ddefnyddio mewn adeiladau newydd;
- byddwn yn gweithio i sicrhau bod gweithredwyr rhwydweithiau sefydlog, gan gynnwys BT, yn rheoli risgiau yn ystod cyfnod trosglwyddo rhwydweithiau craidd cenhedlaeth nesaf a bod cyn lleied â phosibl o amharu ar wasanaethau sy'n cael eu darparu i ddefnyddwyr a busnesau;
- byddwn yn archwilio effaith rhwydweithiau craidd cenhedlaeth nesaf ar farchnadoedd cyfathrebiadau; a
- byddwn yn gweithio i adlewyrchu datblygiadau rhwydweithiau craidd cenhedlaeth nesaf yn y fframwaith rheoleiddio telegyfathrebiadau i sicrhau cystadleuaeth effeithiol.

**Hyrwyddo cystadleuaeth mewn teledu talu**

3.17 Mae'r farchnad teledu talu wedi gweld twf sylweddol yn y blynyddoedd diweddar, a bellach mae'n werth £4 biliwn y flwyddyn. Mae refeniwiau tanysgrifiadau yn bwysicach nawr na refeniwiau hysbysebu fel ffynhonnell cyllid i'r diwydiant darlledu. Yn ddiweddar, mae'r diwydiant wedi gweld nifer o ddatblygiadau arwyddocaol, gan gynnwys:

- llwyfannau newydd yn dod i'r amlwg ar gyfer cyflwyno gwasanaethau teledu talu (DTT, IPTV, Teledu Symudol);
- cydgyfnerthu, ailstrwythuro ac ail-frandio'r llwyfan cebl presennol;
- mesurau gan y Comisiwn Ewropeaidd i newid y ffordd y mae hawliau pêl-droed allweddol (y rheiny ym Mhrif Gynghrair y Gymdeithas Bêl-droed) yn cael eu gwerthu, er mwyn galluogi mwy o chwaraewyr i ddod i mewn i'r farchnad; a
- chynnig gan BSkyB i lansio llwyfan teledu talu newydd gan ddefnyddio gallu DTT sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer sianelau di-dâl Freeview.

3.18 Bydd canlyniadau'r datblygiadau hyn yn llywio'r sector am flynyddoedd i ddod. Ar ddechrau 2007 derbyniom gyflwyniad gan bedwar prif rhanddeiliad y diwydiant. Gofynnodd y cyflwyniad hwn i ni ymchwilio i'r diwydiant teledu talu, ac i ystyried p'un a ddylid gwneud cyfeiriad marchnad at y Comisiwn Cystadleuaeth o dan Ddeddf Menter 2002.

3.19 O dan ein dyletswydd gyffredinol i hyrwyddo cystadleuaeth, rydym wedi cyflawni corff sylweddol o waith yn 2007 i ddeall y modd y mae'r farchnad yn gweithredu yn y DU. Caeodd ymgynghoriad ar hwn ar 26 Chwefror, lle chwiliom am ystod eang o farnau ar ein dealltwriaeth ragarweiniol o'r farchnad. Disgwyliwn gynnal ymgynghoriad pellach yn haf 2008, yn pennu unrhyw gynigion mwy penodol sy'n codi o'n hymgynghoriad cychwynnol, a chwblhau'r broses erbyn diwedd 2008 neu ddechrau 2009.

3.20 Mae nifer o brosiectau sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad hwn i'r farchnad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ein hymgynghoriad cyfredol ar amrywiadau trwyddedau y gofynnodd NGW a Sky amdanynt, a fyddai'n galluogi Sky i ddisodli ei sianelau di-dâl ar DTT â gwasanaeth talu. Caeodd ymgynghoriad ar y pwnc hwn ar 14 Rhagfyr a chawsom dros 400 o ymatebion. Disgwyliwn gyhoeddi naill ai datganiad ar yr ymgynghoriad hwn, neu ymgynghoriad pellach yn pennu cynigion mwy penodol, yng ngwanwyn 2008; ac
- adolygiad o'r farchnad ar gyfer gwasanaethau llwyfannau teledu sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2007, er mwyn ystyried pa lwyfannau teledu sydd â phŵer y farchnad, a phriodolrwydd datrysiadau fel y rhwymedi 'mynediad amodol' presennol i ddelio â hyn. Mae'r adolygiad marchnad hwn wedi'i oedi am y tro, tra'n disgwyl i'r ymchwiliad i'r farchnad ddod i ben, er y disgwyliwn ei ailgychwyn tuag at ddechrau 2009.

### Datblygu ymagwedd Ofcom at y sector symudol

3.21 Mae'r sector symudol yn wynebu newid sylweddol, felly dyma'r amser iawn i gynnal asesiad o ymagwedd gyffredinol Ofcom at reoleiddio'r sector. Mae dau brif amcan i'r gwaith hwn:

- yn gyntaf, ystyried ymagweddau posibl at reoleiddio'r sector cyfathrebiadau symudol yn y dyfodol, gan gynnwys y cwmpas i hyrwyddo cystadleuaeth a lleihau rheoleiddio; ac
- yn ail, diffinio'r egwyddorion a fydd yn dylanwadu ar waith Ofcom ar gyfer cyfnod nesaf datblygiad y farchnad.

3.22 Cyhoeddom ganllawiau yn pennu amcanion a chwmpas yr asesiad o'r sector symudol ar 7 Chwefror 2008[6]. Bydd yr asesiad yn ystyried ystod eang o faterion, gan gynnwys: goblygiadau cydgyfeiriant parhaus; nodau rheoleiddio; nodi'r cwmpas ar gyfer dadreoleiddio, arloesedd a chystadleuaeth yn y farchnad symudol; a goblygiadau'r twf parhaus mewn gwasanaethau symudol i gystadleuaeth yn fwy cyffredinol.

### Hyrwyddo mynediad a chynhwysiad

3.23 Mae rhan o ddyletswydd gyffredinol Ofcom i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn ymwneud â sicrhau argaeledd ystod eang o wasanaethau cyfathrebiadau ar draws y DU. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon mae'n rhaid i Ofcom ystyried grwpiau penodol, fel pobl yn byw mewn ardaloedd gwledig a phobl anabl.

3.24 Rydym felly wedi cynllunio rhaglen waith ar gyfer 2008/09 ym maes hyrwyddo mynediad a chynhwysiad, gyda'r amcanion a ganlyn:

- nodi a deall natur rhwystrau rhag cyflwyno gwasanaethau a phrynu gwasanaethau;
- asesu graddau ac arwyddocâd y rhwystrau hyn; ac
- ystyried p'un a all Ofcom neu a ddylai Ofcom weithredu i'w dileu neu'u lleihau, naill ai'n uniongyrchol neu drwy rôl hwyluso.

3.25 Bydd y maes gwaith hwn yn cynnwys prosiectau sy'n archwilio'r modd y mae gwasanaethau'n amrywio ar draws y DU, ac ymagwedd Ofcom at wasanaethau ar gyfer defnyddwyr cyfathrebiadau anabl.

3.26 Hefyd, byddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer ariannu a darparu gwasanaeth cyffredinol wrth i gystadleuaeth ddatblygu ac wrth i anghenion cwsmeriaid newid. Bydd ein gwaith ar wasanaeth cyffredinol yn cynnwys parhau i weithredu'r cynllun tariff cymdeithasol newydd, BT Basic, yn ogystal â dadansoddiad o ddatblygiadau posibl i'r gwasanaeth cyfnewid testun.

3.27 Bydd y gwaith hwn hefyd yn datblygu mewnbwn Ofcom at ymateb y DU i ystyriaeth y Comisiwn Ewropeaidd ar gwmpas y Gwasanaeth Cyffredinol yn y dyfodol yn ystod 2008.

---

[6] Gweler http://www.ofcom.org.uk/research/telecoms/msa/msa.pdf

3.28 Byddwn hefyd yn dwyn gwaith polisi yn ei flaen gan ddatblygu strategaeth Ofcom cyfan ar gyfarpar hawdd ei ddefnyddio.

**Adolygu modelau ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus**

3.29 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn pennu gofyniad ar Ofcom i gynnal adolygiad o ddarlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus unwaith bob pum mlynedd o leiaf. Gofynna i ni adrodd ar y graddau y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSB) wedi cyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus, ac i wneud argymhellion gyda golwg ar gynnal a chryfhau ansawdd PSB yn y dyfodol.

3.30 Dechreuodd yr Adolygiad ym mis Medi 2007 gyda chyhoeddi'r cylch gwaith. Rhagwelwn y bydd yr Adolygiad yn cael ei gynnal mewn dwy ran, gydag ymgynghoriadau cysylltiedig, y cyntaf yng ngwanwyn 2008 gydag opsiynau polisi yn cael eu cyhoeddi nes ymlaen yn yr hydref, a datganiad terfynol ar ddechrau 2009.

3.31 Mae pedwar prif amcan i'r Adolygiad:

- gwerthuso pa mor effeithiol y mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyflawni dibenion a nodweddion PSB, yn enwedig o ystyried newidiadau yn y ffordd y mae cynnwys teledu yn cael ei ddosbarthu a'i ddefnyddio;

- asesu'r achos dros ymyrraeth barhaus mewn cyflwyno cynnwys teledu er mwyn sicrhau dibenion gwasanaeth cyhoeddus;

- ystyried ym mha ffordd, a ph'un a allai twf ffyrdd newydd o gyflwyno cynnwys i ddefnyddwyr a dinasyddion greu cyfleoedd newydd ar gyfer cyflawni nodau darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn ogystal â chreu heriau newydd; ac

- asesu opsiynau'r dyfodol ar gyfer ariannu, cyflawni a rheoleiddio darlledu gwasanaeth cyhoeddus, o ystyried yr heriau a'r cyfleoedd hyn, ac ansicrwydd ynglŷn â chynaliadwyedd modelau ariannu presennol.

3.32 Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn archwilio cyflwyno cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU. Bydd hyn yn golygu ystyried diben, budd a chynaladwyedd lluosogrwydd o fewn y gwasanaethau hynny, a bydd hefyd yn cynnwys ystyriaeth o'r potensial i wasanaethau cynnwys lleol gyfrannu at ddibenion cyhoeddus.

3.33 Bydd angen i'r adolygiad hwn edrych y tu hwnt i wasanaethau darlledu traddodiadol. Mae'r gwahaniaethau rhwng gwasanaethau 'teledu' a gwasanaethau 'heb fod yn deledu' wedi dod yn fwyfwy annelwig. Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eisoes wedi mabwysiadu dulliau newydd o ddosbarthu cynnwys teledu i ddefnyddwyr, gan ymwela ar botensial cyfryngau newydd ar alw a chyfryngau rhyngweithiol, gan gynnwys iPlayer y BBC, gwasanaethau fideo ar alw a dal i fyny Channel 4, a gwasanaeth band eang ITV Local. Mae'r potensial gan y ffurfiau cynnwys newydd hyn a dulliau cyflwyno newydd i helpu cyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn ffyrdd newydd. O ganlyniad, mae ffocws craidd yr adolygiad hwn ar wasanaethau teledu gwasanaeth cyhoeddus, ond bydd hefyd yn asesu potensial llwyfannau a gwasanaethau newydd i gyfrannu at ddibenion cyhoeddus, gan gynnwys y rheiny a ddarperir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus anhraddodiadol.

3.34 Bydd y ddogfen ymgynghori gyntaf, a gynllunnir ym mis Ebrill 2008, yn cwmpasu nifer o feysydd arwahanol fel rhaglenni plant, newyddion rhanbarthol a chyllid ar gyfer Channel 4.

3.35 Yn ystod cyfnod yr Adolygiad, bydd Ofcom yn ymgysylltu'n helaeth ag ystod eang o randdeiliaid ar draws y DU i gasglu barn a safbwyntiau.

**Datblygu ymagwedd at ddatblygiad radio**

3.36 Mae gennym bedair haen allweddol o weithgareddau i gefnogi datblygiad parhaus y llwyfan radio:

- yn sgil datblygiadau yn y farchnad, byddwn yn ymgymryd â gwaith pellach ar y sector radio i ddatblygu gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd darpariaeth gyffredinol ar lwyfannau gwahanol; sut y mae lleoldeb ar y radio yn ymwneud â darpariaeth cynnwys lleol ar gyfryngau eraill; a phwysigrwydd lluosogrwydd a dewis mewn radio mewn amgylchedd cyfryngau newidiol.

- ochr yn ochr â hyn, byddwn yn cyfrannu'n llawn at y Gweithgor Radio Digidol sydd wedi'i gynllunio ar draws y diwydiant, a fydd yn trafod opsiynau digidol y dyfodol ar gyfer darlledwyr radio, a'r meini prawf y byddai angen eu hystyried cyn gallu ystyried troi unrhyw wasanaethau radio analog i ffwrdd;

- byddwn hefyd yn gweithredu trefn newydd ar gyfer rheoleiddio fformatau gorsafoedd radio masnachol analog, yn deillio o ganlyniad terfynol yr ymgynghoriad ar faterion yn ymwneud â rheoleiddio amrywiaeth a lleoldeb cynnwys; ac

- yn olaf, byddwn yn gweithio gyda'r llywodraeth pe bai'n penderfynu dwyn gwaith arall yn ei flaen ar ddiwygio deddfwriaeth mewn perthynas â'r rheolau perchenogaeth radio, trwyddedu radio masnachol (i alluogi mwy o hyblygrwydd) a rheoleiddio radio cymunedol.

3.37 Yn ychwanegol at y gwaith a amlinellir uchod, byddwn yn ymgymryd â rhaglen fawr o waith mewn perthynas â thrwyddedu a rheoleiddio darlledu radio. Disgrifir hyn ymhellach ar dudalen 39.

**Hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau**

3.38 Rydym bellach wedi adeiladu sylfaen dystiolaeth sylweddol i arwain ein gwaith i hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau, ac wedi cael cryn gefnogaeth gan ystod eang o randdeiliaid am yr angen i hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau ym mhob rhan o'r gymdeithas. Gydol 2007, rydym wedi bod yn trafod gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol mewn adolygiad o'n blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mewn ymateb i'r adolygiad hwn, bwriadwn gynyddu ein buddsoddiad mewn llythrennedd yn y cyfryngau dros y tair blynedd nesaf, gyda phwyslais penodol ar rymuso defnyddwyr.

3.39 Rydym yn cydnabod y bydd pobl yn wynebu cyfleoedd a heriau newydd yn y cyfryngau ac mewn cyfathrebiadau yn y blynyddoedd i ddod. Mae angen i ni allu ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i roi sylw i faterion sy'n dod i'r amlwg. Fe all yr argymhellion sy'n codi o Adolygiad Byron i'r risgiau i blant yn sgil eu hamlygu i ddeunydd a all fod yn niweidiol neu amhriodol ar y rhyngrwyd ac mewn gemau fideo, effeithio ar gynllun gwaith manwl Ofcom i hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau.

3.40 I bobl allu elwa o dechnolegau cyfathrebiadau newydd, mae’n rhaid iddynt allu gwneud dewisiadau gwybodus a chael yr offer ar gael iddynt i reoli eu perthynas â chynnwys. Byddwn yn annog pob darparwr cynnwys i hyrwyddo a sicrhau bod gwybodaeth ar gael am gynnwys a all fod yn niweidiol neu’n sarhaus, ar ffurf sy’n hawdd ei defnyddio a’i deall. Cawn ein hannog gan waith pwysig y Grŵp Rhanddeiliaid Band Eang a wnaeth ym mis Chwefror eleni gyhoeddi egwyddorion cyffredin ar gyfer darparu gwybodaeth am gynnwys a gynhyrchir ac a gafaelir yn fasnachol, a allai fod yn niweidiol ac yn sarhaus, ar bob llwyfan. Gobeithiwn y bydd y gwaith hwn yn grymuso defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus a rheoli’n well perthynas eu teulu â chynnwys clywedol.

3.41 Ar yr un pryd â’r mentrau hyn, byddwn hefyd yn annog hyrwyddo a datblygu offer technolegol, fel ffilteri rhyngrwyd, muriau gwarchod a mynediad PIN i wasanaethau teledu sy’n hawdd eu defnyddio, ac sy’n effeithiol o ran helpu pobl i reoli’u mynediad i’r cyfryngau. Bydd y safon dechnegol a’r cynllun nod barcud a ddatblygwyd mewn partneriaeth â’r Swyddfa Gartref, Ofcom a’r Sefydliad Safonau Prydeinig yn arwain at ffilteri rhyngrwyd sy’n fwy effeithiol o ran blocio cynnwys amhriodol a chynnig mwy o gymorth i rieni wrth eu defnyddio.

3.42 Yn 2008/09 byddwn yn gweithio gydag ystod o bartneriaid gan gynnwys darparwyr addysg oedolion, canolfannau UK Online, llyfrgelloedd a rhwydweithiau cymorth eraill i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i’r rhannau hynny o’r gymdeithas nad ydynt ar-lein eto, ac y gall fod yn anodd eu cyrraedd.

3.43 Byddwn yn parhau i wneud ymchwil i agweddau a dewisiadau pobl wrth ddefnyddio technolegau cyfathrebiadau digidol. Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn cyhoeddi’r canlyniadau o ail don ein Harchwiliad o Lythrennedd yn y Cyfryngau (a gyhoeddwyd gyntaf yn 2006). Bydd hyn yn helpu Ofcom a rhanddeiliaid eraill i nodi tueddiadau a newidiadau mewn ymddygiad pobl, ac yn amlygu materion sy’n dod i’r amlwg y mae angen rhoi sylw iddynt.

3.44 Yn olaf, mae llawer o’r heriau y mae pobl yn eu hwynebu ar-lein yn dod o du allan i’r DU. Mewn ymateb i hyn, byddwn yn sefydlu fforwm i alluogi ymchwilwyr i lythrennedd yn y cyfryngau rannu’u canfyddiadau ac arfer gorau, er mwyn ein galluogi i roi sylw i natur fyd-eang llawer o’r materion cyffredin a wynebwn.

**Datblygu a gorfodi polisïau grymuso a diogelu defnyddwyr**

3.45 Mae’r gwaith hwn yn cynnwys prosiect ar faterion newid cyflenwyr a cham-werthu er mwyn sicrhau bod y prosesau sy’n galluogi cwsmeriaid i newid darparwyr yn hawdd yn effeithiol. Bydd y prosiect yn gweithredu gwelliannau i brosesau cyfredol y diwydiant ar gyfer newid darparwyr ac yn ystyried y modd y mae angen i brosesau’r diwydiant ddatblygu wrth i ddarparwyr gyflenwi bwndeli gwasanaethau cymhleth i ddefnyddwyr yn gynyddol.

3.46 Bydd y gwaith hefyd yn gweithredu cynigion i fynd i’r afael â materion cam-werthu a materion arian yn ôl yn y diwydiant symudol. Mae hefyd yn cynnwys gweithredu’r adolygiad o gwmpas, diben ac effeithiolrwydd rheoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm a’n gwaith gyda thîm gorfodi Ofcom ar achosion fel galwadau distaw.

3.47 Byddwn yn dwyn ein gwaith yn ei flaen ar ystyried effeithiolrwydd y modd y mae darparwyr cyfathrebiadau yn ymdrin â chwynion, a threfniadau’r Datrysiad Anghydfod Amgen (ADR) mewn telegyfathrebiadau. Fel rhan o’r gwaith hwn byddwn yn adolygu arferion cyfredol ac yn nodi ffyrdd o gyflawni dull gwell o

ymdrin â chwynion ac ADR, ac yn sicrhau bod ymwybyddiaeth o weithdrefnau ymhlith defnyddwyr.

3.48 Byddwn hefyd yn cwblhau ein hadolygiad o daliadau ychwanegol ac yn cymryd camau gorfodi lle bydd angen.

**Cyfranogi at ddatblygu deddfwriaeth newydd yr UE**

3.49 Mae sawl maes allweddol mewn datblygu polisi ar lefel yr UE i Ofcom ganolbwyntio arnynt yn 2008/09. Byddwn:

- yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y cynrychiolir buddiannau dinasyddion a defnyddwyr y DU yn llawn yn yr Adolygiad o'r Fframwaith Ewropeaidd ar gyfer cyfathrebiadau electronig;
- yn darparu mewnbwn sylweddol i'r Adolygiad o'r Acquis Defnyddwyr yn dilyn yr ymgynghoriad cychwynnol a gynhaliwyd gan y Comisiwn yn 2007;
- yn rhoi sylw yn weithredol i nifer o fentrau newydd y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys ymagwedd yr UE gyfan at y difidend digidol a gwasanaethau teledu symudol, yn ogystal â menter ar-lein cynnwys yr UE; ac
- yn cyfrannu at adolygiad yr UE o'r Gyfarwyddeb Gwasanaeth Cyffredinol.

## Rhaglen waith ehangach ar gyfer 2008/09

3.50 Yn ychwanegol at y prif feysydd blaenoriaeth a nodir uchod, mae gennym hefyd nifer o brosiectau a gweithgareddau pwysig eraill wedi'u cynllunio ar gyfer 2008/09. Mae'r adran hon yn rhoi manylion am ein rhaglen waith ehangach, gan ddisgrifio'r prif feysydd gwaith sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2008/09. Dônt o dan y categorïau canlynol, fel y nodir yn Ffigur 13:

- gyrru yn ei blaen ymagwedd sy'n seiliedig ar y farchnad tuag at sbectrwm;
- hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd;
- sicrhau cyflawni canlyniadau gwerth cyhoeddus;
- grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella'r cydymffurfio â rheoliadau lle bo angen;
- ystyried datblygiad fframweithiau cyfreithiol ac economaidd ar gyfer rheoleiddio cyfathrebiadau;
- parhau i leihau rheoleiddio a lleihau beichiau gweinyddol; a
- hyrwyddo i'r eithaf ein heffaith ar ddatblygu polisi rhyngwladol er mwyn cynrychioli buddiannau dinasyddion a defnyddwyr y DU yn y modd gorau posibl.

## Ffigur 13: Rhaglen waith Ofcom ar gyfer 2008/09

| Elfennau'r fframwaith | Gyrru yn ei blaen ymagwedd sy'n seiliedig ar y farchnad tuag at sbectrwm | Hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd cydgyfeiriol | **Cyflawni amcanion gwerth cyhoeddus wrth i lwyfannau a gwasanaethau gydgyfeirio** | **Grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella cydymffurfio rheoleiddiol lle bo angen** | **Cefnogi datblygiad y fframweithiau cyfreithiol ac economaidd ar gyfer rheoleiddio** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithrediad cyfredol | • Gyrru rhyddfrydoli a masnachu sbectrwm yn ei flaen<br>• Cyflawni nodau sbectrwm rhyngwladol | • Gweithredu strategaeth Ofcom ar gyfer telegyfathrebiadau sefydlog | • Hyrwyddo mynediad a chynhwysiad<br>• Cynorthwyo'r Newid i Ddigidol | • Hyrwyddo llythrennedd y cyfryngau<br>• Datblygu a gorfodi polisïau diogelu defnyddwyr<br>• Gorfodi cystadleuaeth a datrys anghydfodau | |
| Datblygiad polisi cyfredol (1-2 flynedd) | • Rhyddhau sbectrwm i alluogi gwasanaethau newydd, gan gynnwys yr Adolygiad o'r Difidend Digidol | • Paratoi ar gyfer rhwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf<br>• Hyrwyddo cystadleuaeth mewn teledu talu | • Adolygu modelau ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus<br>• Datblygu ymagwedd at ddatblygiad radio | • Hyrwyddo gwybodaeth defnyddwyr a sicrhau y gall defnyddwyr newid darparwyr yn gyflym ac yn hawdd<br>• Hyrwyddo ymddiriedaeth mewn darlledu | • Datblygu ymagweddau at reoleiddio cynnwys yn oes y rhyngrwyd<br>• Cyfranogi at ddatblygu deddfwriaeth UE newydd |
| Meddwl ymlaen (2 flynedd +) | | • Datblygu ymagwedd Ofcom at symudol<br>• Archwilio'r potensial i faterion cystadleuaeth newydd ddod i'r amlwg | | | • Archwilio effaith cydgyfeiriant ar fframweithiau rheoleiddio<br>• Newid sefydliadol yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon |
| Lleihau rheoleiddio a lleihau beichiau gweinyddol | | | | | |
| Hyrwyddo i'r eithaf ein heffaith ar ddatblygu polisi rhyngwladol | | | | | |

### Gyrru yn ei blaen ymagwedd sy'n seiliedig ar y farchnad tuag at sbectrwm

3.51 Yn 2008/09 bydd Ofcom yn parhau â'i ffocws ar sefydlu ymagwedd sy'n seiliedig ar y farchnad tuag at reoli sbectrwm er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnodd gwerthfawr hwn ac i hyrwyddo buddiannau i'r eithaf o gystadleuaeth ac arloesedd mewn gwasanaethau di-wifr ar gyfer cymdeithas ac economi'r DU. Wrth gymhwyso ymagwedd sy'n seiliedig ar y farchnad, bydd gan Ofcom rôl lai ymwthiol, a fydd felly'n galluogi i gystadleuaeth bennu'r defnyddiau mwyaf effeithlon o sbectrwm, wrth leihau beichiau gweinyddol ar yr un pryd i ddarparwyr gwasanaeth. Wrth drosglwyddo at ymagwedd sy'n cael ei harwain gan y farchnad, mae angen i ni sicrhau ein bod yn ystyried yn ofalus ffyrdd priodol o roi sylw i nodau polisi cyhoeddus a oedd yn y gorffennol yn cael eu cefnogi'n uniongyrchol drwy'r dull 'gorchymyn a rheoli' o reoleiddio sbectrwm. I gyflawni'r nodau hyn, rydym yn cynllunio'r gweithgareddau canlynol:

- **Adolygiad o'r Difidend Digidol** – trafodir manylion y prif faes blaenoriaeth hwn yn y rhaglen waith yn gynharach yn yr adran hon.
- **Gyrru rhyddfrydoli a masnachu sbectrwm yn eu blaen**

Mae hwn yn parhau'n nod allweddol i Ofcom, ac mae gwaith yn y maes hwn yn cynnwys:

- o cymhwyso masnachu a rhyddfrydoli sbectrwm i'r sector symudol;
- o gweithredu rhyddfrydoli a masnachu sbectrwm ar gyfer trwyddedau radio busnes;

- o gweithredu argymhellion Archwiliad Cave, yn benodol diffinio hawliau mynediad sbectrwm cyrff cyhoeddus er mwyn hwyluso masnachu;
- o cymhwyso prisio sbectrwm at ddefnydd gwasanaethau radar;
- o hwyluso marchnadoedd sbectrwm mwy effeithlon trwy ddarparu gwell gwybodaeth am ddefnydd cyfredol o sbectrwm; ac
- o adolygu goblygiadau masnachu sbectrwm i wella'r eglurder a'r sicrwydd a ddarperir gan y broses i ddefnyddwyr sbectrwm.

- **Rhyddhau sbectrwm i alluogi gwasanaethau newydd** (heblaw am yr Adolygiad o'r Difidend Digidol).

Bydd cynnal ein rhaglen o ddyfarniadau sbectrwm yn parhau'n flaenoriaeth yn 2008/09. Bydd gwneud mwy o sbectrwm ar gael i'r farchnad yn hanfodol i alluogi datblygu llwyfannau ar gyfer y genhedlaeth nesaf o wasanaethau cydgyfeiriedig, ac mewn creu cyfleoedd ar gyfer arloesi. Cynlluniwn i wneud gwaith yn y prif feysydd dyfarniadau canlynol, fel y dangosir yn Ffigur 14 isod. Hefyd, byddwn yn adolygu'r holl fandiau sbectrwm eraill er mwyn ystyried a yw dyfarniadau eraill yn briodol.

**Ffigur 14: Prif feysydd dyfarniadau sbectrwm 2008/09**

| BAND | PRIF DDEFNYDDIAU POTENSIAL |
|---|---|
| **Cwblhau dyfarniadau** | |
| Dyfarniad 2.6 GHz (2500 i 2690 MHz a 2010 i 2025 MHz | Technolegau band eang di-wifr fel WiMax, UMTS, neu LTE* a chamerâu di-wifr |
| 872 i 876 MHz ynghyd â 917 i 921 MHz | Radio busnes a radio symudol mynediad cyhoeddus |
| **Archwilio'r cwmpas ar gyfer dyfarniadau newydd** | |
| 3.4 i 3.8 GHz | Technolegau band eang symudol |

* Mae LTE yn sefyll am 'ddatblygiad tymor hir' (long-term evolution) a hwn yw'r cam nesaf mewn technolegau symudol seiliwlar yn nheulu technolegau GSM/WCDMA

- **Cyflawni nodau sbectrwm rhyngwladol** – byddwn yn gweithio ar hyrwyddo ymagwedd seiliedig ar y farchnad tuag at sbectrwm yn rhyngwladol, a datblygu fframwaith rhyngwladol sefydlog i danategu ein rhaglen dyfarniadau sbectrwm.

**Hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd cydgyfeiriol**

3.52 Mae amgylchedd cystadleuol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau cyfathrebiadau yn allweddol i gyflawni dyletswyddau Ofcom tuag at ddinasyddion a defnyddwyr. Daw cystadleuaeth effeithiol â buddion i ddefnyddwyr trwy ddewis, arloesedd a gostyngiadau mewn prisiau. Mae prosiectau penodol yn y maes hwn o'r rhaglen waith yn cynnwys:

- **Gweithredu strategaeth Ofcom ar gyfer telegyfathrebiadau sefydlog** – trafodir manylion y maes blaenoriaeth hwn yn y rhaglen waith yn gynharach yn yr adran hon.

- **Paratoi ar gyfer rhwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf** – trafodir manylion y maes blaenoriaeth hwn yn y rhaglen waith yn gynharach yn yr adran hon.

- **Hyrwyddo cystadleuaeth mewn teledu talu** – trafodir manylion y maes blaenoriaeth hwn yn y rhaglen waith yn gynharach yn yr adran hon.

- **Datblygu strategaeth y sector symudol** – trafodir manylion y maes blaenoriaeth hwn yn y rhaglen waith yn gynharach yn yr adran hon.

- **Gorfodi cystadleuaeth a datrys anghydfodau** – byddwn yn parhau â'n gwaith ar ymchwiliadau ac anghydfodau presennol yn ymwneud â chystadleuaeth, ac yn rhoi sylw i unrhyw faterion newydd a ddaw i'r amlwg yn 2008/09.

- **Archwilio'r potensial i faterion cystadleuaeth newydd ddatblygu** - byddwn yn parhau i fonitro'r marchnadoedd er mwyn asesu'r potensial i ffynonellau newydd pŵer y farchnad ddod i'r amlwg. Byddwn yn archwilio opsiynau i roi sylw i unrhyw ffynonellau newydd afluniadau cystadleuol a nodir.

- **Prosiectau polisi ychwanegol.** Yn ychwanegol at yr uchod, byddwn hefyd:

  - yn gweithredu'r ymagwedd polisi ar gyfer y farchnad band eang cyfanwerthu a nodir yn ein hadolygiad o'r farchnad mynediad band eang cyfanwerthu;

  - yn cwblhau'r adolygiad o'r farchnad ymgysylltiad busnes, ac yn datblygu rheolaethau codi tâl ar gyfer llinellau prydles;

  - yn cynorthwyo'r Swyddfa Masnachu Teg yn yr adolygiad o'r rhwymedi Adnewyddu Hawliau Contract (CRR);

  - yn cynnal nifer o brosiectau i hyrwyddo cystadleuaeth yn y sector symudol, gan gynnwys ym meysydd cludadwyedd rhifau, a'r marchnadoedd ymholiadau cyfeirlyfr;

  - adolygu'r cynllun rhifo symudol a threfniadau polisi rhifo domestig; ac

  - yn cynnal Asesiadau Effaith Marchnad mewn perthynas â gwasanaethau teledu a radio newydd sy'n cael eu datblygu gan y BBC, gyda'n casgliadau yn cael eu hystyried wedyn gan Ymddiriedolaeth y BBC.

**Cyflawni gwerth cyhoeddus wrth i lwyfannau a gwasanaethau gydgyfeirio**

3.53 Gall cyflawni ar amcanion gwerth cyhoeddus fynd yn fwyfwy anodd wrth i'r duedd tuag at gydgyfeiriant gynyddu, fel y trafodir yn Adran 2. Rydym wedi cynllunio nifer o weithgareddau gyda'r nod o barhau i gyflawni amcanion gwerth cyhoeddus yn yr amgylchedd marchnadoedd cydgyfeiriol:

- **Archwilio modelau'r dyfodol ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus** – trafodir manylion y maes blaenoriaeth hwn yn y rhaglen waith yn gynharach yn yr adran hon.

- **Datblygu ymagwedd at ddatblygiad radio** – trafodir manylion y maes blaenoriaeth hwn yn y rhaglen waith yn gynharach yn yr adran hon.

- **Cynorthwyo'r newid i ddigidol** - byddwn yn cynorthwyo Digital UK a'r Llywodraeth i sicrhau trosglwyddo'n esmwyth i deledu digidol - disgwylir i'r broses gwblhau yn 2012. Byddwn yn cynorthwyo'r broses hon drwy ein gweithgareddau mewn trwyddedu, cynllunio sbectrwm a gwaith cydlynu sbectrwm rhyngwladol, yn ogystal ag mewn ymchwil a gweithgareddau polisi perthnasol.

**Ffigur 15: Map newid i'r digidol a'r drefn**

**Mae 51 o brif drosglwyddyddion, yn bwydo rhyw 1100 o drosglwyddyddion cyfnewid**

| | |
|---|---|
| Border | 2008/09 |
| Granada | 2009 |
| De Orllewin LLoegr | 2009 |
| Cymru | 2009/10 |
| STV North | 2010 |
| STV Central | 2010/11 |
| Gorllewin | 2010/11 |
| Central | 2011 |
| Anglia | 2011 |
| Swydd Efrog | 2011 |
| Meridian | 2011/12 |
| Llundain | 2012 |
| Tyne Tees | 2012 |
| Ulster | 2012 |




*Ffynhonnell: Digital UK. Sylwch nad yw'r map yn cynnwys Channel Television – y darlledwr ITV yn Ynysoedd y Sianel. Bydd Channel TV yn newid i'r digidol yn gynnar yn 2013*

- **Hyrwyddo defnydd effeithlon o sbectrwm DTT i'r eithaf** – byddwn yn parhau â'n gwaith ar ad-drefnu'r amlblecsau DTT i gynyddu effeithlonrwydd sbectrwm sy'n cael ei ddefnyddio gan ddarlledwyr daearol, gan alluogi gwasanaethau newydd fel teledu diffiniad uchel, ar y llwyfan, o bosibl:

  - o yn 2008/09 byddwn yn gweithio'n agos â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a'r darlledwyr perthnasol a gweithredwyr amlblecsau i weithredu canlyniadau ein hymgynghoriad ar ad-drefniant o'r amlblecsau, ac i bennu dyraniad gallu ar gyfer gwasanaethau newydd; a

  - byddwn hefyd yn parhau i weithio’n agos â’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gweithredwyr amlblecsau a phartïon perthnasol eraill i sicrhau bod y broses hon yn rhedeg mor llyfn ag y bo modd. Yn benodol, byddwn yn gweithio’n agos â Digital UK ar ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr am y newidiadau hyn.

- **Rheoleiddio a thrwyddedu darlledu radio** – yn ychwanegol at ddatblygu ymagwedd at ddatblygiad radio (a ddisgrifir yn adran 3.37), rydym wedi cynllunio rhaglen waith sylweddol mewn perthynas â thrwyddedu a rheoleiddio darlledu radio:

  - ail-hysbysebu trwyddedau radio masnachol analog lleol presennol, wrth iddynt nesáu at eu dyddiadau terfyn;
  - paratoi ar gyfer ail-hysbysebu (drwy ocsiwn) yn y dyfodol y tair trwydded radio masnachol analog cenedlaethol;
  - parhau â’r rhaglen trwyddedu gwasanaethau amlblecs radio lleol DAB newydd, i hyrwyddo darparu gwasanaethau DAB lleol ym mhob ardal lle mae darpariaeth felly’n ymarferol;
  - lle bo’n briodol, ymestyn ac adnewyddu trwyddedau radio masnachol analog lleol presennol i gynyddu eu cyfnod yn unol â gofynion statudol – yn ystod 2008/09, byddwn hefyd yn dymuno ystyried y broses ar gyfer adnewyddu’r drwydded amlblecs radio genedlaethol gyntaf;
  - cwblhau ail rownd trwyddedu gwasanaethau radio cymunedol newydd, ac ystyried ar ba ffurf all unrhyw drwyddedau radio cymunedol pellach fod;
  - parhau i drwyddedu’r holl wasanaethau darlledu radio eraill heb fod yn rhai BBC, gan gynnwys gwasanaethau cyfyngedig a gwasanaethau rhaglenni sain ddigidol;
  - samplu cynnwys gwasanaethau radio masnachol a chymunedol i sicrhau cydymffurfio ag amodau trwyddedau;
  - ystyried ceisiadau gan drwyddedigion ar gyfer amrywiadau i’w trwyddedau, e.e. newidiadau i’r drefn gwasanaethau ar wasanaeth amlblecs radio DAB; a
  - sicrhau cydymffurfio â’r rheolau perchenogaeth cyfryngau statudol, gan gynnwys cynnal unrhyw adolygiadau sy’n ofynnol yn dilyn newid rheolaeth.

**Grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella cydymffurfio â rheoliadau lle bo angen**

3.54 Rydym yn dal i gredu y bydd cyflawni buddiannau defnyddwyr a dinasyddion yn cael ei hwyluso drwy sicrhau eu bod yn cael eu grymuso i wneud penderfyniadau gwybodus. Mae hwn felly yn un o brif feysydd ein rhaglen waith. Ar yr un pryd, mewn sector cyfathrebiadau cydgyfeiriol, bydd ein rôl i wella a monitro cydymffurfio yn cynyddu hefyd. Mae prosiectau penodol yn y maes hwn yn cynnwys:

- **Datblygu a gorfodi polisïau grymuso a diogelu defnyddwyr** – trafodir manylion y maes blaenoriaeth hwn yn y rhaglen waith yn gynharach yn yr adran hon.

- **Hyrwyddo gwybodaeth defnyddwyr a sicrhau y gall defnyddwyr newid darparwyr yn gyflym ac yn hawdd**

  Byddwn yn gweithio i wella'r ddarpariaeth gwybodaeth i ddefnyddwyr trwy weithredu'r cynllun achredu ar gyfer gwefannau cymharu prisiau.

  Hefyd, byddwn yn gweithio i wella'r ddarpariaeth gwybodaeth am Ansawdd Gwasanaeth i ddefnyddwyr, drwy ehangu'r cynllun cyfredol Topcomm i gynnwys gwasanaethau band eang a symudol yn ychwanegol at wasanaethau llinell sefydlog. Byddwn yn cymryd camau i geisio atal gwahaniaethau sylweddol rhwng disgwyliadau defnyddwyr o gyflymderau band eang a'u profiad go iawn. Hefyd, rydym yn ystyried p'un a ddylid, ac ar ba ffurf y dylid darparu mwy o wybodaeth i ddefnyddwyr am ansawdd gwasanaeth darparwyr gwasanaeth rhyngrwyd band eang gwahanol.

  Byddwn hefyd yn symud ymlaen â'n gwaith ar wella prosesau newid cyflenwyr. Nod y gwaith hwn yw sicrhau nad yw prosesau cyfredol yn atal gallu defnyddwyr i newid – ar gyfer mudiadau sengl ac mewn perthynas â chynigion cynhyrchion wedi'u bwndelu.

- **Hyrwyddo ymddiriedaeth mewn darlledu**

  Yn 2007/08, nododd Ofcom nifer o fethiannau systemig difrifol mewn cydymffurfio darlledwyr. Fe wnaeth hyn amlygu'r angen parhaus, mewn byd cyfathrebiadau cymhleth a chydgyfeiriedig cynyddol, i roi blaenoriaeth uchel i ddiogelu defnyddwyr trwy orfodi rheolau Ofcom.

  Bydd rheoleiddio cynnwys darlledu hefyd yn parhau i gwmpasu llawer o feysydd eraill fel gwarchod rhag amharu ar breifatrwydd yn ddiwarant, a sicrhau bod y rheiny sy'n penderfynu cyfranogi mewn rhaglenni yn cael eu trin yn deg.

  Bydd Ofcom felly'n parhau i adolygu ei ymagwedd at y ffurf hon o reoleiddio cynnwys (y cyfeirir ato'n aml fel rheoleiddio cynnwys negyddol, h.y. y rheolau sy'n cyfyngu ar yr hyn y gellir ei ddangos ar y teledu a'r radio). Byddwn yn canolbwyntio ar y modd y dylai rheoleiddio ddatblygu, gan ystyried y graddau y dylwn gynnal y gwahaniaethau rhwng y modd y mae cynnwys yn cael ei reoleiddio, gan ddibynnu ar lwyfan cyflwyno'r cynnwys. Mae prosiectau arfaethedig yn cynnwys:

  - rhoi mwy o bwyslais ar ystyried dimensiwn defnyddwyr rheoleiddio cynnwys, gan gynnwys effaith sianelau pwrpasol lle bydd y gynulleidfa'n cyfranogi (mae enghreifftiau yn y gorffennol wedi cynnwys sianelau sgwrsio oedolion, horosgopau a chwis) ac elfennau cyfranogol mewn darllediadau prif ffrwd lle mae trafodiad rhwng y gynulleidfa a'r darlledwr. Wrth i'r sector hwn ddatblygu ac arloesi, bydd yn hanfodol bod Ofcom yn parhau i gadw i fyny â datblygiadau, a'i fod yn ymateb yn gyflym i newidiadau yn y farchnad er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr;

- o ystyried yr ymagwedd fwyaf effeithiol at reoleiddio gwasanaethau gamblo darlledu i sicrhau mwy o ddiogelwch i'r cyhoedd yn sgil newidiadau yn y ddeddfwriaeth gamblo;
- o ystyried y modd y dylai ein hymagwedd at reoleiddio cynnwys datblygu yn sgil gweithredu'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Clyweled a'r Cyfryngau, a chan ystyried y themâu sy'n dod i'r amlwg yn yr adolygiad PSB;
- o gwneud addasiadau i'r Côd Darlledu a chynhyrchu arweiniad ychwanegol; a
- o gwella ein proses o ddelio â chwynion, a'n proses ar gyfer ystyried a phennu sancsiynau.

- **Prosiectau polisi ychwanegol**

  Byddwn yn parhau i ddiogelu dinasyddion a defnyddwyr yn y sector cyfathrebiadau drwy:

  - o ddatblygu'r Côd Ymarfer ymhellach yn unol â newidiadau yn y gymdeithas ac yn yr amgylchedd darlledu a rheoleiddio;
  - o dyfarnu ar gwynion ynghylch torri ar breifatrwydd ac annhegwch yn cael eu gwneud gan y rheiny yr effeithia rhaglenni'n uniongyrchol arnynt; ac
  - o ymchwilio i achosion potensial o dorri ein codau, p'un ai codir gan aelodau'r cynulleidfaoedd neu drwy ein monitro ein hunain a chymryd camau rheoleiddio priodol yn erbyn darlledwyr lle bydd yn briodol.

  Yr adolygiad o reolau ar hysbysebu bwyd a diodydd braster, halen a siwgr uchel (HFSS) i blant:

  - o Byddwn yn dechrau adolygiad o effeithiau cyfyngiadau HFSS ym mis Gorffennaf 2008, gan anelu i gwblhau'r gwaith hwn yn yr hydref. Wrth gynnal yr adolygiad, byddwn yn gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a chyda'r Adran Iechyd, sy'n casglu data am hysbysebu ar draws pob cyfrwng. Hefyd, byddwn yn gweithio'n agosach â'r Asiantaeth Safonau Bwyd, a fydd yn adolygu gweithrediad ei chynllun sy'n galluogi hysbysebwyr i asesu lefelau HFSS yn eu cynhyrchion, a ph'un a allant hysbysebu yn ystod oriau darlledu plant.

**Ystyried datblygiad fframweithiau cyfreithiol ac economaidd ar gyfer rheoleiddio**

3.55 Mae cydgyfeiriant wedi amlygu nifer o faterion a heriau i'r fframweithiau cyfreithiol ac economaidd presennol ar gyfer rheoleiddio. Yn gynyddol, gall fod angen diweddaru'r rhain i adlewyrchu dulliau newydd ar gyfer cyflwyno gwasanaethau, ymagweddau at y modd y mae defnyddwyr yn defnyddio gwasanaethau a modelau busnes masnachol a fabwysiadir. Mae prosiectau penodol yn y maes hwn o'r rhaglen waith yn cynnwys:

- **Cyfranogi at ddatblygu deddfwriaeth newydd yr UE** – gellir gweld manylion y maes blaenoriaeth hwn yn y rhaglen waith yn gynharach yn yr adran hon;
- **Datblygu ymagweddau at reoleiddio cynnwys yn oes y rhyngrwyd** – Prif weithgarwch Ofcom yn 2008/09 yn y maes hwn fydd, gyda DCMS a BERR, dwyn gweithrediad y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Clyweled a'r Cyfryngau newydd yn ei blaen; yn benodol, datblygu fframwaith rheoleiddio newydd ar

gyfer gwasanaethau teledu ar alw sy'n cael eu cynnig ar y rhyngrwyd ac ar rwydweithiau eraill. Byddwn hefyd yn cyfrannu at waith y llywodraeth ar ymagweddau'r dyfodol at reoleiddio cynnwys drwy gyfranogi mewn Melin Drafod Cydgyfeiriant;

- **Archwilio effaith cydgyfeiriant ar fframweithiau rheoleiddio** - byddwn yn ymgysylltu â Melin Drafod Cydgyfeiriant y Llywodraeth i gynorthwyo ei waith ar ystyried yr effaith a gaiff cydgyfeiriant ar y fframweithiau rheoleiddio a chyfreithiol yn y sector cyfathrebiadau; a

- **Newid sefydliadol yng Ngwledydd y DU** – byddwn yn parhau i archwilio'r materion penodol sy'n effeithio ar Wledydd y DU wrth i'w perthynas â Llundain newid, ac yn rhoi sylw i'r rhain ar draws ein gwaith polisi.

**Lleihau rheoleiddio a lleihau beichiau gweinyddol**

3.56 Bydd Ofcom yn parhau â'i ymrwymiad i leihau rheoleiddio a lleihau beichiau gweinyddol ar y busnesau y mae'n eu rheoleiddio. Ceisiwn wneud hyn drwy ein gwaith polisi, drwy symleiddio rheolau lle bo hynny'n briodol a dileu ymyrraeth ddiangen a all fygu datblygiad ac arloesedd yn y farchnad. Fel yn y gorffennol, byddwn yn asesu unrhyw fentrau felly'n ofalus, gan geisio lleihau rheoleiddio lle bydd yn briodol, tra'n ymdrechu ar yr un pryd i sicrhau y parheir i fodloni buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

3.57 Yn 2008/09 rydym wedi cynllunio nifer o weithgareddau penodol yn y maes hwn, gan gynnwys:

- Fel rhan o'n gwaith i weithredu Cyfarwyddeb Gwasanaethau Clyweled a'r Cyfryngau newydd yr UE, byddwn yn cynnal adolygiad o reolau Ofcom ar faint a dosbarthiad hysbysebu teledu (adolygiad RADA). Bydd y prosiect yn archwilio'r cyfleoedd i ryddfrydoli rheoleiddio amserlennu a niferoedd hysbysebion ar sianelau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol, a sianelau cebl a lloeren.

- Yn 2008/09, byddwn yn parhau i leihau cyfyngiadau ar y defnydd o sbectrwm trwy amrywiaeth o weithgareddau, Er enghraifft:

  - byddwn yn archwilio ffyrdd i hwyluso mwy o fynediad i sbectrwm ar gyfer arloeswyr trwy ddarparu proses eglur ar gyfer gwerthuso ceisiadau a thrwy ddileu rhwystrau rheoleiddio lle bo modd;

  - rydym yn bwriadu symleiddio'r broses trwyddedu radio busnes, gan leihau'r nifer o fathau o drwyddedau o 21 i dri. Bydd hyn yn effeithio ar ryw 35,000 o drwyddedigion a fydd yn elwa o'r gallu i fasnachu sbectrwm ac yn sgil mwy o hyblygrwydd defnyddio; a

  - byddwn yn dwyn yn ei flaen ein gwaith ar drwyddedu'r defnydd o ffonau symudol ar awyrennau er mwyn dileu'r cyfyngiadau rheoleiddio presennol.

- Byddwn yn archwilio'r potensial i symleiddio'r Amodau Cyffredinol, a'u gwneud yn fwy hygyrch. Disgwyliwn i'r gwaith hwn arwain at leihad sylweddol mewn beichiau gweinyddol i lawer o ddarparwyr cyfathrebiadau. Hefyd, bydd yn gwella hygyrchedd rheoliadau perthnasol i ddefnyddwyr.

3.58 Mae ein cynllun symleiddio, a gyhoeddwyd ar wefan Ofcom ar 6 Rhagfyr 2007, yn nodi rhagor o fanylion am ymdrechion Ofcom yn y maes hwn.

**Hyrwyddo i’r eithaf ein heffaith ar ddatblygu polisi rhyngwladol**

3.59 Yn ychwanegol at fewnbwn Ofcom at brif weithgareddau datblygu polisïau ar lefel yr UE (fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adran hon), byddwn yn gweithio i wella ein hymgysylltiad cyfredol yn yr UE ac mewn datblygu polisi rhyngwladol yn y meysydd allweddol canlynol:

- **Cydlynu rhyngwladol** – byddwn yn gweithio i gefnogi dimensiwn cydlynu rhyngwladol prosiectau polisi allweddol Ofcom, er enghraifft, wrth ddatblygu ein hymagwedd at rwydweithiau cenhedlaeth nesaf a mynediad cenhedlaeth nesaf.

- **Hyrwyddo buddiannau’r DU mewn llunio polisïau rhyngwladol** – byddwn yn cynnal lefel uchel o ymgysylltiad â fforymau polisi a rheoleiddio allweddol, fel yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol a’r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd.

- **Gwella ein hymgysylltiad rhyngwladol** â chyrff rheoleiddio a chyrff llywodraeth mewn marchnadoedd cyfathrebiadau allweddol o amgylch y byd: er enghraifft, yr UDA, Tsieina a’r India.

## Adran 4

# Darparu gwasanaethau i ddinasyddion a defnyddwyr

4.1 Yn ogystal â datblygu polisi, mae Ofcom yn darparu gwasanaethau allweddol i ddinasyddion, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill fel defnyddwyr sbectrwm.

4.2 Bob blwyddyn, mae Ofcom yn disgwyl cael tua 300,000 o gysylltiadau gan y cyhoedd i ofyn am gymorth ynglŷn â materion defnyddwyr yn y farchnad gyfathrebiadau, neu sy'n cwyno am berfformiad gwael gan ddarparwr gwasanaeth neu faterion yn ymwneud â chynnwys. Yn 2007, cawsom tua 45,000 o gwynion ynglŷn â rhaglen Big Brother yn unig. Rydym hefyd yn cael cysylltiadau gan amrywiaeth o randdeiliaid lle bydd Ofcom yn cymryd camau gorfodi uniongyrchol, er enghraifft, wrth gadw'r tonnau awyr yn rhydd rhag ymyrraeth.

4.3 Yn 2007 tynnom y cyfrifoldeb am weithrediadau trwyddedu sbectrwm i mewn i'r cwmni, gan arbed tua £0.5m y flwyddyn, gan gynnwys y cyfleuster i brynu trwyddedau amatur a morol ar-lein. Yn 2008, rydym yn disgwyl cefnogi mwy na 221,000 o drwyddedau byw gyda mwy na 150,000 yn cael eu hadnewyddu a thrafodion cymwysiadau newydd, a fydd yn cynnwys lloerenni, cysylltiadau sefydlog, radio busnesau preifat a defnyddwyr sbectrwm amatur a morol. Cyflawnwyd y broses o dynnu'r prosesau hyn i mewn i'r sefydliad trwy weithredu systemau IS newydd. Bydd y rhaglen yn parhau yn 2008 er mwyn galluogi masnachu sbectrwm yn y dyfodol fel rhan o'n hymagwedd yn seiliedig ar y farchnad.

4.4 Yn yr adran hon, rydym yn:

- cynnig trosolwg o'r gwasanaethau a gynigiwn i randdeiliaid;
- disgrifio sut rydym yn gwella'r gwasanaethau hynny; ac
- esbonio'r cysylltiadau rhwng cyflwyno gwasanaethau i randdeiliaid a chyflawni ein blaenoriaethau polisi.

4.5 Rydym eisoes wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'n gwasanaethau gweithredol, ynghyd ag arbedion effeithlonrwydd, a fanylir gennym yn Adran 5.

### Cadw'r sbectrwm radio yn rhydd rhag ymyrraeth

4.6 Rydym yn monitro'r sbectrwm radio ac yn cymryd camau i atal ymyrraeth sbectrwm. Mae'r galw cynyddol am sbectrwm yn arwain at ddefnydd dwysach a'r perygl o fwy o ymyrraeth, ac rydym yn rhagweld mwy o waith wrth i'r newid i'r digidol gyflymu. Mae ein tîm Gweithrediadau Maes yn ymdrin â thua 17,000 o achosion y flwyddyn. Maent yn cymryd camau i:

- amddiffyn cyfathrebiadau diogelu bywyd, gan gynnwys gwasanaethau brys a rheoli traffig awyr;
- atal defnydd anghyfreithlon ar y sbectrwm radio;

- caniatáu defnydd cyfreithlon ar y sbectrwm drwy, er enghraifft, ddarparu cyngor a chymorth i ddefnyddwyr sbectrwm; a

- sicrhau y caiff offer nad yw'n cydymffurfio ei dynnu oddi ar y farchnad.

4.7 Ein strategaeth fu canolbwyntio ein hadnoddau ar gadw'r sbectrwm radio yn rhydd rhag ymyrraeth niweidiol. Mae hyn wedi cynnwys trawsnewid ein Tîm Gweithrediadau Maes yn helaeth, gan gynnwys y strwythur trefniadaethol, eiddo, strategaeth o ran cerbydau ac offer, dwysedd ac amrywiaeth y gwaith, a rheoli pobl a diwylliant.

4.8 Yn 2008, rydym hefyd yn bwriadu newid i bolisi cerbydau gwyrdd fel rhan o'n prosiect amgylcheddol.

4.9 Rydym yn adolygu ein gweithdrefnau gweithredol yn gyson, ac yn 2007 cyflwynom swyddogaeth frysbennu ganolog i gynnal camau diagnosteg cychwynnol gyda'r nod o dargedu'r tîm maes yn well a'u defnyddio'n gyflymach.

4.10 Ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio ar adolygu ein dull o orfodi er mwyn sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am arian wrth gyflawni'r effaith gorau posibl ym meysydd allweddol darlledu anghyfreithlon, monitro a datrys ymyrraeth.

## Trwyddedu mynediad at y sbectrwm radio

4.11 Mae Ofcom yn trwyddedu mynediad at y sbectrwm radio trwy gyhoeddi, adnewyddu a diddymu trwyddedau. Lle bo'n briodol, rydym yn cyflawni aseiniadau amledd, yn clirio safleoedd ac yn cydlynu'r defnydd o'r sbectrwm yn rhyngwladol.

4.12 Yn 2007, tynnom y cyfrifoldeb am weithrediadau trwyddedu i mewn i'r cwmni o ganolfannau cenedlaethol a rhanbarthol, a hefyd ein partner allanol blaenorol. Gwnaed hyn trwy weithredu system reoli newydd ar gyfer trwyddedu a'r berthynas â'r cwsmer, a bydd hon yn arbed tua £0.5m y flwyddyn mewn costau.

4.13 Yn ogystal, cyflwynodd y rhaglen hon gyfleuster i allu prynu trwyddedau amatur a morol ar-lein, gan symleiddio'r broses ymhellach trwy ganiatáu trwyddedau am oes mewn rhai categorïau.

4.14 Yn 2008, ein nod yw gwella'r gwasanaeth trwyddedu trwy:

- weithredu trwyddedau cyswllt sefydlog i ganiatáu i ddarparwyr gwasanaeth gysoni'n haws rhwng nifer o safleoedd;

- cynyddu ystod y gwasanaethau trwyddedu electronig sydd ar gael i randdeiliaid; a

- rhoi'r systemau ar waith sy'n caniatáu defnyddio ymagwedd yn seiliedig ar y farchnad ar gyfer sbectrwm yn y dyfodol.

4.15 Yn ogystal, byddwn yn cyhoeddi ac yn ymgynghori ynghylch cynllun sbectrwm drafft ar gyfer Gêmau Olympaidd a Gêmau Paralympaidd 2012 yn Llundain.

## Ymdrin ag ymholiadau a chwynion gan y cyhoedd

4.16 Mae Tîm Gweithrediadau Canolog Ofcom yn ymdrin ag ymholiadau a chwynion gan ddefnyddwyr o ran gwasanaethau telegyfathrebiadau, gwasanaethau teledu a

radio, a defnyddio'r sbectrwm radio. Rydym yn ateb tua 21,500 o alwadau ffôn, 6,700 o negeseuon drwy ein gwefan, 1,000 o negeseuon e-byst a 1,300 o lythyron a ffacsiau bob mis.

4.17 Yn aml, bydd defnyddwyr yn cwyno i Ofcom am faterion telegyfathrebiadau am eu bod wedi cael ymateb annigonol oddi wrth eu darparwyr gwasanaeth, neu am na fu modd iddynt gysylltu â nhw. Ein nod yw helpu defnyddwyr i ddatrys eu cwynion drwy eu cyfeirio at gyngor a gwybodaeth ddefnyddiol a chysylltu â darparwyr gwasanaeth ynghylch materion cyffredin.

4.18 Fel arfer, bydd pobl yn cwyno yn uniongyrchol i Ofcom ynglŷn â rhaglenni teledu a radio. Gall Ofcom ystyried cwynion sy'n ymwneud â nifer o feysydd, fel diogelu pobl dan 18 oed, niwed a throsedd, tegwch a phreifatrwydd, ac amhleidioldeb a chywirdeb o ran newyddion. Fodd bynnag, nid yw Ofcom yn ystyried materion sy'n ymwneud ag amhleidioldeb a chywirdeb rhaglenni'r BBC (cyfrifoldeb Ymddiriedolaeth y BBC yw hynny). Rydym hefyd yn ymdrin â chwynion am noddwyr rhaglenni a dylanwad masnachol honedig.

4.19 Mae Tîm Ymgynghori Ofcom hefyd yn cael ymholiadau ynglŷn â defnyddio'r sbectrwm radio, er y caiff y rhain eu cyfeirio at ein Canolfan Drwyddedu bwrpasol gan amlaf.

4.20 Rydym yn buddsoddi mewn systemau gwybodaeth i wella ein perfformiad o ran ymdrin â galwadau wrth fynd i'r afael ag ymholiadau a chwynion. Rydym hefyd yn ceisio optimeiddio rôl Tîm Ymgynghori Ofcom o ran cynnig rhybudd cynnar ynglŷn â phryderon defnyddwyr, fel galwadau distaw, slamio a cham-werthu. Mae hyn yn digwydd gyda marchnadoedd cyfathrebiadau sy'n newid yn gyflym yn gefndir iddo; felly, mae mathau newydd o gŵynion yn dod i'r amlwg drwy'r amser ac yn achosi cynnydd annisgwyl yn nifer y cwynion a gawn.

## Dyrannu blociau rhifau ffôn i ddarparwyr gwasanaeth

4.21 Mae Ofcom yn chwarae rôl bwysig wrth ddyrannu blociau rhifau ffôn i ddarparwyr gwasanaethau cyfathrebiadau sydd, yn eu tro, yn dyrannu rhifau unigol i'w cwsmeriaid. Mae nifer y ceisiadau a geir gan ddefnyddwyr gwasanaeth wedi tyfu'n gyson yn ystod y blynyddoedd diweddar, gan fynd yn uwch na 2,000 am y tro cyntaf yn 2005. Yn 2006, cawsom 2,488 o geisiadau, a chynyddodd y nifer ymhellach yn 2007, i 2,693.

4.22 Fel rhan o'n Adolygiad Strategol o Rifo, rydym wedi sefydlu'r egwyddorion canlynol sy'n llywodraethu rhifo:

- dylai'r rhifau y mae ar gwsmeriaid eu heisiau fod ar gael pan fydd eu hangen;
- ni ddylid newid y rhifau y mae defnyddwyr yn eu defnyddio ar hyn o bryd os oes modd osgoi hynny; dylid cadw'r hyn y mae mathau penodol o rifau yn ei olygu i bobl – fel rhifau 0800 a 0300 sy'n cael eu cysylltu â galwadau am ddim;
- dylai prosesau dyrannu rhifau gefnogi cystadleuaeth ac arloesedd; ac
- ni ddylid amlygu defnyddwyr i gael eu cam-drin.

4.23 Bydd angen nifer o newidiadau gweithredol i roi'r egwyddorion hyn ar waith, gyda'r nod o greu proses dyrannu rhifau sy'n effeithlon, yn cael ei gyrru i raddau mwy gan y defnyddiwr, ac a arweinir i raddau mwy gan y farchnad. Er y bydd newidiadau yn

digwydd dros nifer o flynyddoedd, rydym eisoes wedi dechrau dyrannu blociau llai o rifau lle mae perygl y ceir prinderau.

## Darparu gwasanaethau gwybodaeth

4.24 Mae Ofcom yn cynnig y gwasanaethau gwybodaeth sy'n tanategu cyflwyno gwasanaethau i randdeiliaid, fel y rheiny sy'n caniatáu mynediad cynyddol at wasanaethau ar-lein.

4.25 Etifeddodd Ofcom 45 o systemau gwybodaeth gwahanol oddi wrth y rheoleiddwyr y gwnaethom eu disodli. Roedd y systemau hyn a etifeddwyd, ar y cyfan, yn rhai pwrpasol, wedi'u seilio ar lwyfannau a thechnolegau gwahanol. Felly, gwnaethom adolygu strategaeth ein systemau gwybodaeth i'n galluogi i fodloni ein gofynion busnes ac, yn ystod 2007, cwblhaom Gyfnod 1 ein rhaglen drawsnewid, gan gyflwyno gwasanaeth trwyddedu mewnol a systemau cyllid ac AD newydd cydgysylltiol.

4.26 Yn 2008, dechreuwn ar Gyfnod 2 y rhaglen gyda'r nod o gyflwyno arbedion yng nghostau rhedeg parhaus ein systemau IS yn ogystal â chyflwyno'r ymarferoldeb sy'n ofynnol i ganiatáu i'n rhaglen sbectrwm weithio yn y dyfodol, i wella'n cyswllt â'r cwsmer ac i gyflwyno adborth gwell i'n timau gorfodi a pholisi defnyddwyr.

## Darparu gwybodaeth i'n defnyddwyr drwy ein gwefan

4.27 Byddwn yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr drwy ein gwefan trwy gyhoeddi, er enghraifft, rhybuddion am achosion o dwyll y mae'n bosibl y cânt eu hamlygu iddynt. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwefan i ddarparu mwy o gyngor i'r defnyddiwr, yn arbennig mewn meysydd sy'n cefnogi materion yn ymwneud â llythrennedd yn y cyfryngau. Rydym yn parhau i adolygu ein mecanweithiau cysylltu i ganiatáu rhyngweithio'n haws ag Ofcom a chael mynediad at weithdrefnau cwyno neu gyngor.

## Cyhoeddi adroddiadau ymchwil i'r farchnad a'r Farchnad Gyfathrebu

4.28 Byddwn yn cyhoeddi ystod eang o adroddiadau ynglŷn â datblygiadau yn y sector cyfathrebiadau ac ar agweddau dinasyddion a defnyddwyr..

Mae ein cyfres o Adroddiadau ar y Farchnad Gyfathrebu yn cynnwys:

- Marchnad Gyfathrebiadau'r DU – i'w gyhoeddi yn yr haf;
- Y Farchnad Gyfathrebu: Y Gwledydd a'r Rhanbarthau – i'w gyhoeddi yn y gwanwyn; ac
- Y Farchnad Gyfathrebu Ryngwladol – i'w gyhoeddi yn y gaeaf.

Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Brofiad y Defnyddiwr yn y gaeaf. Mae'r adroddiad hwn yn arolygu profiadau defnyddwyr cyfathrebiadau ar draws yr holl sectorau a reoleiddir gan Ofcom.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiadau Cynnydd Digidol ynglŷn â:

- theledu digidol bob chwarter; a
- marchnadoedd eraill sy'n symud yn gyflym yn ôl y gofyn.

Rydym hefyd yn cyhoeddi adroddiadau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (PSB) sy'n asesu perfformiad darlledwyr yn erbyn dibenion a nodweddion PSB.

Yn ogystal, ein nod yw cyhoeddi'r holl ymchwil sy'n ymwneud â phrosiectau polisi cefnogi.


## Cysylltiadau rhwng cyflwyno gweithrediadau a pholisi

4.29 Mae cyflwyno ein gwasanaethau gweithredol yn effeithiol wedi'i gysylltu'n agos â'r meysydd polisi allweddol a nodir yn ein fframwaith strategol. Er enghraifft:

- caiff gyrru ymagwedd yn seiliedig ar y farchnad o ran sbectrwm ei danategu gan ddiwygio trwyddedu sbectrwm a rheoli ymyrraeth yn effeithiol;
- caiff datblygu mecanweithiau newydd i gyflwyno canlyniadau cyhoeddus ei gefnogi gan uned Gwasanaethau Defnyddwyr Ofcom, sy'n ymdrin â chwynion am raglenni a ddarlledir ar y teledu a'r radio;
- bydd gwella cydymffurfiad a grymuso defnyddwyr yn elwa ar y system rybuddio gynnar a ddarperir gan Dîm Ymgynghori Ofcom, a chamau effeithiol i ymdrin â darlledu anghyfreithlon; a
- chaiff hyrwyddo amodau ar gyfer cystadleuaeth ac arloesedd ei gefnogi gan ddyrannu rhifau ffôn yn effeithlon, yn ogystal ag ymchwil a datblygiad o ran technoleg.

4.30 Mae Ffigur 16 isod yn cynnig rhai enghreifftiau o'r cysylltiadau pwysig rhwng y gwasanaethau a ddarparwn i randdeiliaid a'r meysydd polisi a nodir yn ein fframwaith strategol tair blynedd.

### Ffigur 16: Cysylltiadau rhwng cyflwyno gweithrediadau a pholisi




## Mabwysiadu arferion cynaliadwy

4.31 Mae Ofcom am fabwysiadu arferion cynaliadwy yn ei waith polisi a gweithredu drwyddo draw. Ar ôl ystyried pryder cyhoeddus cynyddol ynghylch materion amgylcheddol, penderfynom ddatblygu ymagwedd gynhwysfawr i sicrhau bod ein gweithgareddau yn amgylcheddol gyfeillgar. Fel rhan o'r ymdrech hon, cynhaliom

archwiliad carbon cychwynnol o'n gweithrediadau ar ddiwedd 2007, gan nodi nifer o feysydd y gallem wneud gwahaniaeth cadarnhaol ynddynt – er enghraifft, cyflogeion yn cymudo a defnydd gwasanaethau data o bŵer. Rydym eisoes wedi dechrau gwaith yn y meysydd hyn, ac yn ystod 2008/9 byddwn yn ymgymryd â dadansoddiad pellach ac yn datblygu rhaglen o welliannau i sicrhau bod ein gweithrediadau'n cadw at arfer amgylcheddol gorau.

## Adran 5

# Cyflwyno gwerth i randdeiliaid

5.1 Ers ei sefydlu, mae Ofcom wedi cynnal ei ymrwymiad i uchafu effeithlonrwydd ei weithrediadau i gyflwyno gwerth am arian i randdeiliaid. Bob blwyddyn ers 2003, rydym wedi lleihau ein cyllideb darged gan o leiaf 5 y cant mewn termau real o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol.

5.2 Fel y nodom yng nghynllun blynyddol y llynedd, yn dilyn sawl blwyddyn o fentrau pwysig i wella effeithlonrwydd, mae Ofcom yn dod yn sefydliad sefydledig a chanddo ofynion mwy cyson o ran cyllideb. Yn ychwanegol at hynny, ystyr cydgyfeiriant yw bod heriau rheoleiddio yn dod yn gynyddol gymhleth, a bod nifer y meysydd y mae'n rhaid i ni ymdrin â nhw er mwyn mynd i'r afael ag anghenion dinasyddion a defnyddwyr y DU yn cynyddu. Fe nodom yn y Cynllun Blynyddol Drafft fod hyn yn awgrymu efallai y bydd llai o gwmpas i leihau'r gyllideb ymhellach yn ystod y blynyddoedd nesaf.

5.3 Mae ein cyllideb ar gyfer 2008/09 wedi'i phennu ar £133.7m – mae hyn yn ostyngiad o 1.5 y cant mewn termau real o gymharu â chyllideb y llynedd.

### Gwella gwerth am arian

5.4 Yn ystod y pedair blynedd ers i Ofcom ddod i fodolaeth, rydym wedi gweithio'n gyson i gyflawni arbedion effeithiolrwydd drwy symleiddio ein gweithgareddau a buddsoddi i wella effeithiolrwydd ein gweithrediadau:

- mae Ofcom yn parhau i weithredu gyda rhyw 350 yn llai o weithwyr na'r 1152 o gydweithwyr a gyflogwyd yn uniongyrchol gan y rheoleiddwyr cyfunedig a ddisodlwyd gan Ofcom;
- mae'r prosiect a lansiwyd i integreiddio a rhesymoli'r 70 system gweithredu a etifeddwyd oddi wrth y rheoleiddwyr blaenorol wedi gwneud cynnydd da, a bwriedir cwblhau elfennau terfynol y rhaglen yn ystod 2008/09. Bydd y prosiect hwn, a adwaenir fel Prosiect Unify, yn arwain at leihau ein gwariant ar systemau gwybodaeth. Bydd hefyd yn creu llwyfan i gyflwyno ein strategaeth trwyddedu sbectrwm ac yn rhyddhau buddion ar gyfer y dyfodol;
- mae ailstrwythuro oddi mewn i'n timau Gweithrediadau Maes a meysydd Gweithrediadau Canolog wedi cyflwyno arbedion effeithlonrwydd sylweddol yn ogystal â strwythurau sefydliadol sy'n gallu ymdrin ag anghenion ein rhanddeiliaid a'u bodloni i raddau mwy;
- rydym yn parhau i weithredu ein swyddogaethau profi technoleg yn allanol, ac yn elwa ar y costau cyffredinol is a geir o ganlyniad; ac
- erbyn hyn, am fod prydlesi wedi dod i ben ar sawl eiddo dros ben yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac o ganlyniad i is-osod yn llwyddiannus lle gwag yn ein swyddfa yn Llundain, ceir arbedion cronnus gwerth mwy na £3m y flwyddyn.

O ganlyniad i'r gweithgareddau hyn, rydym yn agos erbyn hyn at gyflawni llawer o'r enillion effeithlonrwydd sy'n bosibl heb bergylu ein dyletswyddau rheoleiddio tuag at ddinasyddion a defnyddwyr. Er gwaethaf hyn, bydd Ofcom yn parhau i

ganolbwyntio ar wella'r gwerth am arian a gynigir i randdeiliaid trwy amrywiaeth o fentrau yn ystod y flwyddyn nesaf:

- byddwn yn parhau i adolygu ein portffolio eiddo yn barhaus i sicrhau eu bod yn addas at ddibenion y sefydliad a gwerth uchaf am arian i randdeiliaid;
- ein bwriad yw adolygu'r broses dendro sydd ar waith ar gyfer contractau o faint sylweddol ar gyfer darparu gwasanaeth. Nod yr adolygiad fydd gwella effeithlonrwydd y gwasanaethau a ddarparwn i randdeiliaid, a bydd yn cynnwys meysydd gweithredol a pholisi; a
- byddwn yn parhau â'n hymgais i leihau nifer y cyhoeddiadau argraffedig, a byddwn yn sicrhau y gellir cael mynediad at holl gyhoeddiadau Ofcom yn hawdd ar ein gwefan.

## Mae Ofcom wedi cwblhau ad-dalu ei fenthyciad sefydlu

5.5 Cafodd Ofcom fenthyciad oddi wrth Yr Adran Masnach a Diwydiant i dalu ei gostau sefydlu cychwynnol, a gafwyd rhwng mis Mawrth 2003 a mis Ionawr 2004. Buom yn ad-dalu'r benthyciad mewn rhandaliadau ers 2003/04.

5.6 Fe wnaethom gwblhau ad-dalu'r benthyciad a'r llog a gronnwyd yn 2007/08, gan ad-dalu'r £5,362,000 a oedd yn weddill. Mae Ffigur 17 isod yn dangos amserlen yr ad-daliadau a chyfran y costau a ddyrannwyd ar draws ein grwpiau gwahanol o randdeiliaid.

5.7 Mae hyn yn golygu na fydd angen unrhyw gyfraniadau gan randdeiliaid yn 2008/09 er mwyn ad-dalu'r benthyciad.

### Ffigur 17: Ad-dalu'r benthyciad i dalu costau sefydlu Ofcom

| | 2003/4 £'000 | 2004/5 £'000 | 2005/6 £'000 | 2006/7 £'000 | 2007/8 £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhwydweithiau a gwasanaethau | | 2,723 | 2,592 | 2,672 | 2,560 | 10,547 |
| Teledu | | 2,578 | 2,454 | 2,530 | 2,423 | 9,985 |
| Radio | | 403 | 383 | 395 | 379 | 1,560 |
| Arall | 7,328 | 13,948 | 13,425 | | | 34,701 |
| Cyfanswm | 7,328 | 19,652 | 18,854 | 5,597 | 5,362 | 56,793 |

## Atodiad 1

# Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid

### Sylwadau cyffredinol

A1.1 Roedd adborth y rhanddeiliaid ar y Cynllun Blynyddol Drafft, a gyhoeddwyd ar 11 Rhagfyr 2007 ar gyfer ymgynghoriad deng wythnos, yn gefnogol ar y cyfan i'n rhaglen waith arfaethedig ar gyfer 2008/09. Cytunai rhanddeiliaid yn gyffredinol bod ein fframwaith strategol tair blynedd yn parhau'n berthnasol, ac mai'r prif feysydd blaenoriaeth a nodwyd oedd y rhai iawn. Gofynnodd un ymatebydd am fwy o fanylder ynglŷn â'r modd y penderfynodd Ofcom ar ei restr o brif flaenoriaethau.

A1.2 Rydym yn falch fod llawer o randdeiliaid wedi cytuno â pherthnasedd parhaus ein fframwaith tair blynedd ac â'n blaenoriaethau ar gyfer 2008/09. Nodwyd y blaenoriaethau pennaf ar gyfer y Cynllun Blynyddol Drafft o ganlyniad i ddadansoddiad helaeth o dueddiadau'r farchnad a thrafodaeth fewnol eang ag Uwch Reolwyr a Bwrdd Ofcom. Hefyd, gofynnom am fewnbwn gan holl gyrff ymgynghori Ofcom yn gynnar yn y broses gynllunio er mwyn sicrhau ein bod wedi ystyried yr holl grwpiau rhanddeiliaid a'u buddiannau.

A1.3 Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at y gwahaniaethau rhwng anghenion defnyddwyr busnes ac anghenion dinasyddion a defnyddwyr unigol. Roedd rhai ymatebion yn awgrymu bod Ofcom yn canolbwyntio ar faterion dinasyddion a defnyddwyr unigol ar draul defnyddwyr busnes. Ar yr un pryd, roedd ymatebydd arall yn pryderu bod Ofcom yn canolbwyntio gormod ar fuddiannau busnes.

A1.4 Mae Ofcom yn cydnabod y gwahaniaethau rhwng anghenion defnyddwyr cyfathrebiadau unigol ac anghenion busnesau. Byddwn yn parhau i weithio i roi sylw i faterion hanfodol sy'n effeithio ar y ddau grŵp hwn. Yn y cynllun blynyddol terfynol, rydym wedi tynnu sylw at y ffaith fod ein diffiniad o ddefnyddwyr yn cynnwys defnyddwyr busnes. Ystyriwn ddefnyddwyr busnes ym mhob un o'n prosiectau lle mae hyn yn berthnasol, er enghraifft:

- roedd ein gwerthusiad blynyddol o effaith yr Adolygiad Strategol o Delegyfathrebiadau yn rhoi ystyriaeth benodol i'r effaith ar ddefnyddwyr busnes yn ogystal â'r effaith ar ddefnyddwyr unigol;
- mae ein hadolygiad parhaus o'r farchnad ymgysylltiad busnes yn canolbwyntio'n benodol ar y farchnad busnes; a
- bydd ein gwaith mewn perthynas â rhwydweithiau cenhedlaeth nesaf yn ceisio sicrhau y gall defnyddwyr busnes gael mynediad i wasanaethau etifeddiaeth mewn unrhyw symudiad at dechnolegau rhwydwaith newydd.

A1.5 Fe wnaeth nifer o ymatebwyr godi pryderon ynghylch ymagwedd Ofcom at flaenoriaethu materion cystadleuaeth, ac yn arbennig mewn perthynas ag adolygiadau marchnad, datrysiadau anghydfodau ac ymchwiliadau'r Ddeddf Cystadleuaeth. Awgrymodd un ymatebydd fod angen i ni wella effeithlonrwydd ein hymchwiliadau dan y Ddeddf Cystadleuaeth. Roedd un arall o'r farn fod Ofcom i weld yn rhoi blaenoriaeth i faterion defnyddwyr dros waith cystadleuaeth.

A1.6 Mae hyrwyddo cystadleuaeth yn parhau'n sylfaenol i ymagwedd strategol Ofcom, a dangosir hyn gan y pum maes blaenoriaeth uchaf o dan yr elfen hon o'r fframwaith. Rydym yn ymdrechu'n barhaus i wella effeithlonrwydd ein prosiectau, ac wedi ceisio'n benodol i liniaru risg gwaith heb ei gynllunio trwy gadw cyfran o'n gallu wrth gefn ar gyfer gorchwylion felly. Mae'n bwysig cydnabod bod ystod eang o ddyletswyddau gan Ofcom mewn perthynas â materion cystadleuaeth a materion diogelu defnyddwyr, yn ogystal ag mewn hyrwyddo buddiannau defnyddwyr. Bydd angen i ni gydbwyso'r materion pwysig hyn bob amser felly, ac adolygu ein cynlluniau'n gyson er mwyn rhoi sylw i faterion brys ym mhob un o'r meysydd hyn. Byddwn yn diweddaru rhanddeiliaid ar unrhyw ddiwygiadau i'n cynlluniau trwy dabl manwl ar ein gwefan bob chwarter sy'n nodi'r allgynnyrch yr ydym wedi'i gynllunio.

A1.7 Roedd tri ymateb yn gofyn am ddiffiniadau mewn perthynas ag amcanion buddiannau cyhoeddus a buddiannau dinasyddion. Tynnodd y rhanddeiliaid hyn sylw at bwysigrwydd eglurder mewn perthynas â'r telerau hyn er mwyn sicrhau bod strategaethau rheoleiddio wedi'u targedu a bod modd eu mesur.

A1.8 Mae gan Ofcom ddyletswyddau i hyrwyddo buddiannau dinasyddion mewn materion cyfathrebiadau, ac i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol. Mae ein dyletswyddau deuol yn adlewyrchu'r syniad bod pawb ohonom yn ddinasyddion ac yn ddefnyddwyr - dau gysyniad pendant lle mae eglurder yn gynyddol bwysig gan fod cydgyfeiriant yn codi cwestiynau newydd ynghylch gwasanaethu buddiannau dinasyddion yn y sector cyfathrebiadau. Bu Ed Richards yn trafod y materion hyn yn fanwl yn narlith flynyddol Ofcom y llynedd, a nodwyd cwestiynau allweddol ar gyfer buddiannau dinasyddion yn deillio o gydgyfeiriant.[7]

A1.9 Fel defnyddwyr, cyfranogwn yn y farchnad, cyfnewidiwn nwyddau a gwasanaethau, ac yn gyffredinol edrychwn am yr hyn sy'n dda i ni'n hunain – er enghraifft, prisiau is, dewis ac ansawdd. Hyrwyddo cystadleuaeth yw'r ffordd orau o wasanaethu buddiannau defnyddwyr yn y rhan fwyaf o achosion, a sicrhau ar yr un pryd bod diogelwch a grymuso digonol yn y farchnad.

A1.10 Fel dinasyddion mae ein buddiannau yn mynd ymhellach o lawer na'r hyn sy'n dda i ni'n unigol. Rydym yn gyfranogwyr mewn cymdeithas ddemocrataidd, ac mae gennym hawliau a chyfrifoldebau a bennir gan y Senedd a chan y gweinyddiaethau datganoledig. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i gael mynediad i wybodaeth er mwyn cyfranogi'n llawn yn y broses ddemocrataidd – er enghraifft, mynediad i luosogrwydd barnau yn y cyfryngau. Mae hefyd yn cynnwys hawliau i'r gwasanaethau angenrheidiol i gyfranogi ym mywyd cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ehangach cymdeithas, a lle fyddai diffyg mynediad yn creu mantais annheg i ni – er enghraifft, mynediad i deleffoni sylfaenol.

A1.11 Er y gall marchnadoedd fynd rywfaint o'r ffordd i hyrwyddo buddiannau dinasyddion, mae'n ofynnol cael ymyriadau cyhoeddus ehangach mewn llawer o achosion. Mae costau'n gysylltiedig â'r ymyriadau hyn ac yn aml maent yn cyferbynnu â'n buddiannau fel defnyddwyr. Deillia Ofcom ei gyfrifoldebau yn y meysydd hyn o'r Ddeddf Cyfathrebiadau a statudau perthnasol eraill. Lle nad yw hynny'n wir, gweithiwn gyda'r Llywodraeth i bennu amcanion buddiannau cyhoeddus sy'n berthnasol i feysydd polisi penodol.

[7] Mae'r trawsgrifiad ar gael yn http://www.ofcom.org.uk/media/speeches/2007/10/annuallecture

A1.12 Er hynny, mae rhyw raddfa o ddehongli ynglŷn â dyletswyddau Ofcom mewn perthynas â buddiannau defnyddwyr, ac yn ein hymagwedd at gyflawni ar y dyletswyddau hyn. Mae angen i Ofcom felly fod mor seiliedig ar dystiolaeth, mor dryloyw ac atebol ag y bo modd, ac mae angen iddo ofyn am ystod eang o farnau wrth wneud penderfyniadau polisi.

A1.13 Cydnabyddwn y byddai'n ddefnyddiol cael trafodaeth fanylach ar y materion hyn ac i ofyn am adborth gan randdeiliaid. I alluogi hyn, rydym yn cynllunio i gyhoeddi papur trafod yn amlinellu dehongliad Ofcom o'n dyletswyddau tuag at ddinasyddion yn ystod y flwyddyn. Croesawn adborth gan bob un o'n rhanddeiliaid ar y papur hwn a fydd yn cael ei gyhoeddi.

A1.14 Fe wnaeth nifer o ymatebwyr bwysleisio pwysigrwydd ymagwedd gydlynus tuag at reoleiddio, o gofio'r cysylltiadau rhwng segmentau gwahanol y farchnad y mae Ofcom yn ei rheoleiddio. Awgrymodd ddau ymatebydd yn benodol fod angen i ni roi ystyriaeth gyson i ddatblygiadau mewn cydgyfeiriant yn ein gwaith drwyddo draw.

A1.15 Gan iddo gael ei sefydlu i fynd i'r afael â heriau cydgyfeiriant, mae Ofcom yn rhoi lle canolog i ddatblygiadau cydgyfeiriant yn ei ymagwedd strategol. Gydol ein gwaith, ystyriwn effaith newidiadau'r farchnad ym mhob un o feysydd hanesyddol gwahanol ymyrraeth rheoleiddio. I helpu rhoi sylw i gwestiynau tymor hwy a godir gan gydgyfeiriant, byddwn yn cyfrannu'n weithredol at waith y Llywodraeth drwy gyfranogi yn y Felin Drafod Cydgyfeiriant. Fodd bynnag, mae'n bwysig sylweddoli nad yw cydgyfeiriant yn effeithio ar bob un o segmentau'r farchnad gymaint â'i gilydd, a bod llawer o ddefnyddwyr yn dal i ddefnyddio gwasanaethau annibynnol – mae angen i'n hymagwedd sicrhau y parheir i fodloni buddiannau'r grwpiau hyn.

A1.16 Awgrymodd un rhanddeiliad y dylai Ofcom roi mwy o ffocws ar faterion amgylcheddol fel rhan o'i waith polisi, ac y dylai ei ymagwedd strategol gynnwys elfen o ddatblygu cynaliadwy. Awgrymwyd y dylid ystyried canllawiau DEFRA ar ardaloedd tirlun dynodedig wrth wneud penderfyniadau polisi, yn arbennig mewn perthynas ag effaith weledol isadeiledd rhwydweithiau mewn parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol (AHNE).

A1.17 Mae Ofcom yn ystyried materion amgylcheddol yn ddifrifol iawn. Er creu Ofcom, rydym wedi ceisio mabwysiadu arferion cynaliadwy lle bynnag y bo modd, ac rydym wedi cynnal nifer o fentrau yn y maes hwn – er enghraifft, wrth gynyddu ein heffeithlonrwydd ynni a mabwysiadu rhaglen ailgylchu. Fel yr amlinellir yn Adran 4 y ddogfen hon, rydym wrthi'n datblygu ymagwedd gynhwysfawr at leihau ôl-troed carbon ein gweithrediadau.

A1.18 Mewn perthynas ag ystyried effaith weledol seilwaith rhwydweithiau mewn parciau cenedlaethol ac AHNE, mae'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn pennu gofyniad ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ystyried gwarchod harddwch naturiol ac amwynder cefn gwlad wrth bennu unrhyw reoliadau a all effeithio ar osod a chynnal a chadw seilwaith rhwydweithiau. Er bod rhaid ymgynghori ag Ofcom cyn bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud unrhyw reoliadau felly, nid oes gan Ofcom bwerau penodol yn y maes hwn.

A1.19 Ymhellach, cydnabyddwn fod materion amgylcheddol yn gynyddol bwysig i ddinasyddion a defnyddwyr, ac i'r Llywodraeth. Mae hwn yn faes y gall y Llywodraeth ddymuno roi sylw iddo fel rhan o ddiweddariadau i ddeddfwriaeth yn

y dyfodol yn y sector cyfathrebiadau. Ar wahân, rydym yn adolygu effaith amgylcheddol Ofcom ei hun fel rhan o'n gwaith yn 2008/09 fel y nodir uchod.

A1.20 Galwodd un ymatebydd am gynnwys mwy o fanylion am yr hyn y gellir ei gyflawni, graddfeydd amser ac unigolion sy'n gyfrifol am feysydd penodol yn y cynllun blynyddol drafft.

A1.21 Yn ein proses gynllunio, yn gyntaf datblygwn ac ymgynghorwn ar ymagwedd eang a rhaglen waith lefel uchel, cyn y gallwn gwblhau manylion amseru ac allgynnyrch ar gyfer prosiectau penodol. Ochr yn ochr â'n cynllun blynyddol terfynol, cyhoeddwn dabl ar ein gwefan sy'n cynnwys disgrifiadau o'r holl brosiectau yr ydym wedi'u cynllunio, manylion allgynnyrch a'r cyswllt priodol sy'n gyfrifol am bob allgynnyrch.

A1.22 Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau ar brosesau ymgynghori Ofcom. Dywedodd ddau randdeiliad y dylai ein hymgynghoriadau ganiatáu digon o amser i ymateb. Dywedodd un rhanddeiliad y dylai cyhoeddiad datganiadau Ofcom fod yn fwy amserol, ac y dylem fod yn fwy tryloyw wrth ystyried adborth ymgynghoriadau. Roedd rhanddeiliad arall o'r farn bod maint cyffredinol a hyd ymgynghoriadau yn rhoi baich ar randdeiliaid, ac nad oes angen i ddogfennau ymgynghori nodi'n fanwl y materion sylfaenol sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau. Awgrymodd un ymateb y dylem archwilio cyfleoedd ar-lein i randdeiliaid, yn enwedig aelodau unigol o'r cyhoedd, i ddarparu mewnbwn.

A1.23 Ar sail yr adborth a geir gan randdeiliaid a chydweithwyr Ofcom, rydym wedi gwella a mireinio ein prosesau ymgynghori, fel yr adlewyrchir yn y canllawiau a gyhoeddwyd gennym ar ddiwedd 2007[8]. Mae penderfyniadau Ofcom yn effeithio ar bobl a sefydliadau ar draws y DU, ac mae angen i ni fod mor dryloyw ag y bo modd yn ein proses benderfynu. Gwnawn hyn drwy ddarparu'r holl dystiolaeth berthnasol a sicrhau bod ein dogfennau yn hygyrch i'r cyhoedd er mwyn galluogi pawb i gyfrannu'u barn. I gefnogi hyn, rydym yn cynyddu nifer y dogfennau y trefnwn eu bod ar gael mewn iaith glir. Mae ein ffurflen syml ar y we i ymateb i ymgynghoriadau yn galluogi pob rhanddeiliad i ddarparu mewnbwn drwy wefan Ofcom.

## Gyrru yn ei blaen ymagwedd sy'n seiliedig ar y farchnad tuag at sbectrwm

### Adolygiad o'r Difidend Digidol

A1.24 Cododd ymatebwyr nifer o gwestiynau mewn perthynas â'r Adolygiad o'r Difidend Digidol. Tynnodd ddau ymatebydd sylw at bwysigrwydd y cyd-destun rhyngwladol i'r gwaith hwn. Awgrymodd un bod angen i ni sicrhau nad yw sefyllfa'r DU yn groes i ymagweddau sydd wedi'u mabwysiadu mewn mannau eraill yn Ewrop. Cododd nifer o ymatebion faterion yn ymwneud â chystadleuaeth a mynediad i sbectrwm, yn deillio o ymagwedd yn cael ei gyrru gan y farchnad tuag at y dyfarniad. Awgrymodd rhai bod rhaid gwneud darpariaethau arbennig i gefnogi grwpiau dielw, gweithredwyr lleol a chyrff y sector cyhoeddus sy'n cael mynediad i'r difidend digidol.

A1.25 Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, rydym wedi penderfynu mabwysiadu ymagwedd yn cael ei harwain gan y farchnad tuag at ddyfarnu'r difidend digidol. Golyga hyn y byddwn yn ocsiynu'r rhan fwyaf o'r sbectrwm mewn modd sy'n galluogi defnyddwyr i benderfynu sut y dylid defnyddio'r

[8] http://www.ofcom.org.uk/consult/consult_method/ofcom_consult_guide

sbectrwm ac sy’n creu’r hyblygrwydd a’r cyfleoedd mwyaf posibl i dechnolegau a gwasanaethau gwahanol. Credwn mai ymagwedd felly, yn cael ei hategu gan gyllid uniongyrchol (lle bydd yn ofynnol) i adlewyrchu defnyddiau gwerth i gymdeithas, yw’r un fwyaf addas hefyd i gyflawni’r ffynonellau gwerth cymdeithasol gwahanol hyn ac i uchafu’r cyfanswm gwerth a gynhyrchir drwy ddefnyddio’r sbectrwm hwn.

A1.26 Bydd dyfarnu’r difidend digidol cyn gynted ag y bo modd yn caniatáu dinasyddion a defnyddwyr i elwa o wasanaethau newydd a gwell heb unrhyw oedi. Mae’n debygol y bydd rhywfaint o ansicrwydd yn gysylltiedig â rhai defnyddiau ar unrhyw bwynt mewn amser, o gofio cyflymder cyfredol newid technolegol a newid marchnad yn y sector, ac ni fyddai gohirio’r dyfarniad yn datrys y broblem hon. Ar yr un pryd, cydnabyddwn y buddion y gallai ymagwedd gyffredin at y defnydd o’r sbectrwm hwn eu cyflawni, a chefnogwn yn gryf yr ymagwedd anorfodol ac anghynhwysol at gytgord Ewropeaidd sy’n cael ei ddatblygu yn y Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebiadau. Mewn cyferbyniad, bydd yn eithriadol o anodd, os nad yn amhosibl, i orfodi ymagwedd gyffredin at ddefnyddio’r difidend digidol ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

A1.27 Byddwn yn rhoi sylw i’r ffyrdd o gyflawni’n hamcan ar gyfer yr Adolygiad o’r Difidend Digidol trwy ddylunio dyfarniadau pan fyddwn yn ymgynghori ar gynigion manwl yn y gwanwyn.

**Ymagwedd sy’n seiliedig ar y farchnad tuag at sbectrwm**

A1.28 Gofynnodd rhanddeiliaid nifer o gwestiynau mewn perthynas â’n gwaith ehangach ar weithredu ymagwedd sy’n seiliedig ar y farchnad tuag at sbectrwm. Gofynnodd un rhanddeiliad ynglŷn â’r fethodoleg y tu ôl i amcangyfrif Ofcom o’r gwerth a gynhyrchir gan sbectrwm, a ph’un a yw ein datganiad ar werth cynyddol yn gwrth-ddweud data sy’n dangos gostyngiadau mewn prisiau cyfathrebiadau. Holodd hefyd ynglŷn ag ymagwedd Ofcom at fesur effeithlonrwydd sbectrwm. Tynnodd un ymateb sylw at yr angen i ganiatáu digon o amser i asesu diogelwch, yr effeithiau economaidd-gymdeithasol ac effeithiau amgylcheddol wrth i ni symud tuag at ymagwedd sy’n seiliedig ar y farchnad tuag at sbectrwm. Cododd un ymateb bryderon ynghylch lefel buddiannau’r DU mewn datblygu polisi rhyngwladol yn y maes hwn. Yn olaf, awgrymodd un rhanddeiliad bod angen i Ofcom sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ryddhau yn y dyfodol er mwyn hyrwyddo datblygiad band eang symudol.

A1.29 O dro i dro bydd Ofcom yn amcangyfrif y gwerth y mae’r defnydd o sbectrwm yn ei ddarparu i economi’r DU ar ffurf ei gyfraniad at y CMC. Yn fras, swm y cynhyrchydd a gwarged y defnyddiwr sy’n gysylltiedig â’r defnydd o sbectrwm yw’r gwerth hwn. Er enghraifft, ar gyfer teleffoni seliwlar y gwarged cynhyrchu, yn bennaf, yw proffidioldeb y gweithredwyr seliwlar, a gwarged y defnyddiwr yw’r gwerth ychwanegol a ddeillia defnyddwyr o ddefnyddio teleffoni seliwlar ymhellach na’u ffi misol. Yn 2007 y cynhaliom yr ymarferiad hwn ddiwethaf[9].

A1.30 Nid oes unrhyw wrthddweud rhwng cynnydd mewn gwerth yn cael ei gynhyrchu gan sbectrwm a gostyngiadau mewn prisiau. Daw’r rhan fwyaf o’r gwerth economaidd o warged defnyddwyr. Y gwahaniaeth rhwng yr hyn y mae defnyddwyr yn ei dalu a pha werth y cânt o’r gwasanaeth yw hwn. Felly os yw prisiau’n mynd i lawr yna mae gwarged defnyddwyr yn codi. Hefyd mae gwarged yn codi wrth i fwy o gymwysiadau a defnyddiau gael eu datblygu ac y mae’r rhain

[9] http://www.ofcom.org.uk/research/radiocomms/reports/economic_spectrum_use/

yn ddefnyddiol i ddefnyddwyr. Yn olaf, nid yw cynnydd mewn gwariant defnyddwyr (yn gyffredinol neu y pen) yn cyfateb yn uniongyrchol i brisiau. Fel y dangosir yn ein hadroddiad ar y Farchnad Cyfathrebu yn 2007, mae gwariant defnyddwyr ar delegyfathrebiadau yn cynyddu o ganlyniad i fwy o ddefnydd o wasanaethau, tra bod prisiau'n parhau i ostwng.

A1.31 Yn amlwg, mae cydbwysedd i'w daro ynghylch cyflymder cyflwyno newid. Os yw'r newid hwn yn rhy araf, yna caiff y buddion a fydd yn deillio ohono eu hoedi neu mewn rhai achosion, eu colli. Os yw'r newid yn rhy gyflym, yna mae risg camfarnu yn y broses. Trwy weithio gyda rhanddeiliaid rydym yn gofyn yn gyson am fewnbwn ar y broses hon ac yn cymryd yr amser i adolygu meysydd pryder. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o'n diwygiadau'n cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd gennym yn wreiddiol, a hynny'n union am ein bod yn ystyried yr holl feysydd pryder yn ofalus, a dim ond pan fydd dadansoddiad ddigon manwl wedi'i wneud y byddwn yn mynd ymlaen.

A1.32 Mae gan Ofcom ddyletswyddau i gynrychioli'r DU ar gyrff rhyngwladol fel yr ITU, ac ymrwyma adnoddau sylweddol i hyn. I'r un graddau, mae Ofcom yn gorff cyhoeddus ac mae'n ymdrechu'n gyson i gyflawni gwerth rhagorol am arian i'r rheiny sy'n gorfod talu amdano. Mae hyn yn amlwg yn gofyn am gydbwysedd o ran, er enghraifft, nifer y cynrychiolwyr sy'n cael eu hanfon i gyfarfodydd rhyngwladol. Credwn ein bod yn anfon nifer digonol o gynrychiolwyr i'r cyfarfodydd hyn – er enghraifft, yng nghynhadledd ddiweddar WRC yr ITU, cyflawnom bron pob un o'n hamcanion. Cyn belled ag y gwyddwn, nid oes unrhyw dystiolaeth o ganlyniadau niweidiol o ganlyniad i gynrychiolaeth annigonol.

A1.33 Un o amcanion allweddol ein rhaglen rheoli a rhyddhau sbectrwm yw hyrwyddo cystadleuaeth a gwasanaethau newydd a gwell. Credwn y bydd y cyfuniad rhyddhau sbectrwm allweddol, rhyddfrydoli sbectrwm a chyflwyno mecanweithiau marchnad yn darparu'r amgylchedd gorau posibl i wasanaethau newydd ddod i'r amlwg, fel band eang symudol, ar ba ffurf bynnag y penderfyna'r farchnad sy'n fwyaf priodol.

## Hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd cydgyfeiriol

### Rhwydweithiau mynediad cenhedlaeth nesaf

A1.34 Fe wnaeth nifer o ymatebwyr groesawu ymgysylltiad Ofcom â rhwydweithiau cenhedlaeth nesaf, ond galwyd ar Ofcom i roi mwy o eglurder ynglŷn â'i ymagwedd reoleiddio at rwydweithiau mynediad cenhedlaeth nesaf a rhwydweithiau craidd cenhedlaeth nesaf. Hefyd, tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at rai materion mwy penodol:

- Dylai Ofcom fabwysiadu ymagwedd fwy ymyrgar at fynediad cenhedlaeth nesaf;
- Byddai'n fuddiol i Ofcom roi llai o bwyslais ar leihau prisiau, a rhoi mwy o ryddid i ddarparwyr cyfathrebiadau i bennu prisiau;
- Dylai fod gofyniad ar Openreach i ddarparu cynnyrch dadfwndelu is-ddolenni addas i'r diben;
- Dylid ystyried rôl band eang symudol mewn rhwydweithiau mynediad band eang cyfredol a chenhedlaeth nesaf; a

- Dylai fframwaith rheoleiddio Ofcom gwmpasu cystadleuaeth yn llawn ar y lefel manwerthu a'r lefel isadeiledd, ac ni ddylai defnyddwyr olaf ar rwydweithiau NGA gael eu cloi mewn gwasanaethau manwerthu penodol.

A1.35 Ymgynghorom ar ymagweddau rheoleiddio posibl at fynediad cenhedlaeth nesaf yn ein hymgynghoriad Band Eang y Dyfodol ar ddiwedd 2007. Cawsom adborth amrywiol iawn, gan amlygu'r diddordeb cynyddol mewn materion a godir gan fynediad cenhedlaeth nesaf, a dealltwriaeth ohonynt. Rydym yn cynllunio i gyhoeddi datganiad pellach yn amlinellu ein hymagwedd at fynediad cenhedlaeth nesaf yn Ch2. Yn y datganiad hwn, byddwn yn ystyried yr ymatebion i'r Cynllun Blynyddol Drafft, a gwaith cyfredol Ofcom yn y maes hwn, gan gynnwys:

- parhau i hyrwyddo cystadleuaeth mewn gwasanaethau mynediad cenhedlaeth nesaf - fel yr amlinellom yn ein hymgynghoriad, ystyriwn fod cystadleuaeth fanwerthu a chyfanwerthu yn hanfodol i gyflawni buddion defnyddwyr;

- y cydbwysedd mwyaf priodol rhwng buddsoddiadau'n cael eu harwain gan y farchnad ac ymyrraeth polisi rheoleiddio a pholisi cyhoeddus ehangach mewn meysydd lle na fydd y farchnad yn cyflawni o bosib;

- y rôl bwysig sydd gan wasanaethau diwifr i'w chwarae i gyflawni mynediad i fand eang i gwsmeriaid penodol a chymwysiadau mewn amgylchedd ehangach o rwydweithiau a thechnolegau mynediad lluosog; a'r

- cynhyrchion a'r prisiau mynediad cyfanwerthu mwyaf addas i hyrwyddo cystadleuaeth tra'n cadw cymhellion ar gyfer buddsoddi'n effeithlon mewn rhwydweithiau newydd.

A1.36 Bydd y gwaith hwn yn cynnwys ymgysylltiad ag adolygiad annibynnol BERR, a chyfraniadau ato.

**Rhwydweithiau craidd cenhedlaeth nesaf (RhCNau)**

A1.37 Cododd un ymatebydd bryderon ynghylch cylchedau preifat penderfynedig yn tynnu'n ôl mewn symudiad oddi wrth rwydweithiau cyfredol i rwydweithiau cenhedlaeth nesaf, ac awgrymodd y dylid sicrhau eglurder gan BT ynglŷn â'i fwriadau hirdymor mewn perthynas â rhwydweithiau cenhedlaeth nesaf, gyda ffeithiau a ffigurau i'w hategu, fel maes gwaith allweddol ar gyfer 2008/09.

A1.38 Fel yr amlinellom yn y Cynllun Blynyddol Drafft, mae paratoi ar gyfer rhwydweithiau craidd a mynediad cenhedlaeth nesaf yn un o flaenoriaethau allweddol Ofcom ar gyfer 2008/09. Mae'r flwyddyn hon yn debygol o weld datblygiad sylweddol yn y maes hwn, yn enwedig mewn rhwydweithiau craidd cenhedlaeth nesaf. Byddwn yn ceisio gofalu bod defnyddwyr a busnesau'n cael gwybodaeth addas am yr effaith botensial ar wasanaethau a nodweddion yn dilyn y symudiad i rwydweithiau craidd cenhedlaeth nesaf. Byddwn yn ymgysylltu â gweithredwyr a'u cwsmeriaid i archwilio goblygiadau'r newidiadau hyn. Hefyd, byddwn yn ystyried goblygiadau'r rhwydweithiau hyn i ddynameg gystadleuol sector cyfathrebiadau'r DU.

A1.39 Roedd ymatebydd arall eisiau gweld Ofcom yn symud ymlaen gyda'r ddadl ynghylch y modd y dylai cynnyrch Rhwydwaith 21$^{ain}$ Ganrif BT (21CN) fod yn defnyddio Cyfleuster Llwybr Metalig (MPF) i sicrhau sefyllfa gyfartal ar gyfer rhwydweithiau cenhedlaeth nesaf sy'n cystadlu. Credai'r un ymatebydd hefyd bod

angen ar fyrder i roi sylw i'r modd y dylid rheoleiddio taliadau terfynu galwadau mewn byd RhCN.

A1.40 Mae buddsoddiad cynlluniedig BT yn ei rwydwaith craidd cenhedlaeth nesaf 21ain Ganrif yn un o'r datblygiadau allweddol mewn RhCNau craidd ar gyfer y DU ar gyfer y flwyddyn i ddod. Fel rhan o'n rhaglen waith ar delegyfathrebiadau a rhwydweithiau cenhedlaeth nesaf, byddwn yn monitro ac yn ymgysylltu'n agos â BT ar ei gynlluniau lleoli 21ain Ganrif. Bydd y gweithgaredd yn sicrhau bod y prosiect hwn yn parhau i gyflawni ar rwymedigaethau BT ar gyfer rhwymedigaethau cywerthedd mewnbynnau yn ogystal â'r gofyniad i beidio â blaen-gau mynediad i rwydweithiau o dan yr Ymrwymiadau. Bydd ein gwaith hefyd yn ystyried yr heriau eraill yn y farchnad a heriau rheoleiddio yn cael eu creu gan rwydweithiau craidd cenhedlaeth nesaf, gan gynnwys taliadau rhyng-gysylltu a therfynu protocol rhyngrwyd.

**Symudol**

A1.41 Croesawodd ymatebwyr yr asesiad o'r sector symudol, ond tynnwyd sylw ganddynt at rai materion penodol i'w hystyried:

- Tynnodd un sylw at bwysigrwydd bod yr adolygiad heb fod yn rhoi baich weinyddol ormodol ar y gweithredwyr symudol;
- Anogai ymatebydd arall Ofcom i sicrhau bod adnoddau digonol ar gyfer yr asesiad o'r sector symudol ac y gall ddarparu sylfaen reoleiddio gadarn. Gobeithiai'r ymatebydd hwn hefyd y bydd y gwaith hwn yn darparu llwyfan cryf ar gyfer datblygu ymagwedd gyson at hyrwyddo cystadleuaeth briodol a chynaliadwy yn y sector band eang symudol; a
- Holodd un ymatebydd ynghylch a fyddai'r rhwystrau rheoleiddio i rai newydd yn dod i mewn i'r farchnad yn cael eu hystyried yn yr adolygiad.

A1.42 Mae'r asesiad o'r sector symudol yn ffurfio rhan o'r prif feysydd polisi blaenoriaeth ar gyfer 2008/09: datblygu ymagwedd Ofcom at y sector symudol. Fel maes blaenoriaeth pennaf, byddwn yn gweithio i sicrhau bod adnoddau digonol yn y maes hwn i gyflawni ein cynlluniau datganedig. Un o brif amcanion yr adolygiad yw ystyried yr ymagweddau posibl at reoleiddio'r sector cyfathrebiadau symudol yn y dyfodol, gan gynnwys y cwmpas i hyrwyddo cystadleuaeth a lleihau rheoleiddio. Bwriadwn ystyried ystod eang o faterion yn yr asesiad, gan gynnwys goblygiadau parhau â chydgyfeiriant a goblygiadau twf parhaus gwasanaethau symudol ar gyfer cystadleuaeth yn fwy cyffredinol. Bydd band eang symudol yn cael ei ystyried fel rhan o hyn.

A1.43 Pwynt ychwanegol ynglŷn â symudol, a godwyd gan un ymatebydd, oedd y dylai Ofcom gychwyn adolygiad o'i bolisi rhifo.

A1.44 Fel rhan o'n rhaglen waith ehangach yn y maes cystadleuaeth, rydym yn cynllunio i adolygu'r cynllun rhifo symudol a'r trefniadau polisi rhifo domestig yn ystod 2008/09.

A1.45 Tynnodd un ymatebydd sylw at bwysigrwydd ystyried gwahaniaethau mewn argaeledd symudol, ac awgrymodd y dylai Ofcom archwilio'r hyn y gellir ei wneud i leihau'r rhain.

A1.46 Mae ein gwaith ar fynediad a chynhwysiad yn ystyried materion argaeledd symudol ar draws y DU. Fodd bynnag, nodwn nad yw gwasanaethau symudol, yn wahanol i deleffoni sefydlog sylfaenol, o fewn cwmpas y Gyfarwyddeb Gwasanaeth Cyffredinol ar hyn o bryd.

**Ymrwymiadau**

A1.47 Gofynnodd un ymatebydd i Ofcom ddarparu gwybodaeth amserol am haenau amrywiol gweithredu Ymrwymiadau BT ar ffurf sy'n hygyrch ac yn ddealladwy i ddinasyddion a defnyddwyr i gyd.

A1.48 Cyhoeddom ein gwerthusiad blynyddol diweddaraf ar effaith yr Adolygiad Strategol o Delegyfathrebiadau ym mis Rhagfyr 2007. Yn y gwerthusiad hwnnw, esboniwyd yn glir y cynhyrchion Openreach sy'n ffurfio rhan o Ymrwymiadau BT ac amlygodd yr effaith a gafodd argaeledd y cynhyrchion hyn ar brofiad defnyddwyr yn y farchnad telegyfathrebiadau sefydlog. Hefyd, mae'r Bwrdd Cydraddoldeb Mynediad, a sefydlwyd fel rhan o'r Ymrwymiadau, yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd BT wrth gyflawni'i Ymrwymiadau.

A1.49 Mynegodd ddau ymatebydd y gred fod angen addasu neu archwilio'r Ymrwymiadau'n sylweddol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r datblygiadau diweddaraf o ran y farchnad a thechnoleg.

A1.50 Byddwn yn parhau i adolygu effeithiolrwydd cyffredinol yr Ymrwymiadau wrth gyflwyno gwasanaethau i ddarparwyr cyfathrebiadau eraill ac wrth gefnogi datblygiad rhwydweithiau a chynhyrchion cenhedlaeth nesaf.

A1.51 Tynnodd un ymatebydd sylw at fod angen parhaus i Ofcom ofyn am broses ddatblygu cynnyrch cyflymach a fwy cymwys o fewn Openreach, fel bod cynhyrchion allweddol (e.e. cynnyrch LLU gradd busnes) yn cael eu lansio gan Openreach cyn gynted ag y bo modd.

A1.52 Nododd proses datblygu cynnyrch Openreach fel maes pryder gan Ofcom yn y gwerthusiad diweddaraf o'r Adolygiad Strategol o Delegyfathrebiadau. Bydd Ofcom yn parhau i fonitro'r gwelliannau proses y mae Openreach yn bwriadu'u gwneud yn y maes hwn er mwyn sefydlu proses sy'n cyflwyno cynnyrch mewn modd amserol ac sy'n galluogi Openreach i ddatblygu set gynhwysfawr o gynnyrch i ddiwallu anghenion ei gwsmeriaid ymhellach na'r set cynnyrch gwreiddiol a sefydlwyd o fewn yr Ymrwymiadau.

A1.53 Roedd ymatebydd arall yn dadlau y dylai Ofcom sicrhau canlyniad gwaith llwyddiannus i ddatblygu Cytundebau a Gwarantau Lefel Gwasanaeth (CLGau/GLGau) drwy fonitro'n ofalus bod Openreach yn gweithredu'r gofynion newydd mewn modd priodol a bod y gofynion newydd yn cael yr effaith ddymunol ar berfformiad Openreach.

A1.54 Yn ystod 2008/09, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar CLGau a GLGau gan sicrhau bod cymhellion Openreach wedi'u hunioni'n well i gyflwyno gwasanaethau o safon uchel. Mae Ofcom yn bwriadu adolygu effaith y newidiadau i gytundebau lefel gwasanaeth Openreach a threfniadau iawndal wedi i'r newidiadau fod yn eu lle am chwe mis.

A1.55 Awgrymodd un ymatebydd bod angen i Ofcom ymrwymo i gynnal yr adolygiad o fframwaith ariannol Openreach cyn gynted ag y bo modd.

A1.56 Cynlluniwyd adolygiad Ofcom o fframwaith ariannol Openreach i ystyried y rheolaethau rheoleiddio sy'n effeithio ar Openreach, i ystyried ffurfiant Openreach, newidiadau diweddar eraill yn y farchnad ac unrhyw oblygiadau sy'n codi o wasanaethau cenhedlaeth nesaf. Cydnabyddwn bwysigrwydd yr adolygiad hwn i'r diwydiant telegyfathrebiadau, a rhoddwyd blaenoriaeth uchel iddo. Disgwyliwn yr ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf ar hyn yn y gwanwyn 2008. Bydd y prosiect yn rhan o'r materion dan ystyriaeth yn ein hymgynghoriad ar fynediad cenhedlaeth nesaf.

**Adolygiad o'r farchnad ymgysylltiad busnes**

A1.57 Pwysleisiodd un ymatebydd yr angen i gwblhau'r adolygiad o'r farchnad ymgysylltiad busnes cyn gynted ag y bo modd er mwyn rhoi sicrwydd i'r holl chwaraewyr yn y farchnad. Yn benodol, roedd angen i Ofcom sicrhau bod yr ymgynghoriad ar reoli prisiau yn cael ei gwblhau yn gyflym. Roedd ymatebydd arall yn pryderu bod y graddfeydd amser ar gyfer cwblhau'r adolygiad o'r farchnad ymgysylltiad busnes yn dynn ac na ddylai hyn beryglu ansawdd y gwaith sydd wedi'i wneud.

A1.58 Ar hyn o bryd rydym yn cynllunio i gyhoeddi datganiad yn nodi casgliadau'r adolygiad o'r farchnad ymgysylltiad busnes yn ystod Ch1 2008. Hefyd, rydym yn cynllunio i gyhoeddi ymgynghoriad ar yr asesiad o ddarpariaethau rheolaethau taliadau ar gyfer llinellau prydles cyfanwerthu BT yn ystod Ch1 2008, gyda golwg ar gwblhau'r rheolaethau taliadau newydd cyn diwedd mis Medi 2008.

**Gwasanaethau Trosi Rhif (NTS)**

A1.59 Gofynnodd un ymatebydd am eglurder ynglŷn ag amseru'r adolygiad o'r galwadau 0845 a'r adolygiad o reolaethau taliadau codiad manwerthu NTS. Awgrymodd ymatebydd arall y dylai Ofcom feddwl eto ynglŷn â'i bolisi 0870 yng ngolau newidiadau yn y tirlun NTS.

A1.60 Ar hyn o bryd mae'r adolygiad cynlluniedig o alwadau 0845 ar y rhestr aros o brosiectau ar gyfer 2008/09 a gobeithiwn ddechrau gwaith ar yr adolygiad hwn yn ystod blwyddyn y cynllun. Mae Ofcom yn disgwyl adolygu'r rheolaeth taliadau codiad manwerthu NTS cyn i'r rheolaeth bresennol ddod i ben, ac yn disgwyl dechrau gwaith ar hyn tuag at ddiwedd y flwyddyn 2008/09.

A1.61 Bydd y goblygiadau i'r diwygiadau cynlluniedig 0870 yn sgil datblygiadau diweddar mewn perthynas â chyhoeddiadau cyn-galwadau yn cael eu hystyried mewn dogfen ymgynghori a fydd yn cael ei chyhoeddi cyn bo hir.

**Cyfrifeg rheoleiddio**

A1.62 Anogwyd Ofcom gan ddau ymatebydd i adolygu'r ffordd y mae'n defnyddio gwybodaeth cyfrifeg rheoleiddio BT.

A1.63 Mae Ofcom yn cydnabod pwysigrwydd cyfundrefn adrodd "addas i'r diben" ac mae ganddo raglen barhaus o adroddiadau ariannol ar reoleiddio, gyda'r nod o wella ansawdd, perthnasedd ac amseroldeb gwybodaeth ariannol. Hefyd, mae Ofcom yn ymgysylltu'n anffurfiol â rhanddeiliaid (gan gynnwys BT) mewn gweithdai tryloywder a thrafodaethau dwyochrog i wella dealltwriaeth defnyddwyr o'r cyfrifon rheoleiddio. Rydym yn bwriadu cyhoeddi dogfen ymgynghori yn ymwneud â'r pwnc hwn yn gynnar eleni.

### Darlledu

A1.64 Awgrymodd un rhanddeiliad bod prif ffocws Ofcom wrth asesu materion cystadleuaeth mewn darlledu ar y farchnad teledu talu, ac nad ydym yn ystyried cystadleuaeth yn ddigonol mewn gwasanaethau teledu derbyniad di-dâl (FTA).

A1.65 Mae nifer o faterion pwysig mewn perthynas â materion cystadleuaeth FTA y bydd Ofcom yn eu hystyried yn 2008/09. Mae'r prif faes yn ymwneud â phryderon cystadleuol mewn gwasanaethau FTA yn y farchnad hysbysebu. Bydd Ofcom yn gweithio'n agos â'r Swyddfa Masnachu Teg ar ei adolygiad o'r rhwymedi Adnewyddu Hawliau Contractau (CRR) cyfredol.

A1.66 Maes gwaith pwysig arall yw'r asesiadau effaith marchnad (MIA) o wasanaethau teledu a radio sy'n cael eu datblygu gan y BBC. Pwrpas MIA Ofcom yw asesu effaith debygol y gwasanaethau arfaethedig ar gynhyrchion a gwasanaethau eraill sy'n amnewid neu'n ategu'r gwasanaeth BBC arfaethedig. Rydym eisoes wedi cynnal asesiadau o'r iPlayer a'r Gwasanaeth Cyfryngau Gaelaidd, ac wedi gwneud argymhellion i Ymddiriedolaeth y BBC i sicrhau nad yw'r gwasanaethau hyn yn cael effaith negyddol ar ragolygon cystadleuol yn y farchnad deledu. Byddwn yn parhau i gynnal yr asesiadau hyn yn y dyfodol fel y bydd yn briodol.

A1.67 Yn olaf, tra bod ein hymchwiliad cyfredol i'r farchnad teledu talu yn canolbwyntio ar faterion talu, rydym hefyd yn ystyried rôl Freeview mewn DTT yng nghyd-destun y gwaith hwn.

## Cyflawni amcanion gwerth cyhoeddus wrth i lwyfannau a gwasanaeth gydgyfeirio

### Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus

A1.68 Pwysleisiodd nifer o ymatebion bwysigrwydd allweddol ystyried modelau'r dyfodol ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB), a gofynnwyd cwestiynau ganddynt mewn perthynas â'r Adolygiad PSB. Roedd un ymatebydd yn dadlau fod Ofcom yn mynd y tu hwnt i'w gylch gwaith wrth ystyried rôl cyfryngau newydd mewn cyflwyno PSB. Awgrymodd rhanddeiliad arall y dylai Ofcom asesu effaith opsiynau polisi PSB ar radio, ac y dylai asesu opsiynau ariannu ar gyfer y sector radio. Hefyd, roedd adborth rhanddeiliaid yn nigwyddiadau ein cynllun blynyddol yn ategu pwysigrwydd ystyried anghenion penodol Gwledydd a Rhanbarthau'r DU fel rhan o'r Adolygiad PSB.

A1.69 Mae ein hail adolygiad o ddarlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei gynnal yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 (Y Ddeddf). Mae'r Ddeddf yn pennu gofyniad arnom i adrodd ar y graddau y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni dibenion PSB, ac i wneud argymhellion gyda golwg ar gynnal a chryfhau ansawdd PSB yn y dyfodol.

A1.70 Fel y cyfryw, mae'r adolygiad yn ystyried y graddau y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, fel y diffinnir o dan y Ddeddf, yn cyflawni dibenion a nodweddion PSB. Fodd bynnag, wrth wneud argymhellion ar gyfer cynnal a chryfhau ansawdd PSB yn y dyfodol, mae angen i'r adolygiad ystyried y cyd-destun ehangach ar gyfer cyflwyno darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus, a'r modd y mae newidiadau yn y ffordd y mae cynnwys teledu'n cael ei ddosbarthu a'i ddefnyddio yn debygol o effeithio ar y modelau cyfredol wrth fynd ymlaen. Mae hyn yn angenrheidiol i asesu'r achos dros barhau i ymyrryd yng nghyflwyniad cynnwys teledu i sicrhau'r dibenion gwasanaeth cyhoeddus ac i ystyried p'un a all

twf ffyrdd newydd o gyflwyno cynnwys greu cyfleoedd newydd ar gyfer cyflawni'r nodau PSB, ac ym mha ffordd.

A1.71 Am y rhesymau hyn, credwn ei bod yn bwysig bod yr Adolygiad yn ystyried set ehangach o wasanaethau cyfathrebiadau electronig a allai, ac sydd eisoes yn gwneud mewn rhai achosion, wneud cyfraniad at ddibenion PSB (er nad oes gofyniad ffurfiol arnynt i wneud hynny) a gall hynny ddod yn fwyfwy amnewidiol ar gyfer teledu traddodiadol, gan gynnwys cynnwys sy'n cael ei greu gan ddefnyddwyr, gwasanaethau rhannu ffeiliau fideo, gemau fideo, gwasanaethau rhyngweithiol, rhwydweithio cymdeithasol ac amrywiaeth o wefannau eraill. Mae rôl radio yn cael ei hystyried yn y cyd-destun hwn hefyd.

A1.72 Fodd bynnag, mae gwneud argymhellion ynglŷn â dyfodol radio, gan gynnwys p'un a ddylid cynnig opsiynau ariannu tebyg ar gyfer y sector radio, y tu allan i gwmpas yr adolygiad PSB.

A1.73 Bydd yr Adolygiad PSB yn ystyried yn fanwl cyflwyniad cynnwys gwasanaeth cyhoeddus i wledydd, rhanbarthau ac ardaloedd y DU. Ymhlith pethau eraill, bydd hyn yn golygu ystyried diben, budd a chynaladwyedd lluosogrwydd o fewn y gwasanaethau hynny.

**Teledu lleol**

A1.74 Cododd un rhanddeiliad amrywiaeth o gwestiynau mewn perthynas â theledu lleol, gan awgrymu y dylai Ofcom roi mwy o bwyslais ar ystyried buddiannau dinasyddion a defnyddwyr mewn teledu lleol. Roedd yn dadlau bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus presennol yn chwarae rôl anghymesur mewn gwasanaethau teledu, ac y dylai Ofcom ystyried y mater hwn yn yr adolygiad PSB. Cododd bryderon ynghylch gallu gweithredwyr lleol i gael mynediad i'r sbectrwm DDR, gan awgrymu y dylid adolygu dyraniadau DTT presennol, ac y dylid agor cyfran o allu PSB i fyny i rai newydd yn dod i mewn i'r farchnad, gan gynnwys chwaraewyr teledu lleol. Awgrymodd yr ymateb hefyd y dylai Ofcom oedi ad-drefnu amlblecsau DTT tan ar ôl yr adolygiad PSB, gan ddadlau y byddai hyn yn caniatáu amser am fwy o sicrwydd i dechnolegau'r dyfodol ddod i'r amlwg.

A1.75 Mae Ofcom yn cydnabod gwerth cymdeithasol potensial teledu lleol a bydd ei ragolygon yn cael eu hystyried mewn termau cyffredinol yng nghyd-destun yr Adolygiad PSB. Bydd hyn yn rhan o archwiliad cyffredinol Ofcom o gyflwyniad cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer gwledydd, rhanbarthau ac ardaloedd y DU. Fodd bynnag, nid DTT yw'r unig ffordd o gyflwyno cynnwys lleol. Mae Ofcom yn cydnabod y gall llwyfannau eraill, gan gynnwys band eang, fod yn addas i gyflwyno cynnwys lleol.

A1.76 Roedd ein gwaith ar y sbectrwm DDR yn ystyried dadleuon dros gadw gallu DDR ar gyfer teledu lleol. Rydym wedi dod i'r casgliad nad oedd cyfiawnhad dros y math hwn o ymyrraeth uniongyrchol, oherwydd cost cyfle uchel, ac am na fyddai'n sicrhau bod teledu lleol yn hyfyw yn economaidd. Byddai hefyd yn lleihau cymhellion dros ddefnyddio sbectrwm yn effeithlon. Fodd bynnag, i gynorthwyo gyda datblygu gwasanaethau lleol, penderfynom y dylid cynllunio ocsiynau mewn modd i alluogi darparwyr teledu lleol i sicrhau blociau llai o sbectrwm i ddarparu gwasanaethau yn lleol. Nawr bod Ofcom wedi pennu'i sefyllfa ar ddyrannu sbectrwm ar gyfer teledu lleol fel rhan o'r gwaith DDR, nid ydym yn disgwyl ystyried y mater hwn eto yn 2008/09.

A1.77 Ni fyddai cyfiawnhad dros i Ofcom aseinio cyfran o allu PSB cyfredol ar DTT i rai newydd yn dod i mewn i'r farchnad. Gwnaed dyraniadau presennol o ganlyniad i broses gystadleuol; nid yw o fewn gallu Ofcom i ailddyrannu'r gallu hwn, er y gall fod o fewn rhodd y Llywodraeth. Nodwn fod marchnad ar gyfer gallu ar DTT y gallai gweithredwyr teledu lleol, pe byddent yn dymuno, sicrhau gallu darlledu drwyddo. Nodwn gwestiynau a godwyd ar amseru ad-drefniant DTT a byddwn yn ymdrin â'r materion hyn yn y datganiad terfynol ar y prosiect Dyfodol DTT y bwriedir ei gyhoeddi erbyn Ch1.

**Radio**

A1.78 Cododd nifer o randdeiliaid gwestiynau mewn perthynas â gwaith Ofcom ar ddyfodol y sector radio, ac yn benodol ynglŷn ag opsiynau ar gyfer radio lleol a lluosogrwydd darpariaeth mewn gwasanaethau lleol. Cododd un ymateb nifer o faterion yn ymwneud â diwygio rheoliadau hysbysebu darlledu a rhai agweddau masnachol ar y Côd Darlledu.

A1.79 Cyhoeddodd Ofcom ei ddatganiad terfynol ar Ddyfodol Radio ym mis Chwefror, a oedd yn cynnwys canllawiau newydd ar leoldeb, gan symleiddio rheoliadau ar gyfer y sector radio masnachol tra'n diogelu cynnwys lleol i wrandawyr. Ysgrifennom at bob trwyddedai radio masnachol analog mewn perthynas â'r newidiadau a symleiddio Fformatau (fel yr amlinellir yn natganiad Ofcom ym mis Tachwedd 2007). Mae trwyddedigion yn gallu cyflwyno cais i Ofcom os dymunant newid eu horiau rhaglenni lleol, neu os dymunant gyd-leoli neu rannu rhaglenni. Rydym eisoes wedi derbyn llawer o geisiadau felly i newid, ac yn y flwyddyn sy'n dod byddwn yn parhau i weithredu'r gyfundrefn newydd.

A1.80 Roedd y datganiad ym mis Tachwedd 2007 "Dyfodol Radio: y cam nesaf", yn nodi ein hargymhellion i'r Llywodraeth ar gyfer symleiddio rheolau perchenogaeth radio cyfredol. Credwn y bydd lluosogrwydd darpariaeth yn parhau i fod yn bwysig i radio lleol, ac rydym wedi datgan y byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth i helpu i ddatblygu set newydd o reolau perchenogaeth ar gyfer radio.

A1.81 Rydym wedi nodi'r pwyntiau a wnaed gan y rhanddeiliad mewn perthynas â rheoleiddio hysbysebu, a byddwn yn ystyried y rhain pan fydd mentrau polisi priodol yn codi yn ystod y flwyddyn.

**Mynediad a chynhwysiad – cyffredinol**

A1.82 Croesawyd dynodi gwaith mynediad a chynhwysiad fel prif flaenoriaeth ar gyfer 2008/09 gan lawer o randdeiliaid. Roedd gan un rhanddeiliad ddiddordeb yn ein hymagwedd at ddwyn y gwaith hwn yn ei flaen, a ph'un a fydd adnoddau sylweddol yn cael eu neilltuo i wneud gwelliannau. Galwodd nifer o ymatebwyr hefyd ar i Ofcom adolygu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO), gan gynnwys ei gyllido, ac i ystyried cynnwys band eang yn y rhwymedigaeth hon. Awgrymodd un rhanddeiliad yn benodol fod angen i'r llywodraeth ystyried cynnig cyllid ar gyfer band eang, er enghraifft, drwy gynllun tendro cystadleuol i ddarparu mynediad cyflymder uwch lle nad yw fel arall yn economaidd. Credai rhanddeiliad arall y dylem ganolbwyntio ar hyrwyddo ffilmiau'r DU fel cymhelliant i brynu cyfryngau newydd. Awgrymodd un rhanddeiliad y gall nodau Ofcom mewn meysydd gwahanol fod yn gwrth-ddweud ei gilydd – er enghraifft, y gall mwy o gystadleuaeth ac ymagwedd seiliedig ar y farchnad tuag at sbectrwm olygu canlyniadau niweidiol i nodau mynediad a chynhwysiad.

A1.83 Mae dynodi gwaith mynediad a chynhwysiad fel prif flaenoriaeth yn golygu bod y maes gwaith hwn yn arbennig o hanfodol yn 2008/09. Nodir ein cynlluniau yn y maes hwn yn Adran 3 y ddogfen hon, ac yn fanylach yn y ddogfen *The Consumer Experience – Policy Evaluation* a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2007. Bydd Ofcom yn sicrhau bod gennym ddigon o adnoddau wedi'u dyrannu i'r maes hwn.

A1.84 Cwblhaodd Ofcom adolygiad o weithrediad y Rhwymedigaeth Gwasanaethau Cyffredinol (RhGC) yn 2006. Disgwyliwn i'r Comisiwn Ewropeaidd i ymgynghori ar gwmpas RhGC yn y dyfodol yn ystod 2008, a bydd Ofcom yn cyfrannu at ymateb y DU. Nodwn fuddion potensial cynlluniau cyhoeddus ar gyfer darparu band eang lle na fyddai'r farchnad yn cyflawni fel arall. Fodd bynnag, mae hwn yn rhywbeth i'w ystyried gan y Llywodraeth ac awdurdodau lleol perthnasol. Er y nodwn y gall ffilmiau'r DU a chynnwys arall chwarae rhan i annog pobl i brynu cyfryngau newydd, mae ein gwaith ar fynediad a chynhwysiad yn canolbwyntio'n bennaf ar fynd i'r afael â rhwystrau i bobl rhag prynu, fel cost uchel neu ddiffyg argaeledd. Yn olaf, cydnabyddwn yn llawn bod nodau polisi gwahanol mewn llawer o achosion yn gofyn am ymagweddau gwahanol. Er enghraifft, er bod hyrwyddo cystadleuaeth yn cefnogi amcanion budd defnyddwyr (fel prisiau isel, ansawdd uchel a dewis), nid yw cystadleuaeth ar ei phen ei hun yn ddigonol bob tro i sicrhau diogelu a grymuso defnyddwyr, ac i gyflawni ar nodau mynediad a chynhwysiad. Bydd ein gwaith yn ceisio nodi meysydd lle nad yw nodau mynediad a chynhwysiad yn cael eu bodloni gan y farchnad, ac i ystyried ymagweddau posibl at ddileu neu leihau'r rhwystrau hyn.

A1.85 Codwyd pryderon gan un ymatebydd ynglŷn â'r potensial ar gyfer gwahaniaethu cynyddol yn y lefelau mynediad a chynhwysiad o ganlyniad i gydgyfeiriant. Awgrymodd y dylai Ofcom olrhain gwahaniaethau mewn mynediad i dechnolegau, ac asesu goblygiadau'r gwahaniaethau hyn i allu pobl i gyfranogi ym mywyd ehangach cymdeithas, er enghraifft, mewn gwaith, addysg a gweithgareddau dinesig.

A1.86 Mae gan Ofcom raglen ymchwil gynhwysfawr, sy'n asesu gwahaniaethau mewn mynediad i dechnolegau digidol, a'r defnydd ohonynt, ymhlith grwpiau gwahanol o ddinasyddion a defnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys arolwg chwarterol parhaus sy'n olrhain y defnydd o wasanaethau gan bobl ar hyd a lled y DU, yn ogystal ag ymchwil fanwl sy'n archwilio'r materion hyn fel rhan o'n rhaglen waith ar lythrennedd yn y cyfryngau. Fel rhan o'r gwaith hwn, arolygwn ddefnydd pobl o gyfryngau newydd ar gyfer gweithgareddau eraill - er enghraifft, mae ein harchwiliad o lythrennedd yn y cyfryngau yn archwilio'r defnydd o'r rhyngrwyd ar gyfer dysgu, cyfranogiad mewn ymgyrchoedd gwleidyddol ar-lein, cyfraniadau at wefannau materion a blogiau. Mae ein holrheiniwr parhaus hefyd yn edrych ar y defnydd o'r rhyngrwyd at ddibenion addysgol, gwybodaeth ac adloniant. Cyhoeddwn ein canlyniadau'n rheolaidd fel rhan o'n cyfres o adroddiadau ar y farchnad, yn ogystal ag adroddiadau sy'n canolbwyntio ar lythrennedd yn y cyfryngau.

**Mynediad a chynhwysiad i ddefnyddwyr anabl**

A1.87 Tynnodd un rhanddeiliad sylw at bwysigrwydd rhoi sylw i rwystrau mynediad a chynhwysiad ymhlith defnyddwyr anabl, yn benodol, mewn perthynas â chost a hygyrchedd. Gofynnodd ymateb arall i Ofcom i barhau i gefnogi anghenion defnyddwyr anabl ym mhroses llunio polisïau'r UE, yn benodol mewn perthynas â'r adolygiad o ddeddfwriaeth ar ddefnyddioldeb cyfarpar telegyfathrebiadau a'r

adolygiad o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyffredinol. Gofynnodd un ymateb i Ofcom gyfeirio at ei ddyletswyddau Cydraddoldeb Anabledd ei hun.

A1.88 Bydd ein gwaith yn 2008/09 yn ystyried rhwystrau mynediad a chynhwysiad ymhlith defnyddwyr anabl yn fanwl, drwy nifer o weithgareddau. Er enghraifft, byddwn yn gwneud ymchwil ar rwystrau rhag prynu a defnyddio technoleg ymhlith pobl ddall a phobl sy'n gweld yn rhannol. Gwnaethom ddarn tebyg o waith yn flaenorol mewn perthynas â phobl fyddar, a gyhoeddwyd fel rhan o adroddiad 2007 *The Consumer Experience*. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth a rhanddeiliaid i wella defnyddioldeb, a byddwn yn cynnal digwyddiad cyhoeddus i drafod materion defnyddioldeb (yn cynnwys rhanddeiliaid a'r Llywodraeth) ym mis Mehefin.

A1.89 Byddwn hefyd yn cyfrannu'n weithredol at waith ar lefel yr UE mewn meysydd sy'n dod o dan ein cylch gwaith, a byddwn yn darparu mewnbwn i'r adolygiad o ddeddfwriaeth defnyddioldeb a'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyffredinol. Byddwn yn ymgysylltu â'r Llywodraeth i wella hygyrchedd i ddefnyddwyr olaf gwasanaethau ffôn fel rhan o'r Adolygiad o Fframwaith yr UE (yr adolygiad o'r Fframwaith Cyfathrebiadau Electronig).

A1.90 O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, mae gan Ofcom gyfrifoldebau penodol i hyrwyddo cydraddoldeb anabledd. Golyga'r cyfrifoldebau hyn bod angen i Ofcom, wrth gyflawni'i ddyletswyddau:

- ystyried anghenion pobl ag anableddau, yr henoed a'r rheiny sydd ar incymau isel;
- hyrwyddo cyfle cyfartal mewn cyflogaeth a hyfforddiant i bobl anabl, a grwpiau cydraddoldeb eraill, mewn teledu a radio; a
- llunio côd sy'n rhoi arweiniad i hyrwyddo mwynhad teledu ymhlith pobl sy'n fyddar, pobl sydd â nam ar eu golwg neu'r ddau; sicrhau cynnwys cymorth i'r rhai â nam ar eu golwg gyda'r gwasanaeth teletestun; a llunio côd ymarfer ar gyfer canllawiau rhaglenni electronig.

A1.91 Gweithredwn i roi sylw i gydraddoldeb anabledd yn ein gweithgareddau i gyd. Ym mis Tachwedd 2006 cyhoeddom ein Cynllun Cydraddoldeb Anabledd, yn unol â gofyniad Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005, a nododd gynllun gweithredu tair blynedd ar gydraddoldeb i bobl anabl fel yr ymwna â rôl Ofcom fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau electronig y DU, ac fel cyflogwr. Parhawn i fonitro cynnydd yn y maes hwn yn rheolaidd.

**Hyfforddiant mewn telegyfathrebiadau**

A1.92 Cynigiodd un rhanddeiliad y dylai fod gofyniad rheoleiddio i gyflogwyr gefnogi hyfforddiant yn y sector telegyfathrebiadau fel y mae'n ofynnol iddo wneud yn y sector darlledu.

A1.93 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn pennu gofyniad ar Ofcom i hyrwyddo hyfforddiant a datblygiad ar draws y diwydiant darlledu, ac i sicrhau bod y trefniadau a wneir gan ddarlledwyr yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes gennym bwerau penodol felly mewn perthynas â'r sector telegyfathrebiadau. Mae hwn yn rhywbeth y gall y llywodraeth a'r senedd ddymuno ei ystyried mewn diwygiadau i ddeddfwriaeth cyfathrebiadau yn y dyfodol.

## Grymuso dinasyddion a defnyddwyr a gwella cydymffurfio â rheoleiddio lle bo angen

### Llythrennedd yn y cyfryngau

A1.94 Croesawyd cynnwys llythrennedd yn y cyfryngau fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer 2008/09 gan randdeiliaid. Gofynnodd nifer o ymatebwyr am fwy o fanylion ar weithgareddau sydd wedi'u cynllunio yn y maes hwn. Holodd ddau randdeiliad ynglŷn â'n hymagwedd at osod targedau a mesur llwyddiant ein gwaith i hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau.

A1.95 Mae ein cynlluniau i hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau yn 2008/09 yn cynnwys sawl haen o weithgaredd:

- Byddwn yn talu sylw penodol i'r meysydd critigol a nodwyd yn ein hymchwil ar lythrennedd y cyfryngau: cefnogi rhieni i ddefnyddio arfau rheoli cynnwys fel hidlwyr cynnwys y rhyngrwyd, muriau gwarchod a mynediad PIN i wasanaethau teledu; hyrwyddo dealltwriaeth gritigol ymhlith pobl iau; a helpu defnyddwyr hŷn i gael mynediad i dechnolegau cyfathrebiadau ac i ymgysylltu â hwy.

- Byddwn yn cyhoeddi'r ail Archwiliad o Lythrennedd yn y Cyfryngau yn y Gwanwyn, gydag adroddiadau'n canolbwyntio ar lythrennedd yn y cyfryngau ymhlith oedolion a phlant, a'r bobl hynny o Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig.

- Ym mis Mai byddwn yn cynnal fforwm ymchwil cenedlaethol ar lythrennedd yn y cyfryngau yn Llundain, i ddod â'r ymchwilwyr blaenllaw yn y maes ynghyd i annog rhannu arfer gorau wrth ddeall llythrennedd yn y cyfryngau.

- Byddwn yn cefnogi'r diwydiant wrth hyrwyddo'r egwyddorion arfer da a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer darparu gwybodaeth am gynnwys clyweled i ddefnyddwyr. Byddwn hefyd yn annog cwmnïau meddalwedd diogelwch ar-lein i gyflwyno'u cynnyrch i'w brofi yn erbyn safon y Sefydliad Safonau Prydeinig a'u hannog i wneud rhieni'n ymwybodol o'r budd y gall meddalwedd felly ei roi wrth reoli gweithgarwch eu plant ar-lein.

- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno cyfleoedd i oedolion i gael dealltwriaeth o'r buddion a'r risgiau o fynd ar-lein.

A1.96 Mae graddfa llythrennedd yn y cyfryngau yn amrywio ar draws llwyfannau ac ymhlith rhannau gwahanol o'r gymdeithas. Yn y system addysg ffurfiol mae awdurdodau perthnasol yn pennu safonau ac yn mesur perfformiad. Nid ydym o'r farn ei bod yn briodol i Ofcom gymryd y rôl honno. Ein rôl ni yw cynyddu ymwybyddiaeth am y materion, helpu i hwyluso mynediad i wybodaeth a hyrwyddo cyfleoedd i bobl sydd ag anghenion dysgu penodol. Er enghraifft, mae ein hymchwil yn helpu i nodi bylchau sgiliau allweddol ac yn cyfeirio rhanddeiliaid i gefnogi pobl i gaffael y sgiliau y mae eu hangen arnynt.

A1.97 Fel y nodwyd gennym yng nghynllun blynyddol y llynedd, mae mesur effaith rheoleiddio yn rhy anodd yn aml oherwydd natur gweithgarwch rheoleiddio'n gyffredinol, ac oherwydd cyflymder newid yn y sectorau a reoleiddiwn. Er hynny, ceisiwn fesur ein heffeithiolrwydd mewn nifer o ffyrdd, a byddwn yn parhau i weithio ar ddatblygu offer newydd i wneud hynny. Mewn llythrennedd yn y cyfryngau, mae mesur canlyniadau'n anodd. Er ein bod yn monitro newidiadau mewn ymddygiad trwy raglen gynhwysfawr o ymchwil, ni allwn briodoli unrhyw

newidiadau penodol i'n gweithgareddau ni'n unig yn hytrach nag i ddylanwadau eraill a gwaith rhanddeiliaid eraill. Mae ein hymchwil gyfredol yn rhoi syniad o raddfa gyffredinol llythrennedd yn y cyfryngau ac yn tynnu sylw at feysydd penodol lle gall fod angen gweithredu.

**Gwybodaeth defnyddwyr a newid darparwyr**

A1.98 Fe wnaeth llawer o ymatebwyr groesawu ffocws parhaus Ofcom ar ddiogelu defnyddwyr. Gwnaeth ddau ymatebydd sylwadau am bwysigrwydd mynd â'n gwaith ar fudiadau a newid darparwyr ymhellach. Cododd un pryder ynghylch yr amser a gymerir i ddatblygu proses mudiadau sengl. Tynnodd ymatebydd arall sylw at newid cyfeiriadau e-bost fel rhwystr posibl i newid darparwyr gwasanaeth rhyngrwyd. Roedd un ymatebydd yn siomedig na fydd Ofcom yn datblygu ei erfyn cymharu prisiau ei hun, ond tawelwyd ei feddwl gan y bwriad i greu cynllun achredu.

A1.99 Mae mudo a newid darparwyr yn faes gwaith allweddol i ni, ac rydym wedi bod yn ymgysylltu'n agos â'r diwydiant wrth ddatblygu polisi yn y maes hwn. Mae'n bwysig bod rheoliadau a phrosesau ar waith nad ydynt yn atal gallu defnyddwyr i newid darparwyr. Dyma pam yr ydym yn adolygu ymagweddau presennol at fudiadau, newid darparwyr a cham-werthu ar draws gwasanaethau cyfathrebiadau trosglwyddadwy. Cyhoeddom adroddiad Deloitte ar gostau a llinellau amser ar gyfer symud at broses mudiadau sengl ar gyfer gwasanaethau cyfathrebiadau trosglwyddadwy ar 17 Ionawr 2008. Rydym wedi gwahodd sylwadau gan randdeiliaid a bwriadwn ddilyn ymlaen gydag ymgynghoriad ffurfiol lle byddwn yn nodi'n camau nesaf.

A1.100 Nid yw newid cyfeiriadau e-bost yn faes pryder sydd wedi'i godi gyda ni'n flaenorol mewn unrhyw ffordd sylweddol yng nghyd-destun rhwystrau posibl i newid darparwyr. Yn wir, rydym yn ymwybodol bod nifer o gamau y gall defnyddwyr eu cymryd eu hunain, naill ai drwy sefydlu cyfeiriadau e-bost cludadwy neu gadw cyfeiriad e-bost eu hen ddarparwr band eang pan fyddant yn symud at gyflenwr band eang newydd. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro'r mater penodol hwn.

A1.101 Fel y nodir yn natganiad Polisi Defnyddwyr Ofcom a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2006, er bod buddion i ddatblygu ffynhonnell sengl o wybodaeth cymharu prisiau, er enghraifft symlrwydd ac eglurder i ddefnyddwyr, mae'r arloesedd sy'n cael ei ddangos gan ddarparwyr gwybodaeth gymharol o fantais i ddefnyddwyr. Cynllun sy'n agored i ddarparwyr lluosog sydd orau ar gyfer hyn. Roeddem yn ymwybodol hefyd fod nifer o ddarparwyr newydd gwybodaeth gymharol yn awyddus i wneud cais am achrediad gan Ofcom, ac nid oeddwn felly'n dymuno blaen-gau'r farchnad ar gyfer gwybodaeth â'i hansawdd wedi'i sicrhau drwy gyfyngu achrediad i ddarparwr unigol. Credwn mai cynllun achredu newydd, sy'n cynnig gwasanaethau cymharu prisiau o safon uchel i ddefnyddwyr ar gyfer gwasanaethau cyfathrebiadau unigol a rhai wedi'u bwndelu - a hyrwyddir yn eang gan Ofcom ac y cynghorir defnyddwyr i'w defnyddio (e.e. drwy wefan Ofcom) - yw'r modd mwyaf effeithiol o sicrhau argaeledd gwybodaeth cymharu prisiau annibynnol yn eang. Rydym yn awyddus hefyd i weld gwybodaeth cymharu prisiau ar gael i ddefnyddwyr nad ydynt ar-lein e.e. dros y ffôn neu drwy annog papurau newydd i atgynhyrchu gwybodaeth gymharol.

## Cefnogi datblygiad fframweithiau cyfreithiol ac economaidd

A1.102 Galwodd un ymatebydd ar Ofcom i ymgysylltu'n agos â Dogfen Gyfathrebu'r Comisiwn Ewropeaidd ar Gynnwys Ar-lein Creadigol a materion eiddo deallusol a lladrad hawlfraint fel y codir yn y Ddogfen Gyfathrebu.

A1.103 Fel rhan o ymgysylltiad Ofcom mewn datblygu deddfwriaeth newydd yr UE, byddwn yn rhoi sylw gweithredol i fenter cynnwys ar-lein yr UE, a byddwn fel rhan o hyn yn rhoi cynigion gerbron fel y bydd angen mewn meysydd sy'n rhan o'n cylch gorchwyl.

A1.104 Galwodd un ymatebydd ar Ofcom i sicrhau y cynhelir ymagwedd reoleiddio gyson rhwng mathau gwahanol o rwydweithiau.

A1.105 Mae Ofcom yn ymdrechu i sicrhau cysondeb rheoleiddio pa bryd bynnag y bo modd; mae ein hymagwedd at reoleiddio rhwydweithiau yn dilyn y gofynion a bennir yn Fframwaith yr UE ar gyfer Cyfathrebiadau Electronig. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddiffinio marchnadoedd perthnasol ar sail nifer o brofion, ac i gymhwyso offerynnau rheoleiddio lle'r ydym wedi nodi pŵer marchnad sylweddol yn y marchnadoedd hyn. Felly er bod ein hymagwedd at gymhwyso rheoliadau yn gwbl gyson yn ein hymagwedd ar draws marchnadoedd, fe all yr offerynnau rheoleiddio a ddefnyddir amrywio ym mhob marchnad.

## Lleihau rheoleiddio a lleihau beichiau gweinyddol

A1.106 Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylai Ofcom gymryd gofal yn y broses lleihau rheoleiddio. Cyfeiriodd un at Ofcom yn sicrhau bod amodau'r farchnad yn ddigon aeddfed a bod modd cynnal cystadleuaeth yn y farchnad cyn dileu rheoliadau ex-ante. Awgrymodd ddau randdeiliad bod angen i Ofcom, pan fydd yn lleihau rheoleiddio, i ofalu y gall barhau i gyflawni'i ddyletswydd i ddinasyddion ac nad yw grwpiau lleiafrifol yn cael eu hepgor pan adewir i'r farchnad ymdrin â materion.

A1.107 Mae effaith penderfyniadau ar ddinasyddion a defnyddwyr yn bryder canolog i Ofcom. Fel rhan o unrhyw asesiad effaith, caiff effeithiau unrhyw newidiadau ar ddinasyddion a defnyddwyr eu harchwilio. Bydd unrhyw gynigion i ddileu rheoleiddio yn cael eu hasesu'n ofalus er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau niweidiol i ddinasyddion a defnyddwyr, gan gynnwys grwpiau lleiafrifol. Dim ond ar ôl cynnal adolygiad marchnad drylwyr, lle cesglir digon o dystiolaeth, ac ar ôl cynnal asesiad effaith, y bydd Ofcom yn ystyried dileu rheoliadau ex-ante.

A1.108 Credai un ymatebydd bod cwmpas i leihau baich rheoleiddio rhagnodol mewn canllawiau gorfodol manwl ar gyfer codau ymarfer, fel y rheiny sy'n ofynnol o dan Amod Cyffredinol 14. Anogwyd Ofcom gan randdeiliad arall i sicrhau nad yw gwaith ar yr adolygiad o Amodau Cyffredinol yn cael ei oedi.

A1.109 Bwriadwn gyhoeddi dogfen ymgynghori ar ein hadolygiad o Amodau Cyffredinol yn ystod 2008/09.

## Hyrwyddo i'r eithaf ein heffaith ar ddatblygu polisi rhyngwladol

A1.110 Gofynnodd un ymatebydd sut y bydd blaenoriaeth Ofcom i hyrwyddo i'r eithaf ei effaith ar ddatblygu polisi rhyngwladol yn annog cydweithio gyda datblygiadau byd-eang er mwyn cyflawni mwy o gysondeb mewn gwasanaethau rhyngwladol di-dor. Fe wnaeth yr un ymatebydd dynnu sylw ymhellach at y ffaith y gall

buddiannau dinasyddion a defnyddwyr fod yn sylweddol wahanol i fuddiannau defnyddwyr busnes mewn lleoliad rhyngwladol.

A1.111 Mae gan Ofcom rwymedigaeth benodol i gynrychioli'r DU yn yr ITU a CEPT. Rydym yn ymwneud yn weithredol hefyd â mentrau polisi ar lefel Ewropeaidd a fydd yn cael effaith ar ein gallu i gyflawni ein dyletswyddau tuag at ddinasyddion a defnyddwyr, gan gynnwys defnyddwyr busnes. Mae Ofcom yn gweithio'n agos gydag awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol eraill drwy'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd i gyflawni ymagwedd reoleiddio fwy cyson ar draws Ewrop. Byddwn yn parhau i weithio i gefnogi dimensiwn cydlynu rhyngwladol prosiectau polisi allweddol.

A1.112 Rydym yn ymwybodol nad yw buddiannau defnyddwyr busnes a buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn gyfunion bod amser, ond byddwn yn sicrhau y cynrychiolir buddiannau'r ddau yn ein hymgysylltiad rhyngwladol. Un fenter yr ydym wedi bod yn ei dwyn yn ei blaen gyda'r ERG a'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n arbennig o bwysig i fusnesau, yw lleihau cyfraddau crwydro data yn yr UE. Rydym yn pryderu ynghylch effaith y cyfraddau hyn ar fusnesau, sydd yn gynyddol yn dibynnu ar ymgysylltiad, ac yn arbennig ymgysylltiad symudol, ac rydym yn gweithio i wella hyn.

## Cyflwyno gwasanaethau

A1.113 Mynegodd un rhanddeiliad bryder ynglŷn ag effaith ymyrryd answyddogol ar dderbyniad radio mewn nifer o ardaloedd trefol, ac awgrymodd y dylai Ofcom ddatblygu gweithdrefnau i annog y cyhoedd i adrodd am unrhyw ymyriant.

A1.114 Er nad yw'n cael ei nodi'n benodol yn y cynllun blynyddol, mae ymyriant i radio darlledu yn rhan hanfodol o'n gwaith ar atal ymyriant sbectrwm, fel y disgrifir yn Adran 4 y ddogfen hon. Anogir aelodau'r cyhoedd i adrodd am achosion o ymyriant niweidiol i Ofcom drwy rif ffôn unigol yn ogystal â chyfleusterau adrodd drwy e-bost ar ein gwefan - ar hyn o bryd y mae Ofcom yn ymdrin â rhyw 200 o adroddiadau felly bob wythnos. Rydym hefyd yn gweithio gyda gorsafoedd cyfreithlon i roi cyhoeddusrwydd i'r materion hyn ac i annog y cyhoedd i anfon cwynion ymlaen at Ofcom. Dros y flwyddyn nesaf, rydym yn archwilio opsiynau pellach, fel Crime Stoppers i fod yn fwy gweithgar yn y maes hwn.